# Cynllun Blynyddol 2014/15

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2014

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 1 |
| 2 | Ymatebion i’r ymgynghoriad a diwygiadau i’r Cynllun Blynyddol Drafft | 10 |
| 3 | Blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 | 15 |
| 4 | Prif feysydd gwaith ar gyfer 2014/15 | 33 |
| 5 | Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid | 52 |
| 6 | Pwerau cystadleuaeth Ofcom | 58 |
| 7 | Blaenoriaethau/meysydd gwaith posibl y tu hwnt i gwmpas y Cynllun hwn | 59 |
| 8 | Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian | 61 |
| 9 | Lleihau beichiau a chymhlethdod y broses rheoleiddio | 63 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad | 69 |

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Mae Cynllun Blynyddol Ofcom yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2014/15

1.1 Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn nodi dibenion strategol, blaenoriaethau a rhaglen waith Ofcom ar gyfer y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

1.2 Mae ein cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Rydym wedi ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a godwyd yn Atodiad 1 yn y datganiad hwn ac wedi diwygio'r testun Drafft lle bo angen. Ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol rydym hefyd wedi cyhoeddi tabl ar ein gwefan sy'n dangos ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf[1].

## Nid yw ein dibenion strategol wedi newid ers 2013/14, ond rydym wedi addasu ffocws ein gwaith, fel yr adlewyrchir yn ein blaenoriaethau ar gyfer 2014/15

1.3 Prif ddyletswyddau Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth.

1.4 O ran y post, ein prif ddyletswydd yw sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Pan fyddwn yn cynnal ein swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau post, mae gofyn i ni roi blaenoriaeth i'r brif ddyletswydd hon os yw'n ymddangos i ni ei bod yn gwrthdaro â'n prif ddyletswyddau.

1.5 Yn 2013, fe wnaethom ddiffinio strategaeth gyffredinol, a nodir isod. Yn ein barn ni, mae'r strategaeth hon yn sicrhau'r manteision gorau i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.

[1] http://www.ofcom.org.uk/files/2013/03/Programme-of-Work-2014-15.pdf

**Strategaeth Ofcom**

Byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr a dinasyddion drwy hybu cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth a'r cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys y post. Byddwn yn sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, drwy fecanweithiau marchnad pan fo'n bosibl a chamau rheoleiddio pan fo angen. Byddwn yn rhoi diogelwch cymesur i ddefnyddwyr ac yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir. Byddwn yn cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel a lluosogrwydd perchnogaeth o'r cyfryngau.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn byddwn yn ymgynghori'n dryloyw ac yn gymesur. Byddwn yn cael gwybodaeth drwy ymchwil a gwybodaeth o ansawdd uchel a byddwn yn rhannu hynny'n eang. Byddwn yn ystyried amrywiaeth y DU a'i gwledydd. Byddwn yn ceisio bod yn arloesol, yn ymatebol ac yn effeithiol ym mhopeth a wnawn.


1.6 Mae'r strategaeth hon yn berthnasol o hyd. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys y dibenion strategol a'r dulliau gweithredu strategol sy'n ei chefnogi ar gael yng Nghynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2013/14[2].

1.7 Yn ogystal â'r datganiad strategaeth hwn, mae egwyddorion rheoleiddio Ofcom[3] yn dal yn berthnasol, o ran disgrifio sut rydym yn rheoleiddio. Maent yn cynnwys:

- gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen;
- ceisio sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; a
- cheisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.

1.8 Datblygwyd ein dibenion strategol i ddechrau yn 2011 ac fe'u hadolygwyd yn 2013 i adlewyrchu ein strategaeth a fframio ein rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r dibenion hyn yn aros yr un fath ar gyfer 2014/15.

**Ffigur 1: Dibenion strategol**




1.9 Mae rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2014/15 yn seiliedig ar y dibenion strategol hyn, ac yn cyfrannu ati y mae:

- blaenoriaethau'r llynedd a'n cynnydd o ran eu cyflawni;

[2] http://www.ofcom.org.uk/files/2013/03/annplan1314.pdf
[3] http://www.ofcom.org.uk/about/what-is-ofcom/statutory-duties-and-regulatory-principles/

- datblygiadau ehangach yn y farchnad, gan gynnwys newid yn y modd y defnyddir gwasanaethau cyfathrebu;
- newidiadau deddfwriaethol i'n dyletswyddau; a
- meysydd lle mae Ofcom yn darparu arbenigedd a chyngor technegol ac am y diwydiant i'r llywodraeth.

## Rydym wedi cyflawni nifer o'n blaenoriaethau o 2013/14 ac wedi symud ymlaen gyda nifer o rai eraill

1.10 Rydym eisoes wedi cyflawni nifer o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2013/14.

- **Clirio sbectrwm yn amserol ym mandiau 800MHz a 2.6GHz er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodolaeth:** cwblhawyd y gwaith o glirio'r bandiau 800MHz a 2.6GHz yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf ac ym mis Hydref 2013. Rhoddodd hyn gyfle i'r pedwar gweithredwr rhwydweithiau symudol lansio gwasanaethau symudol 4G erbyn dechrau 201, gan sicrhau nad oedd gwasanaethau teledu daearol digidol yn dioddef yn sylweddol.
- **Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang:** mae'r gwaith o sicrhau bod band eang cyflym iawn sefydlog ar gael mewn 95% o eiddo ar y trywydd iawn o ganlyniad i fuddsoddiadau masnachol ac arian cyhoeddus. Mae rhagolygon cadarnhaol ar gyfer 98% o ddarpariaeth dan do ar gyfer dyfeisiau symudol o ganlyniad i ddyletswydd darpariaeth 4G O2.
- **Datblygu dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol:** rydym wedi cyfrannu at waith y llywodraeth o ran diwygio rheoleiddio cynnwys drwy'r broses Adolygiad Cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel diwygio'r broses o reoleiddio'r rhestr electronig o raglenni (EPG), cynnwys R18 a chamau i gadw cynulleidfaoedd yn ddiogel ar-lein, yn arbennig plant. Rydym hefyd wedi gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i sefydlu ParentPort, ac wedi adolygu rheolau sy'n ymwneud â diogelu cynulleidfaoedd a'u diwygio lle bo hynny'n briodol.
- **Ail-drwyddedu sianeli 3, 4 a 5:** nodwyd dyletswyddau cynnwys diwygiedig ar gyfer trwyddedau sianell 3 a Channel 5 ym mis Gorffennaf 2013. Erbyn hyn, rydym wedi cwblhau'r gwaith o aildrwyddedu'r sianeli hyn, yn ogystal â Channel 4.

1.11 Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn sawl maes, ond ni fydd y canlyniad terfynol yn cael ei gyflawni tan ar ôl 2013/14.

- **Buddsoddiad a chystadleuaeth effeithiol mewn band eang:** bydd ein hadolygiad o'r marchnadoedd ar gyfer cysylltiadau llais sefydlog a band eang a mynediad lleol yn allweddol i sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad. Cyhoeddwyd ein cynigion ymgynghori ym mis Gorffennaf 2013 a chaiff ein casgliadau terfynol eu cyhoeddi o gwmpas canol 2014.
- **Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu:** rydym wedi cyhoeddi datganiad polisi sy'n gofyn am symud at broses newid wedi'i chysoni a arweinir gan y darparwr sy'n ennill y

cwsmer yn y rhwydwaith copr Openreach. Byddwn yn gweithio tuag at roi hyn ar waith yn 2014/15.

- **Newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz:** rydym yn paratoi ein hymgynghoriad ar ddadansoddiad cost a budd newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz a materion gweithredu cysylltiedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth ar y mater hwn.
- **Rhyddhau bandiau 2.3GHz a 3.4GHz i ddiwallu'r galw am sbectrwm:** yn sgil cyhoeddiad y Weinyddiaeth Amddiffyn mai Ofcom fyddai'n rheoli'r dyfarniad hwn, rydym wedi bwrw ymlaen â'n paratoadau i ymgynghori ar ddyfarnu'r sbectrwm hwn.
- **Sicrhau darpariaeth y gwasanaeth post cyffredinol:** rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad a pherfformiad y Post Brenhinol ar ôl iddo gael ei breifateiddio, i sicrhau bod ein hamcanion rheoleiddio'n cael eu cyflawni. Rydym wedi ymestyn diogelwch rheoleiddio i holl fannau dosbarthu'r DU ac rydym wedi dechrau adolygu dau god ymarfer y diwydiant.
- **Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau:** rydym wedi cyhoeddi ein datganiad terfynol ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol[4] yn ddiweddar a nawr byddwn yn symud ymlaen i roi'r argymhellion ar waith.
- **Amddiffyn defnyddwyr mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau mud a chodi prisiau ar ganol contract:** rydym yn parhau i nodi meysydd sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr drwy ein rhaglenni monitro a gorfodi, a drwy ddefnyddio data o'n canolfan gyswllt.

## Ein rhaglen waith ar gyfer 2014/15


1.12 Mae'r gwaith a wnawn bob blwyddyn yn dod o dan dri chategori: (i) blaenoriaethau, (ii) prif feysydd gwaith a (iii) gweithgareddau rhaglenni. Trafodir pob un yn ei dro ym mhrif adrannau'r ddogfen hon (Adrannau 3, 4 a 5).

1.13 Nodir ein blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 yn Ffigur 2, o dan eu dibenion strategol priodol.

1.14 Byddwn yn asesu a fydd y blaenoriaethau hyn wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y canlyniadau rydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr. I gyflawni hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol ar gyfer pob blaenoriaeth (gweler tudalennau 31-32) a byddwn yn mesur ein cynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau hyn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15.

[4] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/simplifying-non-geo-no/final-statement

### Ffigur 2: Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2014/15




1.15 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, mae gennym nifer o brif feysydd gwaith fel y gwelir yn Ffigur 3. Mae'r rhain yn feysydd gwaith penodol i Ofcom eu cyflawni yn y flwyddyn nesaf. Mae manylion ein prif feysydd gwaith i'w gweld yn *Adran 4 – Prif feysydd gwaith ar gyfer 2014/15*.

### Ffigur 3: Cynllun Blynyddol 2014/15 – prif feysydd gwaith

**Hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr o ran materion cyfathrebu**

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus**

- Monitro dulliau sylfaenol i reoli traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd
- Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu
- Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu
- Cynnal yr adolygiad o reolaethau ffioedd ar gyfer cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol
- Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes

**Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

- Parhau i adolygu gofynion sbectrwm y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)
- Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol
- Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon
- Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF
- Cefnogi gofynion sbectrwm Prosiect Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y Llywodraeth
- Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant
- Gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ar ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 a 1800MHz

**Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

- Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion agored i niwed
- Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr
- Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol
- Gwerthuso fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd, ac adrodd ar hyn

**Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed**

- Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ffydd defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd
- Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans a biliau annisgwyl o uchel

**Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir**


- Datblygu a chefnogi'r gwaith o reoleiddio radio yn y dyfodol
- Cwblhau'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd
- Gweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac y gellir ei ganfod

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

- Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) ym mis Tachwedd 2015
- Sicrhau cryfder a chynaliadwyedd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol
- Cyhoeddi adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU

1.16 Ochr yn ochr â'n blaenoriaethau a'n prif feysydd gwaith byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhaglenni pwysig i randdeiliaid, i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, fel y nodir yn Ffigur 4. Mae hyn yn cynrychioli 'gwaith busnes yn ôl yr arfer' Ofcom sy'n helpu i gyflawni ein dibenion strategol. Mae modd gweld manylion am y gwaith rhaglenni hwn yn *Adran 5 – Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid*.

### Ffigur 4: Gwaith rhaglenni parhaus Ofcom




## Mae modd crynhoi ein blaenoriaethau a'n prif feysydd gwaith ar gyfer 2014/15 o dan saith thema

1.17 Mae'r themâu hyn un ai'n berthnasol i un o'r dibenion strategol yn uniongyrchol (a nodir yn Ffigur 1) neu'n drawsbynciol ar draws ein dibenion strategol:

- **hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus** – dyma elfen bwysig o strategaeth Ofcom o ran sicrhau marchnadoedd cystadleuol, a byddwn yn cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth i bobl yn y meysydd gwasanaeth hynny lle ceir diffyg tryloywder;

- **sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm** – fel yn 2013/14, mae materion yn ymwneud â sbectrwm yn rhan sylweddol o'n rhaglen waith ar gyfer 2014/15, yn rhoi sylw, er enghraifft, i raglen ar gyfer y posibilrwydd o ryddhau sbectrwm yn y dyfodol gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz;

- **cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir** – bydd Ofcom yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at flaenoriaeth y llywodraeth o wella canlyniadau i gynulleidfaoedd a defnyddwyr ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar amddiffyn plant ar-lein, a chyfrannu at fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau;

- **argaeledd** – sicrhau bod argaeledd gwasanaethau cyfathrebu, band eang sefydlog a symudol a band eang cyflym iawn yn benodol, yn parhau i fod yn rhan bwysig o raglen waith Ofcom. Mae cyfuniad o fuddsoddiad masnachol, rhyddhau sbectrwm, polisi rheoleiddio ac ymyrraeth gan y llywodraeth yn helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn eang. Mae'r rhain yn parhau i fod yn feysydd gweithgarwch arwyddocaol i Ofcom, yn bennaf o ran cefnogi rhagor o fuddsoddiad masnachol ac ymyrraeth gan y sector cyhoeddus;

- **ansawdd gwasanaeth** – mae ansawdd gwasanaethau cyfathrebu yr un mor bwysig ag argaeledd, ac mae'n fwyfwy pwysig i ddefnyddwyr. Yn y maes symudol, byddwn yn gwneud gwaith ar ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch ansawdd y profiad a chyflymder band eang. Byddwn hefyd yn parhau gyda'n gwaith yn y maes rheoli traffig, ac yn dal ati i fonitro ansawdd y gwasanaethau post;

- **cost a gwerth** – hyd yma, rydym wedi gweld canlyniadau gweddol gadarnhaol ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu yn y maes hwn. Bydd ein gwaith yn parhau i dargedu materion fel fforddiadwyedd gwasanaethau craidd a defnyddwyr anabl yn mabwysiadu ac yn defnyddio gwasanaethau. Cyhoeddwyd ein gwaith diweddaraf ar fforddiadwyedd, ac yn fwy cyffredinol ar gost a gwerth gwasanaethau cyfathrebu, yn yr adroddiad *Profiad y Defnyddiwr*[5] ym mis Ionawr 2014; a

- **mabwysiadu** – yn y maes hwn, mae darpariaeth fasnachol, a gefnogir gan bolisi, yn parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau'n dal i gynyddu, gyda gwasanaethau fel band eang a band eang symudol bellach yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio'n eang.

1.18 Byddwn hefyd yn dal i ymateb i faterion newydd, pryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ledled y DU, a cheisiadau newydd gan y llywodraeth. Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

1.19 Yn ogystal ag ymateb i geisiadau gan y llywodraeth a'i helpu i weithredu ei pholisïau ym maes cyfathrebu, byddwn yn helpu'r gweinyddiaethau datganoledig yng ngwledydd y DU i sicrhau bod manteision ar gael i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion ar draws ac yn holl wledydd y DU. Mae manylion am ein gwaith yn y maes hwn i'w gweld yn adran 5.

1.20 Rydym hefyd wedi nodi meysydd a allai fod yn berthnasol i Ofcom yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethau posibl i'r dyfodol ar gyfer y sefydliad, a materion a fydd yn dod i'r fei y bydd yn rhaid i Ofcom lunio barn yn eu cylch yn y dyfodol agos o bosibl. Mae'r rhain yn feysydd y bydd Ofcom yn parhau i gadw llygad arnynt, ond mae'n rhy gynnar cynnal gwaith arnynt ym mlwyddyn ariannol 2014/15. Mae manylion i'w gweld yn adran 7.

## Cyllideb Ofcom ar gyfer 2014/15

1.21 Mae gan Ofcom gyllideb o £117 miliwn ar gyfer 2014/15, heb ddim cynnydd ar gyllideb 2013/14 ac yn cynrychioli 2.6% o ostyngiad mewn termau real. Wrth bennu'r gyllideb ar y lefel hon, byddwn wedi sicrhau gostyngiad cyllidebol mewn termau real

[5] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/consumer-experience/tce-13/TCE_Research_final.pdf

o 28.6% o’i gymharu â 2010/11, gan ragori ar ein hymrwymiad gwreiddiol i sicrhau arbedion cyfan o 28.2% erbyn 2014/15.

## Adran 2

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a diwygiadau i'r Cynllun Blynyddol Drafft

## Rydym wedi nodi nifer o themâu craidd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'n Cynllun Blynyddol Drafft

2.1 Cawsom 30 o ymatebion i'n Cynllun Blynyddol Drafft, a cheir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 1. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion hyn. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf ohonynt yn ein rhaglen waith ar gyfer 2014/15. Roedd y broses ymgynghori yn fuddiol felly wrth gadarnhau amlinelliad eang – a nifer o feysydd gwaith penodol – y Cynllun Blynyddol Drafft.

2.2 Amlinellir y prif themâu isod. Mae cyfeiriadau at feysydd perthnasol yn ein strategaeth a'n rhaglen waith i'w gweld mewn italig.

| | |
|---|---|
| **Cystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn** | **Roedd galwadau am reoleiddio ffibr mewn ffordd debyg i'r rhwydwaith copr, gan gynnwys galw am ddarparu cynnyrch ffibr cyfanwerthol ar sail sy'n gyfwerth â rhentu llinell cyfanwerthol.**<br><br>*Rydym wrthi'n cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod cystadleuaeth a buddsoddiad ym maes darparu gwasanaethau band eang yn arbennig yn parhau i fod yn effeithiol wrth i ddefnyddwyr symud at wasanaethau cyflymach.*<br><br>*Yn ystod 2014/15 byddwn yn parhau i sicrhau bod BT yn ymateb i bob cais rhesymol i gael atebion mynediad y genhedlaeth nesaf a gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio, megis rhentu llinell cyfanwerthol a dad-fwndelu dolen leol. Rydym wedi ystyried opsiynau eraill i rith fynediad lleol wedi'i ddad-fwndelu yn yr adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd a chanlyniadau prosesau'r diwydiant mewn perthynas â hyn.* |
| **Ansawdd gwasanaeth Openreach** | **Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'n gwaith ar ansawdd gwasanaeth Openreach. Roedd galwadau am i'r gwaith hwn fynd y tu hwnt i'r farchnad mynediad sefydlog.**<br><br>*Mae ansawdd gwasanaeth Openreach yn ystyriaeth bwysig yn ein hadolygiad o'r marchnadoedd mynediad sefydlog. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gymell Openreach i ddarparu safon gwasanaeth sy'n bodloni gofynion ei gwsmeriaid cyfanwerthol.*<br><br>*Y tu hwnt i adolygiadau o'r farchnad, mae Ofcom wedi ymrwymo i fonitro perfformiad cwmnïau wedi'u rheoleiddio'n barhaus, gan sicrhau bod gan ddefnyddwyr a busnesau wybodaeth briodol am ganlyniadau gwasanaeth. Byddwn yn ystyried, pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, opsiynau ar gyfer ymyriadau ychwanegol.* |
| **Newid** | **Roedd cefnogaeth eang i'n gwaith ym maes newid i ddefnyddwyr, gyda galwadau i roi prosesau newid sy'n cael eu harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer ar waith mewn rhwydweithiau a thechnolegau eraill y tu hwnt i rwydwaith copr Openreach.**<br><br>*Yn 2013, cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad i gysoni i broses hysbysiad ynghylch trosglwyddo (NoT) sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL) ar gyfer newid rhwng gwasanaethau band eang a llais sefydlog a ddarperir dros rwydwaith copr Openreach.* |

| | |
|---|---|
| | *Rydym yn awr yn ystyried sut i flaenoriaethu camau nesaf ein gwaith ar newid, a byddwn yn cyhoeddi dogfen ar y map ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn ystod gwanwyn 2014.* |
| **Newid defnydd 700MHz** | **Mynegodd nifer o'r ymatebwyr rywfaint o bryderon ynghylch y newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz. Yn benodol, roeddent yn galw ar Ofcom i roi ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr presennol y sbectrwm, gan gynnwys y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) a'r gwasanaethau brys.**<br><br>*Rydym yn cynnal ystod o astudiaethau ar hyn o bryd i'n helpu i ddeall sut gellid rhoi newid o ran defnyddio'r band 700MHz ar waith yn ymarferol, a beth fyddai'r costau a'r buddion cysylltiedig. Bydd y dadansoddiad hwn yn sail i ymgynghoriad ar y newid posibl o ran defnyddio'r band, y byddwn yn ceisio ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2014.*<br><br>*Byddwn yn parhau gyda'n gwaith yn adolygu mynediad i'r sbectrwm PMSE, i ddeall natur unrhyw heriau yn y dyfodol a'r mesurau a all fod yn angenrheidiol i roi sylw i'r heriau hyn.*<br><br>*Mae Ofcom hefyd yn cefnogi Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y llywodraeth, a bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod modd i'r gwasanaethau brys gael mynediad i'r sbectrwm angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau yn y dyfodol.* |
| **Post, Dyletswydd Gwasanaeth Cyffredin a chystadleuaeth o un pen i'r llall** | **Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn derbyn ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer post. Fodd bynnag, mynegodd Dyfodol Defnyddwyr, y Post Brenhinol ac Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu bryderon am gysylltiad cystadleuaeth o un pen i'r llall â'r gwasanaeth post cyffredinol a'n hannog i wneud mwy o waith yn y maes hwn yn 2014/15.**<br><br>*Prif ddyletswydd Ofcom, o ran y post, yw sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Felly, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol a darpariaeth effeithlon y gwasanaeth cyffredinol yn flaenoriaeth i ni.*<br><br>*Cyhoeddodd Ofcom arweiniad ym mis Mawrth 2013 a oedd yn disgrifio'r amgylchiadau lle byddem yn cynnal adolygiad o'r angen i ymyrryd mewn perthynas â chystadleuaeth o un pen i'r llall. Roedd hwn yn dweud y byddem yn cynnal unrhyw adolygiad o'r fath pe bai unrhyw fygythiad gwirioneddol i'r gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ganfod drwy ein system monitro, neu ar sail yr hysbysiadau y mae'n rhaid i weithredwyr post gyda gweithgareddau dosbarthu newydd neu ychwanegol eu darparu i Ofcom. Yn ogystal â hynny, rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o effaith y gystadleuaeth o un pen i'r llall ar y gwasanaeth cyffredinol tuag at ddiwedd 2015, oni fydd adolygiad eisoes wedi cychwyn yn sgil ein monitro.* |
| **Darpariaeth symudol** | **Er bod cefnogaeth ar gyfer ein hamcan lefel uchel i hyrwyddo gwell darpariaeth symudol, roedd yr ymatebwyr yn galw am wahanol atebion, gan gynnwys technoleg celloedd bach a chymorth ar gyfer buddsoddi mewn safleoedd symudol.**<br><br>*Mae hwn yn faes allweddol i Ofcom, ac ym mis Tachwedd 2013 cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu pum pwynt i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â darpariaeth[6]. Byddwn yn asesu pob opsiwn sydd ar gael i helpu defnyddwyr mewn perthynas â heriau darpariaeth symudol. Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth technegol i'r llywodraeth o ran cynllunio a materion eraill a allai effeithio ar argaeledd gwasanaethau symudol.* |

[6] http://consumers.ofcom.org.uk/2013/11/five-point-plan-to-improving-mobile-coverage/

| | |
|---|---|
| **Adolygu'r Amodau Cyffredinol** | **Roedd sawl ymatebydd wedi galw ar Ofcom i gynnal adolygiad o'r Amodau Cyffredinol, ac eraill wedi gofyn i ni edrych ar Amodau Cyffredinol penodol.**<br><br>*Bydd Ofcom yn parhau i adolygu cynnwys yr Amodau Cyffredinol pan fydd yr angen yn codi mewn perthynas â gwaith, yn unol â'n pwerau a'n dyletswyddau. Nid ydym yn bwriadu adolygu pob un o'r Amodau Cyffredinol, ond byddem yn barod i drafod sylwadau rhanddeiliaid ar unrhyw feysydd y maent yn meddwl y dylem roi sylw iddynt.* |

## Yn dilyn yr ymatebion a datblygiadau eraill, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014-15

2.3 Dangosir newidiadau sylweddol i'r Cynllun isod; rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i destun y Cynllun Blynyddol Drafft nad ydynt yn effeithio ar ein rhaglen waith am y flwyddyn.

### Ffioedd trwydded blynyddol sbectrwm

2.4 Byddwn yn parhau â'n gwaith mewn perthynas â gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ynghylch diwygio'r ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900MHz a 1800MHz.

2.5 Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymgynghoriad ar ffioedd diwygiedig, a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2014. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr ymatebion a byddwn yn cyhoeddi datganiad yn 2014.

### Teledu drwy Dalu

2.6 Yn 2010, cyhoeddwyd ein Datganiad ar Deledu drwy Dalu, a oedd yn nodi ein penderfyniad o dan adran 316 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau y dylai Sky gynnig Sky Sports 1 a 2 (SS1&2) cyfanwerthol i adwerthwyr eraill teledu drwy dalu. Roedd y penderfyniad yn adlewyrchu dau bryder: (a) bod Sky yn cyfyngu cyflenwad cyfanwerthol ei sianeli SS1&2 mewn trafodaethau gyda llwyfannau adwerthu teledu drwy dalu gwahanol; a (b) na allai llwyfannau adwerthu teledu drwy dalu newydd wneud elw ar bris y cerdyn cyfraddau ar gyfer SS1&2.

2.7 Apeliodd gwahanol bartïon i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth yn erbyn ein penderfyniad. Yn 2012, penderfynodd y Tribiwnlys y dylai ein penderfyniad gael ei roi i'r naill ochr ar sail dadansoddiad ynghylch a oedd Sky wedi cyfyngu'r cyflenwad o SS1&2 mewn trafodaethau. Ni ystyriodd y Tribiwnlys y cerdyn cyfraddau'n benodol, ond penderfynodd nad oedd angen gwneud hynny oherwydd y gallai Sky gynnig gostyngiadau ar gyfer y cerdyn cyfraddau o dan negodiadau masnachol.

2.8 Apeliodd BT i'r Llys Apêl am benderfyniad y Tribiwnlys, a chefnogodd Ofcom yr apêl. Ym mis Chwefror 2014, rhoddodd y Llys Apêl ei ddyfarniad. Canfu nad oedd y Tribiwnlys wedi dehongli penderfyniad Ofcom yn gywir, nad oedd wedi delio â materion yn ymwneud â'r cerdyn cyfraddau a gostyngiadau, ac nad oedd ei resymau dros beidio â delio â'r rhain yn ddigonol. Canfu felly nad oedd y Tribiwnlys wedi llwyddo i ddelio â'r mater "ar sail teilyngdod" a bod ei benderfyniad i roi'r elfen gyfanwerthol i'r neilltu yn seiliedig ar gyfres anghyflawn o gasgliadau. Gorchmynnodd bod yr achos yn cael ei anfon yn ôl i'r Tribiwnlys.

2.9 Yn ogystal â hyn, gwrthododd y Llys Apêl apeliadau gan Sky ac Uwchgynghrair Lloegr a oedd yn dadlau nad oedd gan Ofcom yr awdurdodaeth o dan adran 316 i

reoleiddio cystadleuaeth o ran darlledu ar lefel adwerthu yn y farchnad. Eglurodd y Llys Apêl fod adran 316 yn caniatáu i Ofcom osod amodau i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran darparu mewn perthynas â chyfanwerthu ac adwerthu gwasanaethau darlledu i ddefnyddwyr yn gyffredinol.

## Post

2.10 Drwy ein hymgynghoriad, amlinellodd rhanddeiliaid pa mor bwysig yw proses effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion defnyddwyr mewn perthynas â gwasanaethau post.

2.11 Yn ogystal â gwaith yn y sector post a nodwyd yn y Cynllun Draft, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o’r modd yr ymdrinnir â chwynion a chynlluniau gwneud iawn.

2.12 Mae’r gwaith a nodwyd yn y Cynllun Drafft o ran gogwydd cost prisiau gwasanaeth cyffredinol wedi cael ei ohirio wrth i ni flaenoriaethu adnoddau'n fewnol.

## Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus

2.13 Ym mis Gorffennaf 2013, rhoddodd y llywodraeth Orchymyn drafft gerbron y Senedd yn unol â'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus. Bwriad y Gorchymyn hwn oedd newid rhai o ddyletswyddau Ofcom, fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol Drafft.

2.14 Mae’r llywodraeth wedi cadarnhau ei bod wedi tynnu’r Gorchymyn hwn yn ôl. Felly, byddwn yn dal ati i weithredu yn unol â’n dyletswyddau.

## Adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

2.15 Mae’r Senedd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyma ddyletswyddau Ofcom wrth gynnal yr adolygiadau hyn:

- adolygu i ba raddau y mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni pwrpas darlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- adrodd yn ôl am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda golwg ar gynnal a chryfhau ei ansawdd yn y dyfodol; ac
- adolygu i ba raddau y mae deunyddiau mewn gwasanaethau cyfryngau wedi cyfrannu at gyflawni amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

2.16 Bydd ein hadolygiad yn adeiladu ar y sylfaen gadarn o waith ymchwil a dadansoddi sydd gennym yn barod. Byddwn yn amlygu’r newidiadau sydd wedi digwydd yn y sector dros y pum mlynedd diwethaf ac yn edrych ar y tueddiadau sy’n debygol o siapio’r pum mlynedd nesaf. Byddwn yn canolbwyntio'n fanylach ar y prif heriau strategol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu i asesu beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion dinasyddion a defnyddwyr.

2.17 Byddwn yn cynnal yr adolygiad drwy gydol 2014/15 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad erbyn haf 2015.

2.18 Mae’r gwaith hwn yn cael ei ddangos fel maes gwaith mawr newydd o’r enw: ‘Sicrhau cryfder a darpariaeth cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol’.

2.19 O dan yr eitem hon rydym hefyd wedi cynnwys ein gwaith sy'n ymwneud â'n dyletswydd ddeddfwriaethol i gynnal adolygiad o ddyletswyddau Channel 4 mewn perthynas â chynnwys y cyfryngau.

## Adroddiad seilwaith

2.20 Mae'r Senedd yn mynnu bod Ofcom yn llunio adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU bob tair blynedd. Eleni, byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad llawn er mwyn ateb y gofyn statudol hwn. I gydnabod ein dyletswydd rydym wedi nodi bod yr adroddiad seilwaith yn faes gwaith mawr o dan y pwrpas strategol: 'Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith'.

## Adolygiad cyfathrebu

2.21 Wrth i'n gwaith yn cefnogi Adolygiad Cyfathrebu'r llywodraeth ddatblygu, rydym yn awr yn canolbwyntio ar nifer o feysydd polisi penodol. Rydym wedi cynnwys ein gwaith ar y materion hyn o dan y meysydd polisi perthnasol yn hytrach nag o dan eitem ar wahân. Mae'r meysydd penodol hyn yn cynnwys ein gwaith yn cefnogi'r dasg o ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau, newid, a'n gwaith yn ymwneud â chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael ac y gellir ei ganfod.

## Gwaith gyda rheoleiddwyr economaidd eraill ar faterion sy'n berthnasol i fwy nag un sector

2.22 Ar ôl ffurfio Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU, byddwn yn parhau i gydweithio â rheoleiddwyr economaidd eraill i wneud yn siŵr ein bod yn delio â materion sy'n gyffredin i bawb, neu sy'n croesi ffiniau sectorau, mewn ffordd ystyrlon ac effeithlon. Rydym wedi cynnwys hyn fel rhan o'n gwaith rhaglenni.

2.23 Bydd Ofcom yn arwain ar ddau lif gwaith sy'n destun blaenoriaeth y mae Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU wedi'u dynodi: (i) materion yn ymwneud â dycnwch ar draws sectorau a diogelwch seibr; a (ii) sut gall trefniadau rheoleiddio sicrhau ansawdd gwasanaethau a reoleiddir.

2.24 Byddwn hefyd yn gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill pan fo hynny'n briodol. Un enghraifft o hyn yw'r defnydd sy'n dod i'r amlwg o wasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu mewn mathau newydd o daliadau electronig a masnach ddigidol. Wrth i'r ffin rhwng gwasanaethau cyfathrebu a gwasanaethau talu fynd yn fwy niwlog, mae angen i ni ddeall y goblygiadau posibl i ddefnyddwyr ac unrhyw broblemau a allai godi. Wrth wneud hyn, byddwn yn cydweithio â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a chyrff perthnasol eraill.

## Adran 3

# Blaenoriaethau ar gyfer 2014/15

## Mae ein dibenion strategol a’n dulliau gweithredu yn tywys ein blaenoriaethau

3.1 Mae’r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn rhannu ein rhaglen waith yn dri chategori.


- **Blaenoriaethau:** y meysydd gwaith pwysicaf, mwyaf penodol i Ofcom eu cyflawni yn y flwyddyn i ddod i sicrhau ein bod yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Er mwyn helpu i fesur hyn, rydym wedi pennu’r canlyniadau interim a therfynol sy’n gysylltiedig â phob blaenoriaeth (gweler Ffigur 6, tudalennau 28-9 ar gyfer y canlyniadau hyn).

- **Prif feysydd gwaith:** meysydd pwysig eraill lle bwriadwn wneud rhagor o waith yn ystod 2014/15 (Adran 4).

- **Gwaith rhaglenni:** yr ydym yn ei gyflawni’n barhaus, gan ddarparu gwasanaethau pwysig i randdeiliaid, dinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn yn cynrychioli llawer o'r gwaith ‘busnes yn ôl yr arfer’ sy’n helpu i gyflawni ein dibenion strategol (Adran 5).

3.2 Er mwyn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ac mewn perthynas â’n dyletswyddau presennol, mae ein blaenoriaethau’n cydbwyso gwaith newydd ag ymrwymiadau parhaus. Maent yn cael eu tywys gan ein chwe diben strategol.

### Ffigur 5: Dibenion Strategol a blaenoriaethau



## Diben strategol 1: hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

3.3 Mae cystadleuaeth effeithiol a dewis ar sail gwybodaeth yn elfennau o farchnadoedd cyfathrebu sy'n gweithredu'n dda, ac maent yn debygol o gefnogi arloesedd, sicrhau prisiau effeithlon i ddefnyddwyr ac arwain at gymhellion ar gyfer buddsoddiad effeithlon mewn rhwydweithiau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd.

3.4 Mae nodweddion marchnadoedd cyfathrebu yn cynnwys effeithiau, graddfa, manteision a chymhlethdod rhwydwaith cryf. Rydym yn rhagweld swyddogaeth barhaus ar gyfer rheoleiddio *ex ante*, gan gynnwys rheoleiddio i hybu cystadleuaeth rhwng cyflenwyr a chefnogi dewis i ddefnyddwyr.

3.5 Rydym wedi pennu tair blaenoriaeth benodol ar gyfer 2014/15, sy'n ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ac y bwriedir iddynt ddarparu manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus | • Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn<br>• Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu |
|---|---|

### Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn

3.6 Mae'r gwaith o gyflwyno a mabwysiadu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn parhau. Mae gwasanaethau o'r fath ar gael i dros 73% o eiddo, gyda bron i chwarter cwsmeriaid band eang yn prynu gwasanaeth cyflym iawn. Mae gan y llywodraeth darged i sicrhau y bydd gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael i 95% o eiddo erbyn 2017, ac mae'n darparu arian cyhoeddus i ategu'r buddsoddiad preifat i helpu i gyrraedd y targed hwn.

3.7 Yn 2010 sefydlodd Ofcom fframwaith rheoleiddio clir ar gyfer buddsoddi mewn mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA) a chystadleuaeth mewn band eang cyflym. Mae'r fframwaith hwn yn mynnu bod BT yn cynnig rhith fynediad lleol wedi'i ddad-fwndelu (VULA) at ei seilwaith ffibr cenhedlaeth nesaf, er mwyn i ddarparwyr eraill allu cystadlu gyda BT i gyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr; ystyrir bod hyn yn bwysig i gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad mynediad lleol cyfanwerthol ar gyfer gwasanaethau band eang cyflym iawn. Mae'r fframwaith hefyd yn rhoi hyblygrwydd cyffredinol i BT o ran y prisiau y mae'n eu codi am rith fynediad lleol wedi'i ddad-fwndelu, a drwy hynny, mae'n cefnogi ei gynllun i fuddsoddi yn seilwaith mynediad y genhedlaeth nesaf.

#### Adolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog

3.8 Ddiwedd 2012, yn unol â'r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebu electronig, fe wnaethom ddechrau adolygu'r marchnadoedd ar gyfer cysylltiadau llais sefydlog a band eang a mynediad lleol. Cyhoeddwyd ein cynigion ymgynghori ym mis Gorffennaf 2013[7], a bydd ein casgliadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ganol 2014. Bydd canlyniad yr adolygiadau hyn o'r farchnad yn rhan allweddol o sicrhau bod

[7] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/fixed-access-market-reviews/

cystadleuaeth a buddsoddiad ym maes darparu gwasanaethau band eang, yn arbennig, yn parhau i fod yn effeithiol wrth i ddefnyddwyr symud at wasanaethau cyflymach.

3.9 Yn ystod 2014/15 byddwn yn parhau i sicrhau bod BT yn ymateb i bob cais rhesymol i gael yr atebion mynediad NGA, a gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio (megis rhentu llinell cyfanwerthol a dad-fwndelu dolen leol), gan ganiatáu i ddarparwyr eraill eu defnyddio'n effeithiol.

Ansawdd gwasanaeth Openreach

3.10 Ystyriaeth bwysig yn ein hadolygiad o'r marchnadoedd band eang a llais sefydlog yw sicrhau bod Openreach yn cael ei gymell (un ai drwy fecanweithiau sy'n seiliedig ar y farchnad neu reoleiddio) i gyflenwi gwasanaethau i'r ansawdd a ddisgwylir gan ei gwsmeriaid cyfanwerthol a'i ddefnyddwyr priodol.

3.11 Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gymell Openreach i ddarparu safon gwasanaeth sy'n bodloni gofynion ei gwsmeriaid cyfanwerthol a'r defnyddwyr preswyl a busnes a wasanaethir ganddynt. Mae cysylltiad agos rhwng hyn â'n gwaith ar gyflwyno fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau mynediad lleol cyfanwerthol Openreach.

3.12 Erbyn canol 2014 bydd gennym reoliadau newydd arfaethedig wedi'u cynllunio i gynyddu'r cymhelliant i Openreach wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a dyletswyddau rheoleiddio newydd i fodloni safonau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, yn ogystal â chyfres o gynlluniau gwella gweithredol a hwylusir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebu. Cyhoeddir datganiad terfynol yng nghanol 2014.

3.13 Pan fyddwn wedi cwblhau ein gwaith ar gyflwyno dyletswyddau rheoleiddio newydd ar Openreach yn y marchnadoedd mynediad sefydlog, byddwn yn monitro'r modd y mae Openreach yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau newydd. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro perfformiad Openreach o ran darparu gwasanaethau Ethernet ac yn ystyried a fydd angen i ni gymryd camau pellach o bosibl.

## Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd

3.14 Er mwyn i'r farchnad cyfathrebu weithio'n dda, credwn fod yn rhaid i ddefnyddwyr allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n bwysig bod gwybodaeth berthnasol, glir, gywir a dealladwy ar gael iddynt. Mae hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau a gweithredu arnynt; er enghraifft, drwy newid rhwng darparwyr i gael bargen well.

3.15 Yn ystod 2014/15, bydd meysydd blaenoriaeth Ofcom ar wybodaeth defnyddwyr yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth mewn nifer o feysydd newydd sydd o bwys cynyddol:

Ansawdd y profiad o ddyfeisiau symudol

3.16 Yn 2014 bydd Ofcom yn cynnal gwaith ymchwil newydd i ansawdd derbyniad a darpariaeth dyfeisiau symudol, a all gynnwys gwybodaeth fel canran y galwadau a 'gollir' yn ogystal ag ansawdd sain galwadau.

## Cyflymder band eang dyfeisiau symudol

3.17 Byddwn yn cyhoeddi cyflymder band eang cyfartalog dyfeisiau symudol a dderbynnir gan gwsmeriaid 3G a 4G. Rydym yn credu y bydd y wybodaeth hon yn helpu cwsmeriaid i wneud y dewisiadau iawn ac yn annog darparwyr i wella eu perfformiad.

3.18 Mae gwybodaeth defnyddwyr dyfeisiau symudol yn un rhan o gynllun pum pwynt Ofcom i wella darpariaeth dyfeisiau symudol[8] a byddwn yn trafod hyn ymhellach yn adran 4.

## Arferion rheoli traffig

3.19 Rydym yn parhau i ystyried tryloywder gwybodaeth ynghylch rheoli traffig i sicrhau bod pobl yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

3.20 Yn y datganiad yn 2011, roeddem wedi rhoi ein safbwyntiau ar lefel y wybodaeth i ddefnyddwyr mae arnom eisiau gweld y farchnad yn ei darparu, a'r amgylchiadau a allai gyfiawnhau datblygu safon gwasanaeth sylfaenol. Yn ystod 2013, roeddem wedi cynnal gwaith ymchwil i benderfynu pa mor effeithiol oedd y cod ymarfer gwirfoddol a fabwysiadwyd gan y diwydiant yn 2012, a oedd yn ymrwymo i sicrhau tryloywder i ddefnyddwyr ynghylch polisïau rhwydwaith a allai effeithio ar brofiad defnyddwyr, ac yn cynnwys cyhoeddi dangosyddion ffeithiau allweddol.

3.21 Dangosodd y gwaith ymchwil mai ychydig iawn y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei wybod am sut mae'r rhyngrwyd yn gweithio. Mae'r bwlch hwn o ran ymwybyddiaeth yn golygu nad yw defnyddwyr yn gyfarwydd â materion fel rheoli traffig, gyda dim ond oddeutu un o bob deg yn ymwybodol o'r term. Hefyd, o blith yr ychydig o ddefnyddwyr a oedd yn ymwybodol o'r term a'i ystyr, roedd llai na thraean yn ymwybodol bod prosesau rheoli traffig yn cael eu defnyddio gan ddarparwyr rhyngrwyd ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, awgryma hyn nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU yn deall perthnasedd posibl rheoli traffig i'r cynnyrch o'u dewis.

3.22 Fodd bynnag, canfu'r gwaith ymchwil hefyd fod y wybodaeth rheoli traffig a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd (dangosyddion ffeithiau allweddol a deunyddiau ategol) yn dryloyw, at ei gilydd. Er enghraifft, roedd 73% o ddefnyddwyr a oedd yn ymwybodol o bolisi rheoli traffig eu darparwr gwasanaethau rhyngrwyd yn credu bod y wybodaeth dangosyddion ffeithiau allweddol yn hawdd ei deall.

3.23 Er y byddem yn disgwyl i gystadleuaeth rhwng gweithredwyr ddatrys rhai pryderon allweddol ynghylch arferion rheoli traffig, rydym yn cydnabod na all cystadleuaeth fod yn effeithiol os nad yw defnyddwyr yn derbyn digon o wybodaeth. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant, drwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang, i edrych ar ffyrdd o wella'r sefyllfa hon.

3.24 Bydd ein gwaith yn y meysydd uchod yn cael ei ategu gan ein rhaglen barhaus o fesur a chyhoeddi gwybodaeth am ddefnyddwyr yn y meysydd canlynol:

- cwynion defnyddwyr;
- pa mor fodlon yw defnyddwyr ag ansawdd y gwasanaeth; a

[8] http://consumers.ofcom.org.uk/2013/11/five-point-plan-to-improving-mobile-coverage/

- chyflymder band eang sefydlog.

## Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu

3.25 Mae symud ymlaen ymhellach i sicrhau effeithiolrwydd gweithdrefnau newid yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom er mwyn cyflawni nodau cystadleuaeth effeithiol, dewisiadau ar sail gwybodaeth, a diogelu defnyddwyr. I gyflawni hyn, rydym yn bwrw ymlaen â'n hadolygiad o'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni dau ganlyniad allweddol:

- profiad hawdd a hwylus o newid i'r defnyddiwr, heddiw ac yn y dyfodol. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes dim rhwystrau proses diangen i atal newid ar gyfer gwasanaethau sengl neu fwndeli; a

- sicrhau bod prosesau newid yn arwain at ganlyniadau cystadleuol effeithlon.

<u>Adolygu'r prosesau newid</u>

3.26 Mae cam cyntaf ein hadolygiad wedi rhoi sylw i'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau sy'n defnyddio rhwydwaith copr Openreach. Mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi'r nifer fwyaf o newid ar gyfer gwasanaethau band eang a llais sefydlog, ac roeddem wedi'i nodi fel y maes a allai achosi'r niwed mwyaf posibl i ddefnyddwyr.

3.27 Ym mis Awst 2013, cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad y dylai darparwyr cyfathrebu gysoni i broses hysbysiad ynghylch trosglwyddo (NoT) sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n ennill (GPL), ar gyfer newid rhwng gwasanaethau band eang a llais sefydlog a ddarperir dros rwydwaith copr Openreach.

3.28 Roeddem yn ystyried y byddai cysoni i broses sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n ennill yn (i) tarfu llai na phroses sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n colli (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer oddeutu 10% o newidiadau) (ii) yn cefnogi profiad o newid mwy cadarnhaol i'r defnyddwyr, a (iii) yn fwy tebygol o gefnogi canlyniadau cystadleuol.

3.29 Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r diwydiant a Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebu (OTA) yn 2014/15 ar y cysoni hyn.

3.30 Roeddem hefyd wedi ymgynghori ar bedwar o welliannau allweddol i'r broses hysbysiad ynghylch trosglwyddo i'w rhoi ar waith:

- gorfod cael cofnod o ganiatâd y cwsmer i newid, er mwyn gwarchod rhag slamio;

- gorfodi'r defnydd o systemau a phrosesau i sicrhau y collir cyn lleied o wasanaeth â phosibl wrth newid bwndeli;

- darparu gwell gwybodaeth ynghylch goblygiadau newid; a

- gorfodi darparwyr i roi gorchmynion 'cymryd drosodd llinell sy'n gweithio' pan fydd ganddynt linell sy'n cyfateb yn union, a hefyd rhaid iddynt roi gwybod i ddefnyddwyr fod eu llinell am gael ei chymryd drosodd.

3.31 Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddwyd ein datganiad ar y broses Hysbysiad ynghylch Trosglwyddo. Roedd y datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau ynghylch gwelliannau i'r broses Hysbysiad ynghylch Trosglwyddo yr oeddem wedi ymgynghori

yn ei chylch ym mis Awst 2013. Roedd hefyd yn nodi'r newidiadau i'r Amodau Cyffredinol yr oedd eu hangen er mwyn cysoni.

3.32 Byddwn yn symud ymlaen i gam pellach y gwaith yn 2014, sef ystyried a fyddai'n briodol gwneud newidiadau pellach. Y prif ystyriaethau fyddai:

- **Trosglwyddo mewn Camgymeriad** (ETs) – gwella ansawdd data cyfeiriadau Openreach (sy'n un o brif achosion trosglwyddo mewn camgymeriad); gwerthuso cynlluniau'r diwydiant i allu adnabod y llinell gywir i'w newid yn iawn; ac asesu'r risgiau i ddefnyddwyr o drosglwyddo mewn camgymeriad wrth i dechnolegau newydd (e.e. Ffibr i'r Safle) ddod i'r amlwg.

- **A ddylid ymestyn y broses newid i gynnwys technolegau a rhwydweithiau eraill** i sicrhau bod defnyddwyr yn cael profiad tebyg o'r dechrau i'r diwedd wrth newid, beth bynnag fo'r rhwydweithiau sylfaenol neu'r gwasanaeth cyfanwerthol.

Mae'r Llywodraeth yn ceisio rhoi dyletswydd i Ofcom mewn perthynas â newid bwndeli

3.33 Yn olaf, dywedodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyhoeddiad *Connectivity, Content and Consumers* ym mis Gorffennaf 2013, ei bod yn bwriadu deddfu i roi dyletswydd i Ofcom sicrhau profiad cyson ac effeithiol i ddefnyddwyr sy'n newid rhwng bwndeli, ac y byddai'n gweithio at system o newid sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n ennill yn gyffredinol. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth fel y bo'n briodol i'w helpu i ddatblygu ei hamcanion mewn perthynas â newid.

Ffioedd terfynu cynnar mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu

3.34 Yn ystod 2013/14, buom yn bwrw ymlaen â'r gwaith o orfodi'r Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr yn y sector band eang a llais sefydlog, dan y Rhaglen Gorfodi Ffioedd Ychwanegol. Roeddem yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod telerau contract defnyddwyr sy'n ymwneud â ffioedd terfynu cynnar (ETCs) yn deg.

3.35 Rydym yn bwriadu parhau i fonitro cwynion am delerau contract annheg, gan gynnwys ffioedd terfynu cynnar yn 2014/15. Byddwn yn gweithredu, fel y bo'n briodol, ar bob achos yn unigol. Byddwn hefyd yn monitro'r modd y cydymffurfir ag Amod Cyffredinol 9, a'n canllaw Amod Cyffredinol 9.6, gan weithredu fel y bo'n briodol. Er bod cwynion am ffioedd terfynu cynnar wedi gostwng yn sylweddol ers i ni ddechrau'r rhaglen hon, mae tegwch telerau contract defnyddwyr yn dal yn bryder o bwys i Ofcom o ran diogelu defnyddwyr.

3.36 Bydd hyn yn ein helpu i nodi beth ddylai ein blaenoriaethau nesaf fod o dan y rhaglen. Gall hyn gynnwys camau gorfodi yn erbyn darparwyr penodol, a bydd unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi drwy'r Bwletin Gorfodaeth a Chystadleuaeth Defnyddwyr (CCEB).

## Diben strategol 2: sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm

3.37 Mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Er nad yw ynddo'i hun yn ganlyniad i ddefnyddwyr, mae defnyddio sbectrwm yn y ffordd orau yn fewnbwn allweddol i ddarparu canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion o ran darparu gwasanaethau, cystadleuaeth, dewis ac argaeledd eang.

| Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm | • Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014<br>• Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz a'r newid posibl mewn defnydd ar gyfer y band 700MHz<br>• Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol |
|---|---|

## Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014

3.38 Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014. Mae hyn yn cynnwys trwyddedu defnyddwyr di-wifr a rheoli unrhyw achosion o ymyrraeth. Ein cyfraniad ni at lwyddiant y digwyddiad fydd sicrhau bod y sbectrwm hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gyda chyn lleied â phosibl o darfu'n digwydd i ddefnyddwyr presennol.

3.39 Rydym yn gweithio'n agos gydag Arqiva PMSE, sy'n rheoli'r gwasanaethau sbectrwm gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) ar ein rhan. Mae'r gwaith hwn yn golygu sefydlu a gweithredu prosesau trwyddedu a threfniadau cydlynu effeithiol rhwng Teulu'r Gemau a defnyddwyr PMSE eraill yn ardal Glasgow. Rydym wedi ceisio bodloni gwarantau sbectrwm llywodraeth y DU gan darfu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr eraill o ddydd i ddydd.

3.40 Yn 2014/15, byddwn yn:

- parhau i weithio gydag Arqiva PMSE i gynnal aseiniadau technegol o'r sbectrwm ar gyfer defnyddwyr y Gemau ac yn cydlynu'r rhain ag aseiniadau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn ymwneud â'r Gemau;

- defnyddio rhwydwaith o synwyryddion mewn lleoliadau allweddol yn y Gemau a thu allan i'r lleoliadau, i'n helpu i ganfod lleoliad ffynonellau signal radio sy'n ymyrryd;

- cyn y Gemau, monitro'r sbectrwm a ddefnyddir mewn lleoliadau allweddol i sicrhau nad oes ymyrraeth niweidiol ar yr amleddau;

- cyn y Gemau, rhedeg proses ar gyfer comisiynu gosodiadau radio sefydlog, a phrofi a thagio gwasanaeth dilysu ar gyfer holl gyfarpar di-wifr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau trwyddedig i'w defnyddio yn lleoliadau'r Gemau; ac

- adeg y Gemau, defnyddio adnoddau medrus penodol i sicrhau bod unrhyw ymyrraeth niweidiol i wasanaethau di-wifr yn cael ei rheoli'n briodol.

## Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ac ar gyfer y newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz

### Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz

3.41 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi penderfynu rhyddhau 40 MHz o sbectrwm yn y band 2.3GHz (2350 i 2390MHz) yn ogystal â'r 150 MHz o fewn y band 3.4GHz (rhwng 3410 a 3600MHz) ar gyfer defnydd sifil. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ar 13 Medi 2013 y byddai Ofcom yn dyfarnu. Mae Ofcom yn disgwyl dyfarnu'r sbectrwm hwn i ddefnyddwyr newydd posibl drwy arwerthiant. Cyn gwneud hynny, mae gennym nifer o weithgareddau cychwynnol i'w cyflawni.

3.42 Ar 16 Hydref 2013, fe wnaethom gyhoeddi dogfen yn ymgynghori ar gynllun band 3.4GHz ac yn galw am fewnbwn ar agweddau eraill dyfarniad band 2.3 a 3.4GHz.

Roeddem wedi gwahodd rhanddeiliaid a oedd yn debygol o fod â diddordeb mewn cael mynediad i'r amleddau a oedd ar gael i roi eu barn ynghylch rhai agweddau o'r dyfarniad, yn arbennig sut byddent yn defnyddio'r sbectrwm. Roeddem hefyd wedi amlinellu ein safbwyntiau polisi cychwynnol am y dyfarniad.

3.43 Ar 19 Chwefror 2014 fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad, *Public Sector Spectrum Release (PSSR) – Technical coexistence issues for the 2.3 and 3.4 GHz award*[9]. Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n benodol ar gydfodolaeth yn y dyfodol rhwng defnyddwyr newydd posibl y sbectrwm a'r rheini sy'n defnyddio amleddau cyfagos ar hyn o bryd. Ym mis Mehefin 2013, fe wnaethom ymgynghori'n benodol ar effaith y rhyddhau ar radio amatur, ac rydym yn disgwyl gwneud datganiad am ddefnydd radio amatur o'r bandiau yn y dyfodol yn ystod gwanwyn 2014.

3.44 Rydym yn disgwyl penderfyniad terfynol gan Bwyllgor Sbectrwm Radio'r UE, ar fesur cysoni Ewropeaidd sy'n rhwymo o dan y gyfraith ar gyfer y band 3.4GHz, ym mis Mawrth 2014. Byddwn yn monitro mentrau parhaus o fewn Ewrop yng nghyswllt band 2.3GHz.

3.45 Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y dyfarniad, gan gynnwys ein polisïau mewn perthynas â'r dyfarniad a chynllun yr arwerthiant yn ystod haf 2014. Y cynharaf y byddwn yn debygol o ddyfarnu yw yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16.

## Paratoi ar gyfer newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz

3.46 Roedd ein datganiad strategaeth sbectrwm UHF yn nodi ein cynlluniau i alluogi newid posibl o ran defnydd a rhyddhau 700MHz at ddefnydd symudol wedi'i gysoni. Ar yr un pryd, mae'r strategaeth yn anelu at sicrhau y gall y llwyfan teledu daearol digidol gadw mynediad tymor hwy at y band 600MHz petai'r defnydd a wneir o'r band 700MHz yn newid. Mae ein strategaeth yn ceisio sicrhau manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion yn wyneb twf mewn galw am ddata symudol a'r gwerth parhaol y mae defnyddwyr yn ei roi ar deledu gwylio am ddim.

3.47 Mae gwasanaethau teledu gwylio am ddim yn debygol o aros yn hollbwysig ar gyfer amrywiaeth o amcanion polisi economaidd a chymdeithasol, er enghraifft cefnogi cyrhaeddiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr. Teledu daearol digidol yw conglfaen teledu gwylio am ddim yn y DU, felly bydd dadansoddiad strategol o'r effeithiau posibl ar deledu daearol digidol yn sail i'n penderfyniad ynghylch y newid posibl mewn defnydd mewn perthynas â'r band sbectrwm 700MHz. Mae hyn yn cynnwys deall goblygiadau posibl newid defnydd y band 700MHz ar gyfer gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn dod o dan yr aml-blecsau interim ar 600MHz.

3.48 Bydd ein dull strategol o weithredu hefyd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau trwyddedig eraill yn parhau i gael eu darparu yn y band, fel dolenni microffonau di-wifr, ac yn caniatáu defnyddio gwasanaethau sy'n seiliedig ar dechnoleg gwyn. Mae'r sector PMSE yn rhoi manteision pwysig i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Rydym yn datblygu strategaeth sydd â'r bwriad o sicrhau y gall y sector PMSE barhau i gynnig y manteision hyn, yn dilyn unrhyw newid yn nefnydd y band 700MHz. Trafodir hyn ymhellach ar dudalen 34.

3.49 Rydym yn cynnal ystod o astudiaethau ar hyn o bryd i'n helpu i ddeall sut gellid rhoi newid o ran defnyddio'r band 700MHz ar waith yn ymarferol, a beth fyddai'r costau

[9] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/pssr-2014/

a'r buddion cysylltiedig. Bydd y dadansoddiad hwn yn sail i ymgynghoriad ar newid posibl o ran defnyddio'r band, ac rydym yn anelu at gyhoeddi hwn yn ystod gwanwyn 2014. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod hydref 2014. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth i ystyried goblygiadau ein dadansoddiad.

3.50 Ar y cyd â hyn, byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol ynghylch cysoni'r band 700MHz – gan gynnwys trafod datblygu cynllun band symudol. Byddwn hefyd yn ceisio cynrychioli buddiannau'r DU ar ran y llywodraeth mewn trafodaethau rhyngwladol ynghylch y posibilrwydd o gydlynu cynllun amledd teledu daearol digidol diwygiedig.

### Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol

3.51 Bydd datblygu ein cynllun ar ofod gwyn er mwyn ehangu cwmpas rhannu sbectrwm yn rhan allweddol o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf. Hefyd, byddwn yn cefnogi gwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn ar rannu sbectrwm newydd yng nghyd-destun rhaglen rhyddhau sbectrwm sector cyhoeddus y llywodraeth, ac ar wahân i hynny, yn datblygu ein gwaith ein hun ar fynediad sbectrwm deinamig.

3.52 Mae'r term 'sbectrwm gofod gwyn' yn cyfeirio at amleddau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau drwy'r amser neu ym mhob lleoliad. Amleddau yn y band sbectrwm 470MHz i 790MHz yw gofod gwyn teledu (a elwir hefyd yn fand UHF) nad ydynt yn cael eu defnyddio ar adegau penodol neu mewn lleoliadau penodol gan ddefnyddwyr trwyddedig presennol teledu daearol digidol (DTT) a PMSE ar gyfer microffonau di-wifr.

3.53 Mae dyfeisiau di-wifr sy'n ymwybodol o leoliad, gyda chymorth cronfeydd data sy'n darparu gwybodaeth am argaeledd gofod gwyn gan ystyried y defnydd trwyddedig sydd eisoes yn bodoli, yn cynnig mynediad manteisgar i fandiau amleddau nad ydynt yn cael eu defnyddio o amgylch y DU ar gyfer gwasanaethau arloesol a defnyddiol. Rydym yn credu y gellid defnyddio'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar gronfa ddata i gefnogi'r broses o rannu'r sbectrwm yn ddeinamig mewn bandiau sbectrwm eraill yn y dyfodol.

3.54 Rydym wedi bod yn gweithio ar gyflwyno peilot o'r fframwaith ar gyfer cael mynediad i ofod gwyn teledu, a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2013. Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn gynharach yn y flwyddyn ynghylch cydfodolaeth dyfeisiau gofod gwyn a gwasanaethau eraill yn y band UHF a chyfagos i'r band hwnnw.

3.55 Bydd ein gwaith ym maes gofod gwyn teledu yn parhau yn y meysydd canlynol:

- **Treialon Peilot** – rydym yn disgwyl y cynhelir y peilot yn ystod hanner cyntaf 2014, ond byddwn yn hwyluso treialon a fydd yn parhau ar ôl hyn os bydd galw ymysg y rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl y cynhelir nifer o dreialon diwydiant, a gefnogir gan gronfeydd data, mewn gwahanol rannau o'r wlad, gan ymchwilio i wahanol ddefnydd o'r sbectrwm gofod gwyn teledu. Byddwn yn profi'r fframwaith yn ystod y treialon hyn.

- **Profi cydfodolaeth** – rydym hefyd yn disgwyl cynnal rhaglen o brofion cydfodolaeth gyda rhanddeiliaid yn ystod hanner cyntaf 2014. Bydd hyn yn cynnwys cymysgedd o brofion yn ystod y treialon peilot a phrofion pwrpasol. Mae'r rhaglen o brofion wedi'i dylunio i'n galluogi ni i wirio bod ein dull gweithredu o ran caniatáu mynediad i ofod gwyn teledu, i'r graddau sy'n rhesymol, yn sicrhau tebygolrwydd isel o ymyrraeth niweidiol i ddefnyddwyr presennol y sbectrwm. h.y.

teledu daearol digidol a microffonau di-wifr. Ochr yn ochr â'n profion, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar gydfodolaeth. Rydym yn disgwyl y bydd y treialon peilot yn profi'r cysyniad o rannu sbectrwm a gefnogir gan gronfa ddata ac y bydd y profion yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol ynghylch sut mae diffinio paramedrau cydfodolaeth yn briodol.

3.56 Gallai dulliau gweithredu ar gyfer rhannu'r sbectrwm hefyd fod yn berthnasol i fandiau eraill, y tu hwnt i ofod gwyn teledu. Er enghraifft, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar ei chynlluniau i rannu ystod o amleddau rhwng 4800MHz a 4900MHz a rhwng 1427MHz a 1452MHz. Bydd Ofcom yn parhau gyda rhaglen waith drwy 2014/15 i adnabod heriau cydfodolaeth ac yn cymryd y camau angenrheidiol i alluogi'r sbectrwm hwn i fod ar gael ar gyfer defnydd sifil newydd, yn unol â'n dyletswyddau rheoleiddio.

3.57 Ar 9 Awst 2013, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad: *The future role of spectrum sharing for mobile and wireless data services – Licensed sharing, WiFi, and dynamic spectrum access*[10] ac roeddem wedi gwahodd ymatebion erbyn 9 Tachwedd. Byddwn yn ystyried yr ymatebion hyn wrth ddatblygu ein gwaith sbectrwm. Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad terfynol yn ystod hanner cyntaf 2014.

3.58 Nod yr ymgynghoriad hwn oedd cael gwell dealltwriaeth o'r rôl y gallai sbectrwm a rennir ei chwarae yn y sectorau peiriant i beiriant (M2M) a band eang symudol, yn ogystal â bandiau sbectrwm eraill sydd wedi'u clirio. Rydym am ddeall y rôl y gallai sbectrwm wedi'i rannu ar sail drwyddedig, heb drwydded a deinamig ei chael o ran agor mynediad i ragor o sbectrwm. Rydym yn awyddus i ddeall sut gallai hyn gefnogi arloesedd, a pha anfanteision y gallai ei gyflwyno, er enghraifft ei gwneud yn anoddach i reoli ymyrraeth rhwng defnyddwyr sbectrwm.

3.59 Yn 2014/15 byddwn yn dechrau ystyried cwmpas rhannu sbectrwm yn ehangach. Byddwn yn ystyried pa mor addas yw ystod o fandiau amledd ar gyfer mynediad wedi'i rannu er mwyn cynyddu faint o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys M2M. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried dulliau gweithredu ar gyfer gwella mynediad at sbectrwm wedi'i rannu, fel cronfeydd data daearleoliad a synhwyro sbectrwm. Bydd yn rhaid i ni ystyried a oes angen mecanweithiau awdurdodi rheoleiddiol newydd i alluogi a chefnogi rhannu sbectrwm. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys (i) parhau i gefnogi gwaith Grŵp Polisi Sbectrwm Radio'r Comisiwn Ewropeaidd, i ddatblygu dull gweithredu cysyniadol ar gyfer fframwaith rheoleiddio Mynediad Rhannu Trwydded newydd a (ii) cefnogi gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT).

## Diben strategol 3: hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

3.60 Mae gwasanaethau cyfathrebu yn dal i dyfu, o ran eu hamlygrwydd a'u pwysigrwydd i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, gan alluogi defnyddwyr i gyfrannu at gymdeithas. Er mwyn cefnogi hyn rydym yn canolbwyntio ar hybu cyfleoedd i gymryd rhan – gan geisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eang a lleihau'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag eu mabwysiadu a'u defnyddio'n effeithiol.

| Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi | • Sicrhau darpariaeth barhaus y gwasanaeth post cyffredinol |
|---|---|

[10] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/spectrum-sharing/

## Sicrhau darpariaeth barhaus y gwasanaeth post cyffredinol

3.61 Yn ôl y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos[11] am bris fforddiadwy ac yn unffurf yn ddaearyddol i bob cyfeiriad yn y DU, ymysg pethau eraill[12]. Ni all gofynion sylfaenol y gwasanaeth post cyffredinol gael eu newid heblaw gan y llywodraeth ar ôl cael caniatâd y Senedd[13].

3.62 Ein prif ddyletswydd, o ran y post, yw sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Felly, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol a darpariaeth effeithlon y gwasanaeth cyffredinol, yn flaenoriaeth i Ofcom.

3.63 Ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r sector post ym mis Hydref 2011, rydym wedi cyflawni nifer o gamau gweithredu pwysig i gefnogi'r ddyletswydd hon. Mae hyn wedi cynnwys gosod fframwaith rheoleiddio newydd, rhoi mwy o ryddid i'r Post Brenhinol o ran prisio er mwyn iddo allu cael cynaliadwyedd ariannol i'r gwasanaeth cyffredinol unwaith yn rhagor, yn amodol ar ddulliau diogelu allweddol.

3.64 Fel y nodwyd yn y diweddariad monitro blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013, roedd yr addewid o breifateiddio yn cael ei gydnabod wrth ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio hwn ac nid oeddem yn meddwl y byddai unrhyw angen am newid y fframwaith yn sylweddol, beth bynnag fyddai canlyniad y broses breifateiddio[14]. Roeddem hefyd yn nodi y byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau'r farchnad a pherfformiad y Post Brenhinol i sicrhau bod ein hamcanion rheoleiddio'n cael eu cyflawni.

3.65 Yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad ynghylch rheoleiddio'r ddarpariaeth blychau post, ymestynnodd Ofcom ddiogelwch rheoleiddio i holl fannau dosbarthu'r DU. Rydym nawr yn gofyn i'r Post Brenhinol gael blwch post o fewn 0.5 milltir[15] i 98% o fannau dosbarthu a darparu digon o bwyntiau mynediad ar gyfer y 2% arall o fannau dosbarthu er mwyn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr. Fe gyflwynom hefyd y Cyfarwyddyd ar gyfer eithriadau mewn perthynas â dosbarthu a chasglu ym mis Rhagfyr 2013 er mwyn sicrhau bod y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer eithriadau o'r gofyniad chwe diwrnod yr wythnos ar gyfer casglu post o bwyntiau mynediad a'i ddosbarthu i dderbynwyr wedi'u nodi'n glir ac yn gwarchod defnyddwyr yn ddigonol.

3.66 Rydym wedi dechrau adolygu dau god ymarfer y diwydiant sy'n ymwneud â diogelwch a dilysrwydd post a gweithdrefnau gweithredol cyffredin. Rydym yn disgwyl cwblhau'r ymarfer hwn yn 2014/15.

3.67 Yn ystod 2014/15, byddwn yn symud ymlaen â'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r post yn economaidd drwy ymgymryd ag amrywiaeth o waith i sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys:

---

[11] Pum diwrnod ar gyfer parseli

[12] Neu fel y cymeradwyir fel arall gan Ofcom

[13] Dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol all newid y gofyniad hwn a hynny drwy Orchymyn yn amodol ar ganiatâd y Senedd drwy benderfyniad cadarnhaol (yn amodol ar unrhyw newidiadau a gynigir i gadw unffurfedd y ddarpariaeth mewn perthynas â'r gofynion sylfaenol).

[14] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/post/post/Annual_monitoring_update_2012-13.pdf, tudalen 6

[15] Wedi'i seilio ar bellter llinell syth – gweler http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/provision-post-boxes/statement/

- ein trefn barhaus o fonitro sy'n cynnwys adrodd yn ôl yn fewnol yn rheolaidd a diweddariadau blynyddol i'r farchnad ynghylch cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol, ansawdd y gwasanaeth, esblygiad cystadleuaeth a chynnydd y Post Brenhinol tuag at wella effeithlonrwydd;

- datblygu'r metrics priodol ymhellach i fesur effeithlonrwydd a methodolegau i asesu beth allai fod yn gyfradd gwella effeithlonrwydd resymol i'r Post Brenhinol;

- adolygu ein dull gweithredu ar gyfer amddiffyn cystadleuwyr yn erbyn gwasgu elw o ran gwasanaethau mynediad, gan gynnwys y sylfaen cost priodol ar gyfer unrhyw fesurau yn y dyfodol;

- cynnal adolygiad o'r cynlluniau ymdrin â chwynion a gwneud iawn ar gyfer defnyddwyr;

- cwblhau adolygiad o god ymarfer gweithdrefnau gweithredol cyffredin y post. Mae hyn yn diogelu defnyddwyr rhag y risg o bost a gam-bostiwyd, a gam-gyfeiriwyd ac a gam-gasglwyd ddim yn cael ei ddychwelyd i'r gweithredwr post cywir a reoleiddir; ac

- adolygu'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i weithredwyr post a reoleiddir eu bodloni er mwyn lleihau'r posibilrwydd o bost yn mynd ar goll, post yn cael ei ddwyn neu ei ddifrodi neu fod rhywun yn ymyrryd â'r post.

## Diben strategol 4: amddiffyn defnyddwyr rhag niwed

3.68 Wrth i'r cyd-destun cyfathrebu barhau i esblygu, mae mathau newydd o niwed posibl i ddefnyddwyr yn dod i'r fei. Ein dull gweithredu cyffredinol i amddiffyn defnyddwyr yw canolbwyntio ar y materion hynny sy'n achosi llawer o niwed i ddefnyddwyr, a lle gallwn fynd i'r afael â'r mater. Mae llawer o'r gwaith hwn yn barhaus ac yn disgyn i brif feysydd gwaith Ofcom fel yr amlinellir yn yr adran nesaf. Fodd bynnag, rydym wedi nodi un flaenoriaeth ar gyfer 2014/15.

| Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed | • Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau |
|---|---|

### Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau

3.69 Rydym yn diffinio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol fel galwadau i rifau 03, 05, 070/076, 080, 0845, 0870, 083/4, 0871, 09, 116 ac 118. Bydd defnyddwyr yn defnyddio'r rhifau hyn i ffonio busnesau ac asiantaethau llywodraeth, i gael gwybodaeth, i dalu am wasanaethau ac i bleidleisio ar raglenni radio a theledu. Yn 2010/11 roeddem wedi cynnig defnyddio dull gweithredu symlach ar gyfer darparu a rheoleiddio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, gan gynnwys edrych ar ystodau rhifau symlach a ffioedd mwy safonol.

3.70 Rydym wedi cyhoeddi ein datganiad terfynol ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol yn ddiweddar a byddwn nawr yn symud ymlaen i roi ein hargymhellion ar waith, gan gynnwys newidiadau i strwythurau prisio a gofynion tryloywder.

3.71 Eleni, rydym wedi diwygio'r rheoliadau sy'n berthnasol i ystod y rhifau rhadffôn 080/116 a'r ystod rhannu refeniw 084/087/09/118. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi

ar waith yn 2015. Fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar dynnu rhifau o’r ystod 0500 yn ôl ym mis Rhagfyr 2013[16].

3.72 Yn 2014/15 byddwn yn cwblhau’r adolygiad o’r rhifau yn yr ystod 0500 ac yn ystyried yr angen am newidiadau rheoleiddio i’r ystodau 055/56, 070/76 ac ystodau eraill nad ydynt yn rhai daearyddol. Rydym yn dymuno sicrhau bod yr ystodau hyn yn parhau i gynnig manteision i ddefnyddwyr a bod digon o fesurau diogelu i warchod defnyddwyr rhag niwed o ganlyniad i ddryswch neu dwyll. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn glynu wrth ein dyletswydd i sicrhau bod y system rhifau’n cael ei defnyddio’n effeithlon.

## Diben strategol 5: cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

3.73 Wrth ystyried disgwyliadau defnyddwyr o sicrwydd ar safonau cynnwys darlledu, byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ffyrdd effeithlon, effeithiol a pharod ar gyfer y dyfodol o sicrhau hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir.

| | |
|---|---|
| Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir | • Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol |

### Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol

3.74 Mae’r flaenoriaeth hon yn dwyn ynghyd ystod o waith sydd, gyda’i gilydd, yn ceisio cynnal a diweddaru’r fframwaith diogelwch a ffydd cynulleidfaoedd ar gyfer cynnwys clyweledol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn mynd i’r afael â heriau cydgyfeirio a disgwyliadau’r gynulleidfa.

Targedu trwyddedu a gorfodi i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol

3.75 Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar sicrhau hyder cynulleidfaoedd, drwy gynnal adolygiad amrywiol o’r broses ar gyfer trwyddedu gwasanaethau a ddarlledir. Yn 2014, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu dull ‘mwy deallus’ o drwyddedu a gorfodi a fydd yn ein galluogi i nodi ac ymateb yn well i ddiffyg cydymffurfio posibl. Bydd y gwaith hwn yn caniatáu i ni greu trefn drwyddedu fwy effeithiol, gyda’r posibilrwydd o gael gwared ar ambell faich rheoleiddio ar randdeiliaid a lleihau'r baich gweinyddol ar Ofcom.

Rhoi sylw i heriau a achosir wrth reoleiddio gwasanaethau llinol a ddarperir gan brotocol rhyngrwyd ar restrau electronig o raglenni

3.76 Heddiw, gall sianeli teledu a ddarperir gan brotocol rhyngrwyd llinol ac nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn Ardal Economaidd Ewrop fod ar gael drwy restrau electronig o raglenni (EPGs) a gwasanaethau botwm coch. Gall darparwyr gwasanaethau teledu protocol rhyngrwyd fod unrhyw le yn y byd. Pan fydd gwasanaethau’n dod o du allan i Ardal Economaidd Ewrop, mae’n bosibl nad yw unrhyw aelod wladwriaeth yn eu rheoleiddio ac felly ni fyddant yn dod o dan safonau gofynnol y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS). Byddwn yn ceisio rhoi sylw i hyn mewn ffordd sy’n cydbwyso ein gwahanol ddyletswyddau, i ddod o hyd i ateb sy’n

[16] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/re-consultation-0500-freephone/

gwarchod defnyddwyr rhag niwed, ond sydd dal yn caniatáu ar gyfer arloesedd technegol a datblygu gwasanaethau teledu newydd.

## Gwaith i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau

3.77 Yn y papur strategaeth cyfathrebu: *Connectivity, Content and Consumers: Britain's digital platform for growth*, gofynnodd y llywodraeth i Ofcom weithio gyda'r diwydiant a rheoleiddwyr eraill i gyflwyno fframwaith sy'n nodi dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio safonau'r cyfryngau, gan ddatblygu'r safonau presennol sydd eisoes ar waith mewn sawl lle. Rydym eisoes wedi dechrau ymwneud â'r llywodraeth a rhai rheoleiddwyr y cyfryngau i drafod sut gallwn gyflawni'r gwaith hwn. Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr yn deall yn glir pa fesurau diogelu sy'n berthnasol i wahanol fath o gynnwys sydd ar gael ar-lein, ac yn gwybod at ba gorff rheoleiddio i droi os oes ganddynt bryderon.

## Adrodd ar ddulliau gweithredu ar gyfer gwarchod diogelwch plant ar-lein

3.78 Dywedodd y llywodraeth yn y papur strategaeth cyfathrebu ei bod yn disgwyl y bydd cwmnïau ar draws cadwyn gwerth y rhyngrwyd yn sicrhau bod offer i gadw plant yn ddiogel yn rhywbeth safonol ar yr holl ddyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd.

3.79 Fel rhan o hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn i ni asesu'r broses o roi'r hidlyddion hyn ar waith yn y DU ac adrodd yn ôl am ymwybyddiaeth rhieni o reolaethau ar eu cyfer, yn ogystal â'u hyder yn y rheini, ac a ydynt yn eu defnyddio ai peidio. Byddwn yn darparu tri adroddiad erbyn diwedd 2014.

3.80 Ym mis Rhagfyr 2013, cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf, yn mesur defnydd, ymwybyddiaeth a hyder rhieni yn y rheolaethau ar gyfer rhieni. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2014 ac roedd yn rhoi sylw i strategaethau ehangach y mae rhieni'n eu mabwysiadu i wella diogelwch plant ar-lein; lefelau ymwybyddiaeth rhieni a hyder yn y mesurau diogelwch a all fod ar gael ar safleoedd y mae plant yn eu defnyddio'n rheolaidd, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ddarparwyr cynnwys, peiriannau chwilio a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol; a chyn belled ag sy'n bosibl, pam y mae rhieni'n dewis peidio â defnyddio offer rheoli ar gyfer rhieni. Byddwn yn darparu adroddiad dilynol ym mis Rhagfyr 2014, i olrhain datblygiadau ar yr ystod o fesurau a amlinellir uchod.

3.81 Bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn ystod gwanwyn 2014 ynghylch y mesurau y bydd BT, Sky, TalkTalk a Virgin Media yn eu rhoi ar waith i fodloni eu hymrwymiadau i weithredu hidlyddion ar lefel rhwydwaith i gwsmeriaid newydd erbyn diwedd 2013.

## Parhau i gefnogi UKCCIS

3.82 Byddwn hefyd yn parhau i chwarae rhan weithredol yn cefnogi Cyngor y DU y llywodraeth dros Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS). Rydym hefyd yn gallu cyfrannu at waith UKCCIS drwy ein hymchwil marchnad i ymwybyddiaeth o gyfryngau ar-lein a'u defnydd, yn enwedig drwy ein hadroddiadau llythrennedd yn y cyfryngau. Hefyd, byddwn yn parhau i gyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd ynghylch amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw oed fel sy'n briodol.

# Diben strategol 6: cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

| Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith | • Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU |
|---|---|

### Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU

3.83 Ar 11 Medi 2013, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd Reoliad drafft ar 'Connected Continent', rhan o becyn mwy o fesurau i "gwblhau" y farchnad sengl ddigidol. Mae'r Rheoliad drafft yn rhoi sylw i ystod eang o faterion yn ein cylch gwaith rheoleiddiol, gan gynnwys (i) diwygio'r rheolau ar grwydro rhyngwladol, (ii) cynigion i newid y ffordd y mae gweithredwyr yn cael eu hawdurdodi i weithredu mewn marchnadoedd cenedlaethol, (iii) gwell cysoni ynghylch amseru a ffurf arwerthiannau ac aseiniadau sbectrwm, a (iv) cyflwyno rheolau newydd, wedi'u cysoni, ar draws yr UE ynghylch niwtraliaeth y rhyngrwyd a mynediad agored i'r rhyngrwyd, a newidiadau i reolau defnyddwyr yr ydym yn eu gorfodi drwy'r Amodau Cyffredinol.

3.84 Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth i ddeall goblygiadau'r cynigion a helpu i ddatblygu sefyllfa negodi'r DU. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda BEREC, sydd â rôl statudol yn cynghori deddfwyr Ewrop (Cyngor a Senedd Ewrop) ac yn disgwyl parhau i wneud hynny drwy'r broses ddeddfwriaethol. Yn olaf, rydym wedi bod yn darparu ein harbenigedd technegol yn uniongyrchol i aelodau Senedd Ewrop, i'w helpu wrth iddynt ystyried y cynigion eu hunain. Er bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi uchelgais yn wreiddiol i weld y ddeddfwriaeth yn cael ei mabwysiadu cyn etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai 2014, disgwylir ar hyn o bryd y bydd y trafodaethau deddfwriaethol yn parhau tan o leiaf tymor yr hydref 2014. Felly, rydym yn disgwyl parhau gyda'r gwaith a'r ymgysylltu hwn yn 2014.

3.85 Ein nod yw cefnogi amcan lefel uchel y Comisiwn Ewropeaidd i hyrwyddo'r broses o ddatblygu un farchnad Ewropeaidd a gwella amodau ar gyfer buddsoddi yn ein sector, er budd defnyddwyr Ewrop (gan gynnwys y DU) yn y pen draw. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod unrhyw reolau newydd yn gymesur ac yn ymarferol.

3.86 Bydd ein gwaith ymgysylltu dros y 12-18 mis nesaf yn canolbwyntio ar y nodau hyn, ac ar sicrhau bod Ofcom yn gymwys i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion y DU.

# I helpu i fesur yn erbyn y blaenoriaethau hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol

3.87 Byddwn yn barnu llwyddiant ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 yn erbyn y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr.

3.88 Rydym wedi gosod canlyniadau ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, fel y dangosir yn Ffigur 6 isod. Byddwn yn asesu ein cynnydd tuag at gyflawni'r rhain ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn Adroddiad Blynyddol Ofcom.

3.89 Rydym wedi rhannu ein canlyniadau yn ganlyniadau interim a therfynol:

- **Canlyniadau interim** – digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Ofcom; er enghraifft galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol. Mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau terfynol.

- **Canlyniadau terfynol –** mae'r rhain yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr; er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis rhwng amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol. Rydym yn bwriadu gwneud yr hyn y gellir ei wneud yn rhesymol i farnu ein llwyddiant wrth sicrhau canlyniadau terfynol, gan gydnabod ar yr un pryd y bydd datblygiadau yn y farchnad ehangach hefyd yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn.

## Ffigur 6: Canlyniadau a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2014/15

| | BLAENORIAETHAU STRATEGOL | CANLYNIADAU INTERIM | CANLYNIADAU TERFYNOL |
|---|---|---|---|
| **Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus** | Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn | Cynnal set o adolygiadau marchnad sy'n rhoi sylw i fynediad lleol a band eang a llais sefydlog a, lle bo angen, cyflwyno atebion – sy'n cynnwys rheolaethau ffioedd newydd – i'r marchnadoedd hyn | Cynnal arloesedd a chystadleuaeth o ran y cyflenwad o wasanaethau llais a band eang y genhedlaeth bresennol i ddefnyddwyr, a chreu'r amodau a fydd yn galluogi'r farchnad i ddal gafael ar yr amodau cyflenwi ffafriol hyn wrth newid i fand eang cyflym iawn |
| | Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd | Deall y meysydd lle nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn fasnachol mewn marchnadoedd yn bodloni anghenion defnyddwyr er mwyn ymgysylltu â'r farchnad ac, yn arbennig, gwneud dewisiadau effeithiol | Mae defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn y farchnad ar sail gwybodaeth glir a chyflawn. Mae'r wybodaeth ar gael yn hawdd ac yn ddealladwy, ac mae modd ei dilysu a'i chymharu |
| | Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu | Sicrhau nad yw prosesau newid ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu ar draws ystod o dechnolegau a chynhyrchion yn achosi rhwystrau i ddefnyddwyr rhag newid | Mae defnyddwyr yn gallu newid rhwng darparwyr cyfathrebu'n hawdd a didrafferth, ac nid yw rhwystrau rhag newid yn niweidio'r broses gystadleuol |
| **Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm** | Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014 | Mae'r holl ofynion o ran cyfrifoldebau Ofcom ar gyfer y Gemau yn eu lle ac yn cael eu profi'n unol â'r amserlen | Cyflawni cynllun sbectrwm Gemau'r Gymanwlad yn llwyddiannus gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr neu wylwyr |
| | Paratoi at ddyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz a'r newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz | *Paratoi at ddyfarnu'r bandiau 2.3GHz/3.4GHz:* Deall materion sy'n ymwneud â chydfodolaeth gyda defnyddwyr sifil presennol, a'u datrys lle bo'n bosibl. Rhyddhau amodau technegol a ddatblygir ar gyfer y sbectrwm i'w defnyddio'n ffafriol gyda gwasanaethau data symudol. Gwneud cynigion ar gyfer cynllun a pholisi'r arwerthiant | *Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz*: Cynyddu faint o sbectrwm sydd ar gael i gyd ac yn cael ei ddefnyddio i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau di-wifr sy'n cynnig buddion ehangach i ddefnyddwyr a dinasyddion |
| | | *Newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz:* Dadansoddi costau, buddion a ffyrdd o weithredu'r newidiadau o ran y modd mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Cynnal trafodaethau rhyngwladol ar gysoni'r band 700MHz cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015 | *Newid posibl o ran defnyddio'r band 700MHz:* Yn amodol ar ymgynghoriad, gallai'r canlyniadau gynnwys newid y modd y defnyddir y band 700MHz ar gyfer band eang symudol er mwyn bod yn gyson ar lefel ryngwladol yn y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau teledu daearol digidol yn dal ar gael yn eang |
| | Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol | Fel rhan o gynllun peilot y fframwaith, treialu cronfa ddata daear-leoliad a chynnal profion cydfodolaeth ar gyfer defnyddio dyfeisiau gofod gwyn. Edrych ar ymestyn y dull daear-leoliad i fandiau amledd eraill er mwyn helpu i gynyddu cyflenwad sbectrwm a rennir yn y dyfodol, yn arbennig ar gyfer cymwysiadau cell ac M2M | Gwasanaethau newydd a/neu wasanaeth o well ansawdd wrth awdurdodi dyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r sbectrwm ag eraill heb i hynny gael effaith niweidiol ar y defnydd presennol ohono, ac felly cynyddu'r defnydd o'r sbectrwm |

| | BLAENORIAETHAU STRATEGOL | CANLYNIADAU INTERIM | CANLYNIADAU TERFYNOL |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi** | Sicrhau darpariaeth barhaus y gwasanaeth post cyffredinol | Ar sail tystiolaeth gadarn, diffinio'r gwasanaeth post cyffredinol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr yn awr ac yn y dyfodol | Gwasanaeth post cyffredinol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn bodloni anghenion busnesau a chwsmeriaid preswyl |
| **Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed** | Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau | Yn amodol ar ymatebion i'r ymgynghoriad, gweithredu'r argymhellion ar wella tryloywder prisiau sydd wedi'u nodi yn ein datganiad terfynol | Gwelliannau y mae modd eu mesur o ran dealltwriaeth defnyddwyr o brisiau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, a llai o sioc wrth gael bil am hynny |
| **Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir** | Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol | Mae'r broses o drwyddedu a gorfodi gwasanaethau yn cael ei thargedu'n briodol. Mae gwasanaethau llinol newydd a ddarperir gan brotocol rhyngrwyd yn cael sylw drwy reoleiddio safonau. Mae gan y diwydiant a rheolyddion ddull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio safonau'r cyfryngau | Mae defnyddwyr yn deall yn glir pa fesurau diogelu sy'n berthnasol ar gyfer gwahanol fathau o gynnwys sydd ar gael ar-lein, ac yn gwybod at ba gorff rheoleiddio i droi os oes ganddynt bryderon |
| **Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith** | Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU | Cyfrannu at ddatblygu'r sefyllfa negodi genedlaethol drwy weithio gyda llywodraeth y DU. Cyfrannu ein harbenigedd technegol at drafodaethau ar lefel Ewrop drwy ymgysylltu â'r sefydliadau Ewropeaidd a gyda/drwy BEREC | Mae unrhyw ddeddfwriaeth a fabwysiadir yn gymesur ac yn ymarferol, yn cefnogi buddsoddiadau yn y sector ac yn cynnig buddion i ddefnyddwyr, gan gynnwys drwy gystadleuaeth |

## Adran 4

# Prif feysydd gwaith ar gyfer 2014/15

4.1 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodir yn Adran 3, rydym yn bwriadu gweithio mewn nifer o feysydd pwysig eraill yn ystod 2014/15.

### Ffigur 7: Cynllun Blynyddol 2014/15 – prif feysydd gwaith

**Hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr o ran materion cyfathrebu**

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus**

- Monitro dulliau sylfaenol i reoli traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd
- Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu
- Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu
- Cynnal yr adolygiad o reolaethau ffioedd ar gyfer cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol
- Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes

**Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

- Parhau i adolygu gofynion sbectrwm y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)
- Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol
- Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon
- Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF
- Cefnogi gofynion sbectrwm Prosiect Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y Llywodraeth
- Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant
- Gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ar ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 a 1800MHz

**Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi**

- Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion agored i niwed
- Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr
- Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol
- Gwerthuso fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd, ac adrodd ar hyn

**Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed**

- Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ffydd defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd
- Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans a biliau annisgwyl o uchel

**Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir**

- Datblygu a chefnogi'r gwaith o reoleiddio radio yn y dyfodol
- Cwblhau'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd
- Gweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac y gellir ei ganfod

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

- Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) ym mis Tachwedd 2015
- Sicrhau cryfder a chynaliadwyedd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol
- Cyhoeddi adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU

## Diben strategol 1: hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus**

- **Monitro dulliau sylfaenol i reoli traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd**
- **Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu**
- **Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu**
- **Cynnal yr adolygiad o reolaethau ffioedd ar gyfer cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol**
- **Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes**

### Monitro dulliau sylfaenol i reoli traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd

4.2 Yn y cyhoeddiad *Ofcom's Approach to Net Neutrality*[17] ym mis Tachwedd 2011, fe wnaethom osod ein sefyllfa o ran niwtraliaeth net a rheoli traffig.

4.3 Yn y bôn, nid yw ein sefyllfa wedi newid ers y cyhoeddiad hwnnw, gan ei bod yn ymddangos bod cystadleuaeth yn darparu dewis effeithiol i ddefnyddwyr ac ar hyn o bryd nid ydym yn gweld unrhyw achos argyhoeddiadol dros ymyrraeth reoleiddiol. Fodd bynnag, byddem yn nodi bod niwtraliaeth y rhyngrwyd yn un o'r meysydd polisi a ddaw o dan gynllun Connected Continent yr UE, a gallai hyn arwain at newidiadau i'n pwerau rheoleiddio a'n dyletswyddau yn 2014.

4.4 Byddwn yn parhau i fonitro dulliau gweithredu rheoli traffig gwirioneddol fel rhan o'n dyletswydd i adrodd ar seilwaith. Roeddem wedi diweddaru ein sefyllfa yn *Adroddiad Seilwaith: Diweddariad 2013*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013. Yn yr adroddiad hwn, roeddem yn ystyried a ydy arferion rheoli traffig i weld yn cyd-fynd â'r egwyddorion rydym wedi'u gosod allan yn ein datganiad niwtraliaeth y rhyngrwyd. Dyma ein barn ni am y sefyllfa ar hyn o bryd:

- Ar hyn o bryd, nid oes pryderon sylweddol yng nghyswllt yr arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd sefydlog, ac yn wir, mae rhywfaint o dystiolaeth o lefelau is o reoli traffig o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Er bod rhai gweithredwyr symudol yn rhwystro gwasanaethau fel gwasanaeth VoIP Skype ar rai pecynnau, mae pob gweithredwr bellach yn cynnig pecynnau heb unrhyw rwystrau. Mae hyn yn well na sefyllfa'r llynedd, sy'n dynodi efallai bod pwysau cystadleuaeth yn cael effaith ar arferion rheoli traffig gweithredwyr symudol. Nid ydym wedi canfod unrhyw arferion rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio gan weithredwyr symudol ac nad ydynt yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus.

4.5 Cyhoeddir ein diweddariad nesaf ynghylch rheoli traffig yn yr *Adroddiad Seilwaith* a gyhoeddir ddiwedd 2014.

4.6 Yn olaf byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddynt ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd ynghylch y Rheoliad Un Farchnad arfaethedig, a fydd, fel y mae ar hyn o bryd, yn cynnwys dyletswyddau niwtraliaeth y rhyngrwyd ar weithredwyr rhwydwaith a dyletswyddau monitro newydd i

[17] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/net-neutrality/statement/

reoleiddwyr. Wrth i gyfeiriad a thestun y Rheoliad ddod yn gliriach, byddwn yn ystyried materion gweithredu fel y bo'n briodol.

### Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telegyfathrebu

4.7 Ar hyn o bryd mae BT a KCOM yn darparu gwybodaeth ariannol i Ofcom mewn perthynas â gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Hefyd, rhaid i'r ddau gwmni gyhoeddi rhywfaint o'r wybodaeth hon yn eu datganiadau ariannol rheoleiddio blynyddol.

4.8 Rydym yn adolygu dyletswyddau adrodd ariannol rheoleiddiol BT ar hyn o bryd.

4.9 Ym mis Rhagfyr 2013 buom yn ymgynghori ar ystod o gynigion i sicrhau bod dyletswyddau adrodd rheoleiddiol yn darparu gwybodaeth ariannol berthnasol a dibynadwy, mewn ffordd y mae defnyddwyr y wybodaeth honno'n ei deall, a bod y wybodaeth yn cyfateb i'r buddion y mae'n eu darparu[18].

4.10 Rydym yn bwriadu dweud wrth y Comisiwn Ewropeaidd beth yw ein penderfyniad o safbwynt dyletswyddau adrodd rheoleiddiol yn 2014, a rhoi'r newidiadau i farchnadoedd perthnasol ar waith yn ffurfiol wrth iddynt gael eu hadolygu fel rhan o adolygiadau o farchnadoedd yn y dyfodol.

### Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu

4.11 Yn ddiweddar, mae teledu drwy dalu a'i oblygiadau wedi bod yn un maes yr ydym wedi bod yn canolbwyntio arno yn ein gwaith cystadleuaeth. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o well mynediad at gynnwys allweddol, mwy o ddewis, ac yn y tymor hwy, buddsoddiad, gan arwain at ystod o wasanaethau newydd arloesol.

4.12 Y ddau ymchwiliad o bwys yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd adolygiad Ofcom o deledu drwy dalu yn 2010 ac ymchwiliad y Comisiwn Cystadleuaeth yn 2012 i ffilmiau ar deledu drwy dalu.

#### Adolygiad Ofcom o deledu drwy dalu

- Yn 2010, cyhoeddwyd ein Datganiad ar Deledu drwy Dalu, a oedd yn nodi ein penderfyniad o dan adran 316 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau y dylai Sky gynnig Sky Sports 1 a 2 (SS1&2) cyfanwerthol i adwerthwyr eraill teledu drwy dalu. Roedd y penderfyniad yn adlewyrchu dau bryder: (a) bod Sky yn cyfyngu cyflenwad cyfanwerthol ei sianeli SS1&2 mewn trafodaethau gyda llwyfannau adwerthu teledu drwy dalu gwahanol; a (b) na allai llwyfannau adwerthu teledu drwy dalu newydd wneud elw ar bris y cerdyn cyfraddau ar gyfer SS1&2.

- Apeliodd gwahanol bartïon i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth yn erbyn ein penderfyniad. Yn 2012, penderfynodd y Tribiwnlys y dylai ein penderfyniad gael ei roi i'r naill ochr ar sail dadansoddiad ynghylch a oedd Sky wedi cyfyngu'r cyflenwad o SS1&2 mewn trafodaethau. Ni ystyriodd y Tribiwnlys y cerdyn cyfraddau'n benodol, ond penderfynodd nad oedd angen gwneud hynny

[18] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bt-kcom/financial-reporting-1314

oherwydd y gallai Sky gynnig gostyngiadau ar gyfer y cerdyn cyfraddau o dan negodiadau masnachol.

- Apeliodd BT i’r Llys Apêl am benderfyniad y Tribiwnlys, a chefnogodd Ofcom yr apêl. Ym mis Chwefror 2014, rhoddodd y Llys Apêl ei ddyfarniad. Canfu nad oedd y Tribiwnlys wedi dehongli penderfyniad Ofcom yn gywir, nad oedd wedi delio â materion yn ymwneud â’r cerdyn cyfraddau a gostyngiadau, ac nad oedd ei resymau dros beidio â delio â'r rhain yn ddigonol. Canfu felly nad oedd y Tribiwnlys wedi llwyddo i ddelio â’r mater “ar sail haeddiant” a bod ei benderfyniad i roi’r WMO i’r neilltu yn seiliedig ar gyfres anghyflawn o gasgliadau. Gorchmynnodd bod yr achos yn cael ei anfon yn ôl i'r Tribiwnlys.

- Yn ogystal â hyn, gwrthododd y Llys Apêl apeliadau gan Sky ac Uwchgynghrair Lloegr a oedd yn dadlau nad oedd gan Ofcom yr awdurdodaeth o dan adran 316 i reoleiddio cystadleuaeth o ran darlledu ar lefel adwerthu yn y farchnad. Eglurodd y Llys Apêl fod adran 316 yn caniatáu i Ofcom osod amodau i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran darparu mewn perthynas â chyfanwerthu ac adwerthu gwasanaethau darlledu i ddefnyddwyr yn gyffredinol.

<u>Ymchwiliad y Comisiwn Cystadleuaeth i ffilmiau ar deledu drwy dalu</u>

- Yn 2012, daeth y Comisiwn Cystadleuaeth i’r casgliad nad oedd sail dros gymryd camau mewn perthynas â ffilmiau teledu drwy dalu, ond serch hynny, roedd wedi canfod diffyg cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad adwerthu teledu drwy dalu drwyddi draw.

4.13 Mae gennym ddyletswydd i sicrhau y ceir cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sector hwn. Yn ystod 2014/15, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad, fel negodiadau masnachol ar gyfer cynnwys a dyfodiad llwyfannau a gwasanaethau newydd, ac yn ystyried a fydd angen cymryd camau pellach i hybu cystadleuaeth.

4.14 Yn ystod 2013/14 rydym wedi bod yn ystyried cais Sky i ddileu’r rheoliad sy’n berthnasol i’w lwyfan lloeren sy’n ei gwneud yn ofynnol i Sky ddarparu mynediad ar gyfer gwasanaethau rhyngweithiol fel gwasanaethau botwm coch a gwasanaethau rhyngweithiol dwyffordd fel gemau. Rydym yn disgwyl cwblhau’r gwaith hwn yn gynnar yn 2014/15.

## Cynnal yr adolygiad o reolaethau ffioedd ar gyfer cyfraddau terfynu gwasanaethau symudol

4.15 Bydd y rheolaethau ffioedd ar gyfer y farchnad terfynu galwadau symudol yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2015. Rydym wedi cychwyn ar y broses o adolygu’r farchnad i sefydlu’r drefn a fydd yn disodli’r system bresennol. Dyma fydd un o’r adolygiadau rheolaidd o’r farchnad a gyflawnir o dan Fframwaith yr UE, ac o dan y fframwaith hwn mae’n rhaid i Ofcom adolygu rhai marchnadoedd bob tair blynedd.

4.16 Yn ystod Ch1 2014/15, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad sy’n nodi ein dadansoddiad o’r farchnad terfynu galwadau symudol ac atebion arfaethedig. Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, rydym yn disgwyl rhoi gwybod i’r Comisiwn Ewropeaidd, gan gyhoeddi datganiad terfynol mewn pryd i weithredu’r drefn newydd erbyn 1 Ebrill 2015.

### Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes

4.17 Mae'r adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR) yn adolygiad rheolaidd o gyflwr y gystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau llinellau ar les yn y DU. Dyma hefyd yw un o'r adolygiadau rheolaidd o'r farchnad a gyflawnir o dan Fframwaith yr UE, ac o dan y fframwaith hwn mae'n rhaid i Ofcom adolygu marchnadoedd penodol bob tair blynedd.

4.18 Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddwyd y datganiad BCMR yn nodi ein penderfyniadau ynghylch i ba raddau y ceir cystadleuaeth yn y ddarpariaeth o linellau ar les yn y DU. Rydym wedi dechrau ein gwaith ar yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR) nesaf, gan gasglu data gan randdeiliaid fel sail ar gyfer ein dadansoddiad o'r farchnad. Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi dogfen sy'n egluro ein cynllun ar gyfer y gwaith hwn yn fanylach, ac yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch rhai o'r cwestiynau y bwriadwn eu hystyried yn ystod camau cyntaf y gwaith.

4.19 Yn 2014/15 byddwn yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch cystadleuaeth mewn marchnadoedd llinellau ar les yn y DU, er mwyn llunio cynigion ar gyfer diffinio'r farchnad, asesu grym y farchnad ac atebion. Byddwn yn ymgynghori ar y canfyddiadau a'r cynigion hynny ar gyfer penderfyniad nesaf BCMR, ac rydym yn gobeithio cwblhau hyn cyn mis Ebrill 2016.

## Diben strategol 2: sicrhau'r defnydd gorau posibl o sbectrwm

**Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm**

- Parhau i adolygu gofynion sbectrwm y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)
- Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol
- Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon
- Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF
- Cefnogi gofynion sbectrwm Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y llywodraeth
- Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant
- Gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ar ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 a 1800MHz

4.20 Mae'r pum eitem nesaf yn feysydd gwaith tebygol a ddaw o dan gasgliadau yr ymgynghoriad ar ein *Strategaeth rheoli sbectrwm*[19]

### Parhau i adolygu gofynion sbectrwm y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)

4.21 Byddwn yn parhau gyda'n gwaith yn adolygu mynediad i'r sbectrwm PMSE, er mwyn deall natur unrhyw heriau yn y dyfodol ac ymchwilio i'r ystod o fesurau a allai fod yn angenrheidiol i roi sylw i'r heriau hyn. Mae'r gwaith yn gwahaniaethu rhwng cymwysiadau camera di-wifr (sy'n defnyddio'r sbectrwm yn yr ystod 2-4GHz yn bennaf) a microffonau di-wifr a dyfeisiau clywedol eraill (sy'n defnyddio sbectrwm UHF o dan 1GHz).

4.22 Rydym wedi cwblhau dadansoddiad manwl o'r dewisiadau mynediad i'r sbectrwm ar gyfer defnyddio camera di-wifr, ac wedi cynnig cynllun sbectrwm i fodloni'r galw tymor byr i ganolig. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddilysu ein

[19] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/spectrum-management-strategy/

dadansoddiadau ac i ddysgu sut gall technoleg newydd (ymysg pethau eraill) gael effaith ar y galw am y sbectrwm yn y dyfodol.

4.23 Rydym hefyd wedi cynnal dadansoddiad o'r galw a'r cyflenwi ar gyfer y defnydd o'r sbectrwm UHF gan PMSE fel rhan o baratoadau Ofcom ar gyfer y posibilrwydd o ryddhau'r band 700MHz. Rydym yn ymwneud â'r gymuned PMSE clywedol i drafod yr opsiynau ar gyfer ymateb yn briodol i'r heriau hyn.

4.24 Bydd ein gwaith yn y dyfodol yn cynnwys:

- parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i nodi'r effaith ar fynediad i sbectrwm a chamau gweithredu priodol i leihau'r effaith honno lle bo hynny'n bosibl; a
- chymryd rhan mewn fforymau rhyngwladol lle bydd cynigion sbectrwm yn effeithio ar y sector PMSE.

4.25 Ein nod yw cwblhau ein hadolygiad o faterion sbectrwm PMSE yn ystod 2014/15.

## Cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm data symudol

4.26 Bydd ein gweithgareddau yn 2014/15 yn y maes hwn yn cynnwys cyfrannu at benderfyniadau rhyngwladol perthnasol a datblygu ein strategaeth data symudol. Mae hyn yn ychwanegol at waith perthnasol yn cefnogi Rhaglen Rhyddhau Sbectrwm Sector Cyhoeddus y llywodraeth, datblygu ein gwaith ar rannu sbectrwm (gweler 3.51) a darpariaeth symudol (gweler 4.6).

4.27 Dim ond bandiau sydd wedi'u cysoni'n rhyngwladol sy'n debygol o fod yn ddichonadwy'n economaidd ar gyfer darparu gwasanaethau data symudol, gan fod hyn yn galluogi'r arbedion maint sy'n ofynnol ar gyfer datblygu a chynhyrchu cyfarpar defnyddwyr a rhwydwaith.

4.28 Carreg filltir allweddol ar gyfer cysoni rhyngwladol fydd Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2015 (WRC-15), a fydd yn cynnwys ystyried sbectrwm ychwanegol ar gyfer rhaglenni band eang di-wifr. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu ein safbwyntiau ac yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau Ewropeaidd eraill yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu ar baratoi ar gyfer trafodaethau Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015.

4.29 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaeth data symudol tymor hwy. Amcan ein hymgynghoriad, a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2014, oedd canfod pa gamau gweithredu y gall Ofcom eu cyflawni i hwyluso'r twf tymor hir parhaus o ran buddion i ddefnyddwyr a dinasyddion o wasanaethau data symudol.

4.30 Roeddem wedi argymell nifer o fandiau sbectrwm lle roeddem yn credu y dylid gwneud rhagor o waith i ystyried a fyddant ar gael yn y dyfodol ar gyfer data symudol, gan gydnabod bod nifer o alwadau eraill am sbectrwm, a'r rheini'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mae manylion am y bandiau sy'n cael eu hystyried ar gyfer defnyddio data symudol ar gael yn ein hymgynghoriad diweddar ar *Strategaeth Data Symudol*[20].

[20] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/mobile-data-strategy/summary/MDS_Condoc.pdf

4.31 Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch1 2014/15 a fydd yn cadarnhau'r bandiau penodol lle byddwn yn blaenoriaethu rhagor o waith. Bydd hyn hefyd yn sail ar gyfer ein paratoadau ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015, fel y trafodir uchod.

### Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon

4.32 Mae'r galw cynyddol am ddata symudol a di-wifr yn tanlinellu'r angen i ddefnyddio sbectrwm yn fwy effeithiol. Gellid cyflawni hyn un ai drwy newid defnydd band, fel cyflwyno gwasanaethau 4G ar 800MHz neu drwy ddefnyddio sbectrwm yn fwy dwys drwy rannu mwy. Er bod y dulliau gweithredu hyn yn cynyddu cyflenwad sbectrwm, maent hefyd yn ei gwneud yn fwy heriol rheoli'r gydfodolaeth rhwng gwahanol ddefnyddwyr yn yr un bandiau sbectrwm neu rai cyfagos.

4.33 Mewn egwyddor, gellid lliniaru neu osgoi nifer o faterion cydfodolaeth yn gyfan gwbl petai perfformiad trawsyryddion a derbynyddion mewn dyfeisiau sy'n gweithredu yn yr un bandiau, neu mewn bandiau cyfagos, yn cael eu cydlynu'n well. Yn hanesyddol, fodd bynnag, yn aml iawn mae perfformiad trawsyryddion a derbynyddion yn cael eu trin ar wahân.

4.34 Wrth ystyried a yw ymgysylltu rheoleiddiol yn briodol yn y maes hwn, bydd yn rhaid i ni bwyso a mesur y buddion posibl a fyddai'n deillio o wella perfformiad cyfarpar a defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon, yn erbyn y costau posibl sy'n gysylltiedig â beichiau rheoleiddiol a risgiau canlyniadau nas fwriadwyd.

4.35 Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd cyfle i ni gymryd mwy o ran yn cydlynu gweithgareddau safoni o ystyried pwysigrwydd y dimensiwn rhyngwladol, yn arbennig yng nghyswllt bandiau sydd â chystadleuaeth fawr, er enghraifft lle byddwn yn rhagweld y gallai heriau cydfodolaeth ddod yn broblem. Dull gweithredu arall fyddai i ni ymgysylltu â gweinyddiaethau cenedlaethol eraill yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu i ddatblygu gorchmynion i'r cyrff safonau.

4.36 Yn ddiweddar, roeddem wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch ein swyddogaeth bosibl yn cefnogi gwelliannau i berfformiad trawsyryddion a derbynyddion fel rhan o'n strategaeth rheoli sbectrwm. Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- astudiaeth i asesu opsiynau i wella effaith bosibl trawsyriadau 4G ar dderbynyddion teledu daearol digidol er mwyn eu gwarchod rhag gwasanaethau radio yn y dyfodol, gan gynnwys dyfeisiau gofod gwyn a 4G;
- cymryd rhan mewn gweithgor ETSI-CENELEC ar y cyd i nodi'r effaith ar safonau sy'n deillio o gyflwyno gwasanaethau 4G yn y band 800MHz;
- cymryd rhan mewn corff safoni i ddatblygu safon newydd i dderbynyddion ar gyfer dyfeisiau pellter agos dibynadwyedd uchel, fel larymau cymdeithasol; a
- hyrwyddo cynnwys derbynyddion yn gyffredinol yn y Gyfarwyddeb Cyfarpar Radio ddiwygiedig.

4.37 Nod cyffredinol y gwaith hwn yw y bydd cyfarpar defnyddwyr yn fwy gwydn yn erbyn ymyrraeth. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i sbectrwm gael ei ddefnyddio'n fwy dwys.

## Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF

4.38 Mae gwasanaethau eraill gan gynnwys band eang symudol, PMSE a dyfeisiau gofod gwyn yn galw fwyfwy am y sbectrwm UHF a ddefnyddir gan wasanaethau teledu daearol digidol. Hefyd, mae'n rhaid rheoli newid defnydd o sbectrwm mewn bandiau cyfagos, fel gwasanaethau esblygiad tymor hir yn defnyddio band 800MHz, yn ofalus, fel nad ydynt yn achosi ymyrraeth niweidiol.

4.39 Mae hyn yn rhoi pwys cynyddol ar allu cynllunio'r defnydd o'r sbectrwm UHF yn effeithiol i ddarparu'r lefel o ddarpariaeth teledu daearol digidol angenrheidiol a chael gwasanaethau eraill i'w ddefnyddio i'r eithaf heb achosi ymyrraeth niweidiol.

4.40 Datblygwyd model cynllunio'r DU (UKPM), a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynllunio darpariaeth teledu daearol digidol, yn benodol i fodloni amcanion polisi ar gyfer newid i'r digidol. Roedd yn cynnwys gofyniad y dylai darpariaeth ddigidol ar ôl newid i'r digidol gyd-fynd yn sylweddol â'r ddarpariaeth ddaearol analog, heb yr angen am uwchraddio erial. Mae model cynllunio'r DU wedi llwyddo i gyflawni'r amcan hwn, ond mae'n bosibl na fyddai rhai rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd yn addas ar gyfer amcanion polisi eraill – fel cael gwasanaethau eraill i ddefnyddio mwy o'r sbectrwm UHF heb achosi ymyrraeth niweidiol.

4.41 Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y posibilrwydd o brynu modelau cynllunio newydd ac offer ar gyfer y bandiau UHF a VHF[21]. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid y diwydiant i adolygu'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd yn ein modelau cyfredol ac yn y dyfodol, gyda'r amcanion o:

- wella cywirdeb rhagdybiaethau darpariaeth teledu daearol digidol;
- gallu defnyddio'r rhagdybiaethau gwell hyn o ran darpariaeth i gyfrannu at offer efelychu cyfrifiaduron eraill sy'n gallu rhagdybio'n well, er enghraifft, cydfodolaeth â gwasanaethau eraill gan gynnwys dyfeisiau symudol, dyfeisiau gofod gwyn a PMSE; a
- sicrhau digon o dryloywder ym manylion unrhyw ddulliau gweithredu cynllunio diwygiedig i ganiatáu i drydydd partïon ddeall y casgliadau a chyflawni adolygiadau cymheiriaid.

## Cefnogi gofynion sbectrwm Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y llywodraeth

4.42 Mae'r llywodraeth yn ymgymryd â rhaglen bwysig i ddylunio, datblygu a phrynu'r galluoedd sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y gwasanaethau brys am wasanaethau cyfathrebu symudol yn y dyfodol (Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys). Mae Ofcom yn cefnogi'r llywodraeth i sicrhau y gall gwasanaethau brys gael mynediad at y sbectrwm sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau yn y dyfodol.

4.43 Wrth i anghenion sbectrwm y gwasanaethau brys ddod yn fwy amlwg, rydym yn debygol o ymwneud mwy i gynghori'r llywodraeth ar opsiynau sbectrwm a'u goblygiadau ar gyfer y sbectrwm ehangach.

4.44 Bydd Ofcom yn cefnogi rhaglen y llywodraeth drwy wneud y canlynol:

[21] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/uhf-vhf-spectrum-planning/

- canfod anghenion sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau brys a rhoi cyngor yn eu cylch;
- deall goblygiadau defnyddio mecanweithiau rheoleiddio a marchnad i hwyluso mynediad y gwasanaethau brys er mwyn iddynt fodloni eu gofynion o ran capasiti; a
- chynrychioli buddiannau'r DU mewn fforymau rhyngwladol.

## Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant

4.45 Mae 'cyfathrebu peiriant i beiriant' (M2M) yn cyfeirio at gorff mawr o gymwysiadau di-wifr cyfredol a rhai posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud â dyfeisiau nad ydynt fel rheol yn gysylltiedig â'r defnydd o ddata di-wifr sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr. Yn hytrach na chynnwys ffonau clyfar neu dabledi, mae 'M2M' yn cyfeirio at ddyfeisiau di-wifr, fel monitorau iechyd, synwyryddion cludiant a mesuryddion trydan.

4.46 Gallai M2M ddod yn ffynhonnell bwysig o alw am sbectrwm yn y dyfodol, yn dilyn lledaenu dyfeisiau a chymwysiadau M2M yn eang, pob un ohonynt yn cysylltu â'r rhyngrwyd. Amlygwyd hyn gan nifer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriadau diweddar ynghylch ein strategaeth rheoli sbectrwm[22] a rhannu sbectrwm ar gyfer data symudol a di-wifr[23]. Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai mynediad i sbectrwm â nodweddion ymledu da fod yn bwysig i gymwysiadau M2M yn y dyfodol a fydd angen trawsyrru data yn bell.

4.47 Byddwn yn cynnal astudiaethau cychwynnol gyda'r nod o asesu'r rhagolygon ar gyfer cymwysiadau M2M a fydd yn dod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf, ac yn deall sut gallai nodweddion technegol gwahanol fathau o gymwysiadau M2M gael gwahanol oblygiadau ar eu gofynion cyfathrebu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a oes unrhyw rwystrau rheoleiddiol y dylem fod yn ceisio eu dileu, er mwyn gallu datblygu a lledaenu cymwysiadau M2M.

## Gweithredu Cyfarwyddyd y llywodraeth ar ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 a 1800MHz

4.48 Ym mis Rhagfyr 2010 cafodd Ofcom Gyfarwyddyd gan y llywodraeth a oedd yn cyfarwyddo Ofcom i ddiwygio'r ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy ar gyfer sbectrwm 900MHz a 1800MHz i adlewyrchu gwerth llawn y farchnad, gan roi sylw penodol i'r symiau sy'n cael eu cynnig am drwyddedau yn yr arwerthiant 800MHz a 2.6GHz.

4.49 Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymgynghoriad ar ffioedd diwygiedig, a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2014. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr ymatebion a byddwn yn cyhoeddi datganiad yn 2014.

[22] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/spectrum-management-strategy/
[23] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/spectrum-sharing/

## Diben strategol 3: hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

| Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi | • Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion agored i niwed<br>• Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr<br>• Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol<br>• Gwerthuso fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd, ac adrodd ar hyn |
|---|---|

### Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion agored i niwed

4.50 Mae dyletswydd ar Ofcom o dan adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i roi sylw i anghenion pobl anabl, pobl hŷn, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel wrth wneud a gweithredu penderfyniadau rheoleiddio. Mae Ofcom yn rhoi sylw i'r anghenion hyn wrth ystyried a gweithredu pob un o'i bolisïau.

4.51 Mae gan Ofcom raglen waith benodol hefyd sy'n rhoi sylw i anghenion a phrofiadau defnyddwyr o'r fath, ac sy'n ceisio deall agweddau eraill ar ba mor agored i niwed yw defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys ymchwil reolaidd, yn bennaf drwy ein cyhoeddiadau ar *Brofiadau Defnyddwyr* a llythrennedd yn y cyfryngau, ein gwaith i hyrwyddo datblygiad ac argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio i ddefnyddwyr a'n gwaith i fonitro'r gwasanaeth post cyffredinol.

4.52 Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu[24], sy'n helpu Ofcom i ddeall pryderon a materion defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwledig, pobl hŷn a phobl ag anableddau, a'r rheini sydd ar incwm isel neu o dan anfantais fel arall.

<u>Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw</u>

4.53 Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol Ewropeaidd yn galluogi rheoleiddwyr cenedlaethol i bennu gofynion ar gyfer darparwyr cyfathrebu i sicrhau bod defnyddwyr anabl yn gallu defnyddio gwasanaethau cyfathrebu electronig sy'n cyfateb i'r rheini y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn eu mwynhau.

4.54 Yn ogystal â dyletswydd Ofcom o dan y Ddeddf i ystyried anghenion pobl hŷn a phobl anabl, mae'r Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol (a bennir gan y llywodraeth) yn mynnu ein bod yn sicrhau y darperir un gwasanaeth cyfnewid testun neu fwy. Mae Amod Cyffredinol 15.3 yn mynnu bod darparwyr cyfathrebu yn rhoi mynediad i'w cwsmeriaid at wasanaeth cyfnewid sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

4.55 Mae gwasanaethau cyfnewid yn galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun. Dan y system bresennol, mae cynorthwyydd cyfnewid yn gweithredu fel cyfryngwr i drosi lleferydd yn destun ac fel arall i'r ddau barti.

4.56 Rydym wedi cynnal adolygiad o wasanaethau cyfnewid i ystyried yr achos rheoleiddiol dros gyflwyno gwasanaethau cyfnewid newydd neu well. Rydym wedi ystyried y newidiadau yng ngofynion defnyddwyr a datblygiadau technolegol ers i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno gyntaf dros 30 mlynedd yn ôl. Ym mis Hydref 2012 cyhoeddwyd ein datganiad i wella gwasanaethau cyfathrebu i bobl sydd â nam ar eu

[24] http://www.communicationsconsumerpanel.org.uk/

clyw a/neu leferydd. Ar 6 Mawrth 2014, ar ôl cyfnod lle y gwnaeth gais am gymeradwyaeth, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwyodd Ofcom wasanaeth cyfnewid testun 'cenhedlaeth nesaf' BT.

4.57 Mae ein penderfyniad yn golygu ei bod yn rhaid i holl ddarparwyr llinellau sefydlog a symudol y DU sicrhau bod gan eu cwsmeriaid fynediad at wasanaeth cyfnewid testun 'cenhedlaeth nesaf', sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom, ac a all fod gan BT, erbyn 18 Ebrill 2014. Bydd y gwasanaeth newydd yn cynnig gwelliannau sylweddol i ddefnyddwyr, gan gynnwys:

- gwasanaeth llais dwyffordd cyfochrog, sy'n defnyddio cysylltiad rhyngrwyd i ganiatáu i ddefnyddwyr gamu i mewn, yn hytrach na gorfod aros tan ddiwedd neges. Mae sgyrsiau'n llifo'n gynt o lawer ac yn fwy naturiol o'r herwydd; ac

- ystod ehangach o offer ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys cyfnewid testun sy'n haws ei ddefnyddio ar ffonau symudol.

4.58 Yn ystod 2014/15 byddwn yn monitro sut mae'r gwasanaeth cyfenwid newydd yn cael ei weithredu gan ddarparwyr cyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys ymchwil ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn arwain at y gwelliannau a ddymunir.

4.59 Yn ogystal â hyn, mae Deaf Access to Communications yn arwain menter i annog darparwyr cyfathrebu, busnesau a chyrff eraill i ddarparu gwasanaethau trosglwyddo fideo yn wirfoddol. Rydym yn parhau i weithio gyda Deaf Access to Communications, y llywodraeth a'r diwydiant lle bo hynny'n briodol i helpu yn hyn o beth.

### Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr

4.60 Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddwyd ein cynllun pum pwynt i wella darpariaeth symudol[25], ac ynddo gwnaethom ymroi i'r canlynol:

- braenaru'r ffordd ar gyfer darpariaeth 4G i bawb bron;
- gwella'r ddarpariaeth 3G bresennol;
- ymestyn y ddarpariaeth i ardaloedd anodd eu cyrraedd;
- gwella ansawdd y gwasanaethau drwy well gwybodaeth i ddefnyddwyr; a
- gwella'r ddarpariaeth ar y ffordd a'r rheilffyrdd.

4.61 Byddwn yn casglu data ac yn cynnal gwaith ymchwil sy'n ymwneud â darpariaeth ac ansawdd rhwydweithiau a gwasanaethau symudol. Bydd hyn yn cynnwys perfformiad gwasanaethau data 3G a 4G a dibynadwyedd galwadau llais. Bydd y wybodaeth hon yn helpu defnyddwyr wrth iddynt ddewis gwasanaeth symudol ac yn annog gweithredwyr i fuddsoddi i wella eu rhwydweithiau.

4.62 Byddwn hefyd yn cynnal astudiaeth o ddarpariaeth symudol ar ffyrdd a llwybrau rheilffordd. Ar ôl i ni gwblhau hyn, byddwn yn cynnig cyngor technegol i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail ar sut gellid gwella'r ddarpariaeth a byddwn yn ystyried a

[25] http://consumers.ofcom.org.uk/2013/11/five-point-plan-to-improving-mobile-coverage/

fydd angen unrhyw ymyriad rheoleiddiol gan y llywodraeth i sicrhau darpariaeth ehangach.

## Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol

4.63 Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn y maes hwn drwy gyfuniad o ddatblygiadau gan y farchnad ynghyd â gwaith gan Ofcom a'r llywodraeth i roi hwb i gyflwyno hyn.

4.64 Mae'r gwaith o sicrhau bod band eang cyflym iawn sefydlog ar gael mewn 95% o eiddo ar y trywydd iawn o ganlyniad i fuddsoddiadau masnachol ac arian cyhoeddus. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn wedi bod yn dda iawn yn ystod y flwyddyn a fu.

4.65 Mae'r rhagolygon ar gyfer darpariaeth eang iawn mewn eiddo yn dda iawn ar gyfer dyfeisiau symudol. Mae O2 wedi mynegi'n gyhoeddus ei fwriad i sicrhau darpariaeth o dan do i 98% o ddefnyddwyr ar gyflymder o 2Mbit erbyn 2015, gyda darpariaeth o 95% o leiaf ym mhob un o'r gwledydd yn sgil hynny. Mae hyn yn unol â'r rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm 800MHz y mae O2 wedi'i drwyddedu i redeg ei wasanaeth 4G. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon.

4.66 Mae sicrhau bod gan y DU y rhwydweithiau band eang gorau yn Ewrop wedi bod yn un o nodau'r llywodraeth ers tro. Mae sicrhau bod o leiaf 95% o gartrefi'n gallu cael mynediad i wasanaethau band eang cyflym iawn erbyn 2017 yn un o amcanion y llywodraeth, ac mae'n ymchwilio i'r posibilrwydd o allu cynyddu'r targed hwn i 99%. Ar hyn o bryd, mae'r DU wrthi'n buddsoddi'n sylweddol mewn rhwydweithiau a thechnolegau newydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae datblygiadau seilwaith nodedig yn cynnwys:

- twf mawr yn nifer y gwasanaethau band eang cyflym iawn sydd ar gael a'r nifer sydd yn eu defnyddio;
- cam cyntaf cyflwyno rhwydweithiau band eang symudol 4G newydd;
- cynnydd sylweddol yn y mannau cyswllt WiFi cyhoeddus sydd ar gael ac yn cael eu defnyddio; a
- pharatoi ar gyfer lansio gwasanaethau teledu lleol a HD newydd ar deledu daearol.

4.67 Buddsoddiad gan y sector preifat sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r datblygiadau hyn. Ond, gall yr achos busnes dros greu rhwydweithiau cyfathrebu yn rhai o ardaloedd mwy gwledig y DU fod yn dipyn o her. Er mwyn cydnabod hyn, mae'r llywodraeth wedi camu i mewn er mwyn ymestyn cryn dipyn ar gyrhaeddiad y gwasanaeth band eang cyflym iawn, ac mae Ofcom wedi cynnwys dyletswydd darpariaeth heriol yn un o drwyddedau sbectrwm 4G.

4.68 Broadband Delivery UK (BDUK) sy'n gyfrifol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am ddyrannu'r £530 miliwn o arian cyhoeddus y mae'r llywodraeth wedi'i ddarparu i gefnogi ei nod i gael darpariaeth band eang cyflym iawn. Bydd awdurdodau lleol a gweinyddiaethau datganoledig yn rhoi arian ychwanegol at hyn. Mae BDUK hefyd wedi bod yn gyfrifol am sefydlu fframwaith caffael a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i redeg caffaeliadau band eang cyflym iawn yn effeithlon er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol penodol. Erbyn diwedd mis

Medi 2013, roedd 42 o'r contractau caffael dan arweiniad yr awdurdod lleol sy'n rhan o'r prif gynllun wedi cael eu llofnodi, gyda dim ond dau ar ôl. Mae'r llywodraeth wedi dyrannu £250 miliwn o gyllid ychwanegol, gyda'r awdurdodau lleol yn cyfrannu swm cyfatebol, er mwyn ymestyn y ddarpariaeth o 90% i 95% erbyn 2017. Mae'r llywodraeth wrthi'n edrych ar sut gellid ymestyn y ddarpariaeth i hyd at 99%.

4.69 O ganlyniad, rydym yn disgwyl y bydd gwasanaethau sefydlog a symudol cenhedlaeth nesaf ar gael i bob cartref bron yn y DU. Mae'n anodd rhagweld yr union ddyddiad ar hyn o bryd, ond rydym yn disgwyl y bydd yn digwydd gryn dipyn o amser cyn y dyddiad targed o 2020 a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, a bydd llawer o'r cartrefi mwyaf gwledig yn gweld gwelliannau o ran y gwasanaethau sydd ar gael rhwng 2015 a 2017.

4.70 Mae Ofcom eisoes wedi chwarae rôl weithredol wrth gynghori'r llywodraeth yn y meysydd hyn a byddwn yn parhau i ddarparu ein harbenigedd a'n cyngor i helpu'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i gyflawni'u hamcanion estynedig. Un maes penodol y canolbwyntir arno yw'r ddarpariaeth symudol, lle ceir pryderon ynghylch a yw gwasanaethau ar gael ar gyfer nifer fach o gartrefi, ac ar rannau o reilffyrdd a ffyrdd y DU. Yn benodol, byddwn yn parhau i roi cefnogaeth dechnegol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda'i Phrosiect Seilwaith Symudol. Nod y prosiect hwn yw dod â gwasanaethau symudol i rai o'r eiddo a rhannau o brif ffyrdd nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n flaenorol.

4.71 Mae ambell ymyriad penodol eisoes ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, ond byddwn yn gwneud rhagor o waith dadansoddi er mwyn ystyried a yw'r rhain yn debygol o fod yn ddigon. Byddwn hefyd yn parhau i gasglu a chyhoeddi data i helpu'r llywodraeth i feincnodi seilwaith band eang y DU yn erbyn gweddill Ewrop drwy 'Gerdyn Sgorio y Gorau yn Ewrop'. Cafodd y cerdyn sgorio diweddaraf ei gyhoeddi ar 12 Mawrth 2014[26].

## Gwerthuso fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd, ac adrodd ar hyn

4.72 Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod-wladwriaeth sicrhau bod gwasanaethau cyffredinol, gan gynnwys teleffoni llinell sefydlog gyda mynediad sylfaenol i'r rhyngrwyd, yn cael ei ddarparu i bawb am brisiau fforddiadwy. Yn ôl erthygl 9 y Gyfarwyddeb, mae angen monitro tariffau adwerthu ar gyfer gwasanaethau cyffredinol, yn enwedig yng nghyswllt prisiau ac incwm defnyddwyr cenedlaethol.

4.73 Ers i wasanaethau cyffredinol fel teleffoni sefydlog gael eu cynnwys yn y Gyfarwyddeb am y tro cyntaf, mae'r ffordd y mae defnyddwyr a dinasyddion yn cyfathrebu â'i gilydd wedi newid, gyda mwy o ddefnydd o gyfathrebu symudol a'r rhyngrwyd. Mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd mewn perthynas â'r categori ehangach posibl hwn o wasanaethau craidd. Yn benodol, mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol o dan adran 3(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon rhaid i ni ystyried, o dan adran 3(4)(i), anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl ar incwm isel, ac o dan adran 3 (5) rhaid i ni roi sylw i fuddiannau defnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

[26] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/telecoms-research/bbresearch/scorecard-14

4.74 Yng ngoleuni'r dyletswyddau hyn, mae Ofcom yn cynnal prosiect a fydd yn dod i ben yn 2014/15 gobeithio. Y nod yw ceisio deall a oes sefyllfaoedd yn codi lle mae fforddiadwyedd gwasanaethau craidd yn rhwystr rhag cyfranogi wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

4.75 Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddi er mwyn deall yn well sut mae diffinio gwasanaethau craidd ac a oes sefyllfaoedd yn codi lle nad yw'r rheini yn fforddiadwy. Bydd hyn yn cynnwys:

- comisiynu ymchwil feintiol ac ansoddol;
- casglu gwybodaeth am wariant defnyddwyr ar delegyfathrebu;
- adolygu gwybodaeth bresennol; ac
- ymchwilio i gostau gwasanaethau cyfathrebu, defnydd o delegyfathrebu defnyddwyr a barn rhanddeiliaid.

4.76 Ymddangosodd gwaith Ofcom ar fforddiadwyedd ac, yn fwy cyffredinol, ar gost a gwerth gwasanaethau cyfathrebu craidd yn *Adroddiad Profiad y Defnyddiwr* ar gyfer 2013[27], a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014.

## Diben strategol 4: amddiffyn defnyddwyr rhag niwed

| | |
|---|---|
| Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed | • Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd<br>• Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans a biliau annisgwyl o uchel |

### Cefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd

4.77 Mae'r rhyngrwyd yn llwyfan a all darfu ar fodelau busnes traddodiadol yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd datblygu busnes newydd, gan hybu arloesedd a chreadigrwydd a symbylu effeithlonrwydd cost.

4.78 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi camau yn y diwydiant i wella ymddiriedaeth pobl wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Byddwn yn ymyrryd yn uniongyrchol lle mae'n amlwg bod rhwystrau sylweddol yng nghyd-destun atebion gan y diwydiant, fel gyda'n gwaith ar gyflymder band eang.

4.79 Byddwn yn parhau i ymchwilio i ddatblygiadau'r farchnad a all ddylanwadu ar sut mae defnyddwyr a dinasyddion yn ymgysylltu â gwasanaethau cyfathrebu a gwasanaethau clyweledol a ddarperir dros y rhyngrwyd. Er enghraifft, byddwn yn ceisio adeiladu ar ein dealltwriaeth o'r rôl a chwaraeir gan ddyfeisiau wedi'u cysylltu ar gyfer hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad, ac ar gyfer darparu ffynonellau ychwanegol o refeniw i'w fuddsoddi mewn cynnwys a seilwaith.

4.80 Ym mis Mai, roeddem wedi cyhoeddi astudiaeth ynghylch goblygiadau diogelwch system weithredu ffonau clyfar[28]. Roedd hyn yn nodi sawl mater o bryder posibl

[27] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/market-data/consumer-experience-reports/consumer-experience/
[28] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/telecoms-research/smartphone-os/

ynghylch pa mor agored i niwed yw defnyddwyr yng nghyd-destun ffonau clyfar. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, rydym yn siarad â rheoleiddwyr eraill; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (y Swyddfa Masnachu Teg gynt) a PhonePayPlus, i weld beth y gellir ei wneud ar draws yr asiantaethau i amddiffyn buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y ffordd fwyaf effeithiol.

4.81 Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn deall yn well y cyfleoedd posibl a gyflwynir gan Estyniadau Diogelwch DNS ar gyfer gwella lefelau diogelwch i ddefnyddwyr sy'n ymwneud ag e-fasnach. Byddwn yn edrych ar weithio'n agos gyda Nominet ac yn cefnogi mentrau i gyflwyno'r gwasanaeth yn ehangach.

4.82 Ym mis Tachwedd, roeddem wedi cyhoeddi'r adroddiad *Internet Citizen 2013*[29] ar gyfranogiad ar-lein mewn cynnwys a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, ac rydym yn bwriadu ei ddiweddaru bob blwyddyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â hybu buddiannau dinasyddion o ran defnyddio'r rhyngrwyd.

### Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed mewn ystod o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans a biliau annisgwyl o uchel

4.83 Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y prif feysydd o niwed i ddefnyddwyr rydym wedi'u nodi drwy ein rhaglenni monitro a gorfodi. Hefyd, byddwn yn ymateb i ddata a ddaw i'n canolfan gyswllt, gan weithredu mewn modd effeithiol a chymesur, gan gynnwys ymchwiliadau lle bo angen. Mae'r meysydd gwaith ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn, er byddwn hefyd yn gwneud gwaith heb ei gynllunio wrth i ni ymateb i faterion newydd annisgwyl:

- **Galwadau niwsans** – mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys camau gorfodi yn erbyn galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, a mesurau eraill i helpu i fynd i'r afael â galwadau a negeseuon niwsans yn gyffredinol. Y prif waith rydym yn ei wneud yw (i) gorfodaeth (ii) gweithredu ar y cyd rhwng rheoleiddwyr (er enghraifft gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder) gan gynnwys ymchwil ar effaith cofrestru gyda'r Telephone Preference Service (iii) gweithio gyda'r diwydiant i nodi ffyrdd o ganfod y cwmnïau sy'n gyfrifol am alwadau niwsans pan fyddant yn ceisio cuddio pwy ydynt ac i atal galwadau o'r fath, a (iv) gwella cyngor i ddefnyddwyr.

- **Biliau annisgwyl o uchel** – byddwn yn parhau i fonitro biliau annisgwyl o uchel ac ymgysylltu â darparwyr fel bo angen, gan gynnwys cysylltu ynghylch cydymffurfio â'r Rheoliadau Crwydro.

## Diben strategol 5: cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

| | |
|---|---|
| Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir | • Datblygu a chefnogi rheoleiddio ar gyfer radio yn y dyfodol<br>• Cwblhau'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd<br>• Gweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac y gellir ei ganfod |

[29] http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/telecoms-research/internet-citizens-2013/

## Datblygu a chefnogi rheoleiddio ar gyfer radio yn y dyfodol

### Newidiadau posibl i reoleiddio fformatau cerddoriaeth ar wasanaethau radio analog

4.84 Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd dramatig yn y gwahanol fathau o gerddoriaeth sydd ar gael ac yn ffynonellau'r gerddoriaeth honno. Darperir nifer o wasanaethau radio bellach drwy'r rhyngrwyd a radio digidol; cynlluniwyd y drefn reoleiddio radio bresennol yn ystod yr oes analog.

4.85 Mae ambell elfen o'r drefn honno yn dal i fod yn bwysig i wrandawyr, fel darparu deunydd lleol sydd wedi'i wneud yn yr ardal. Ond mae achos dros edrych eto ar reoleiddio fformatau cerddoriaeth i weld a ddylid llacio hyn gan roi mwy o ryddid i'r diwydiant addasu i chwaeth y defnyddwyr sy'n newid, ac i annog cystadleuaeth. Rydym yn bwriadu adolygu fformatau cerddoriaeth yn y Flwyddyn Newydd gyda'r nod o ymgynghori ar fframwaith diwygiedig a allai fod yn barod erbyn haf 2014.

### Edrych ar hyd trwyddedau analog

4.86 Gall Ofcom drwyddedu gwasanaethau radio analog am hyd at 12 mlynedd, er mai saith mlynedd yw hyd trwydded ar hyn o bryd. Gosodwyd yr hyd hwn er mwyn cadw hyblygrwydd wrth drwyddedu, yng ngoleuni cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer radio digidol.

4.87 Cyn hyn rydym wedi nodi y byddem yn adolygu hyd y trwyddedau newydd a'r trwyddedau a ail-hysbysebwyd yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyrdd y llywodraeth a datganiad y llywodraeth ar newid i radio digidol.

4.88 Cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei dogfen strategol yn ystod yr haf[30], ac ar 16 Rhagfyr amlinellodd y Gweinidog Ed Vaizey y camau nesaf ar gyfer datblygu radio digidol.

4.89 Rydym wrthi'n ymgynghori ynghylch a ddylid newid hyd trwyddedau newydd a thrwyddedau a ail-hysbysebwyd[31]. Nid oes gan Ofcom bŵer i newid hyd trwyddedau sydd eisoes yn bodoli.

### Cefnogi rhaglen radio digidol y llywodraeth

4.90 Yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth ynghylch y camau nesaf ar gyfer datblygu radio digidol, byddwn yn:

- **hysbysebu, yn ystod gwanwyn 2014, drwydded ar gyfer yr ail amlblecs radio digidol masnachol cenedlaethol** er mwyn cynyddu'r ystod o ddewis o wasanaethau radio ar gyfer defnyddwyr ar draws sawl rhan o'r DU a chynnig cyfleoedd newydd i ddarlledwyr gynnig gwasanaethau cenedlaethol newydd; a

- **gwneud gwaith technegol i brofi cyfleoedd i gael gorsafoedd radio cymunedol a gorsafoedd masnachol bach ar DAB** mewn modd hyblyg a chost effeithiol. Byddwn hefyd yn ystyried y drefn drwyddedu bosibl ar gyfer gorsafoedd o'r fath er mwyn cefnogi ffordd y llywodraeth o feddwl am ddeddfwriaeth newydd bosibl maes o law.

[30] https://www.gov.uk/government/publications/connectivity-content-and-consumers-britains-digital-platform-for-growth
[31] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/local-radio-durations/

### Cwblhau'r gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd

4.91 Byddwn yn cwblhau’r gwaith o hysbysebu a dyfarnu trwyddedau gwasanaethau teledu lleol (L-DTPS) ar gyfer pob lleoliad yn ail gam ein rhaglen trwyddedu gwasanaethau teledu lleol yn ystod y flwyddyn.

4.92 Bydd hyn yn cwblhau’r gwaith o ddyfarnu trwyddedau i bob lleoliad y mae’r sawl sy’n dal trwydded amlblecs lleol wedi ymrwymo i’w gwasanaethu. Byddwn yn parhau i gefnogi’r sector hwn sy’n datblygu drwy roi cymorth gyda’r dyletswyddau rheoleiddio a chydymffurfio, a byddwn yn dechrau casglu data ar y gwasanaethau a gaiff eu lansio o’r newydd fel bod modd i ni roi gwybod i'r llywodraeth am lwyddiant ei pholisi.

### Gweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac y gellir ei ganfod

4.93 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i lunio, ac adolygu o bryd i’w gilydd, cod sy’n rhoi arweiniad ar ddarpariaeth rhestrau electronig o raglenni (EPGs). Mae’r cod yn cynnwys arweiniad ynghylch amlygrwydd sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar restrau electronig o raglenni.

4.94 Yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad y llywodraeth a'r datganiad dilynol ar amlygrwydd EPG, byddwn yn cefnogi’r llywodraeth i ddatblygu deddfwriaeth newydd a byddwn yn ystyried sut dylid adolygu’r cod EPG presennol.

## Diben strategol 6: cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith

| | |
|---|---|
| Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith | • Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu’r Byd (WRC) ym mis Tachwedd 2015<br>• Sicrhau cryfder a chynaliadwyedd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol<br>• Cyhoeddi adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu’r DU |

### Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu’r Byd (WRC) ym mis Tachwedd 2015

4.95 O dan gyfarwyddyd Gweinidogol, mae’n ofynnol bod Ofcom yn cynrychioli buddiannau’r DU ym mhwyllgorau sbectrwm ITU, CEPT a’r UE.

4.96 Un agwedd allweddol o hyn yw arwain dirprwyaeth o’r DU i Gynadleddau Radiogyfathrebu’r Byd a gynhelir bob tair i bedair blynedd i adolygu Rheoliadau Radio sy’n rheoli defnydd rhyngwladol o orbitau lloeren a sbectrwm. Yn ogystal ag arwain dirprwyaeth o’r DU, mae Ofcom yn gyfrifol hefyd am arwain gwaith paratoi helaeth y DU ar gyfer y cynadleddau hyn.

4.97 Cynhelir Cynhadledd Radiogyfathrebu’r Byd 2015 (WRC-15) yn Genefa ym mis Tachwedd 2015 ac mae gwaith yn mynd rhagddo’n dda i baratoi ar gyfer safbwyntiau’r DU ac Ewrop ar gyfer y gynhadledd hon. Y mater uchaf ei broffil, a’r un mwyaf dadleuol o bosibl, a fydd yn cael ei drafod yn y gynhadledd yw eitem 1.1 ar yr agenda sy’n rhoi sylw i faint o sbectrwm fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer band eang symudol. Mae hyn yn gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng anghenion y gymuned symudol ac anghenion defnyddwyr eraill y sbectrwm a bydd gan hyn oblygiadau o ran defnyddio sbectrwm critigol yn y DU am flynyddoedd lawer. Bydd eitemau pwysig eraill ar yr agenda yn ymdrin â band 700MHz, amrediad o wasanaethau lloeren,

gwarchod y cyhoedd a chymorth argyfwng, radio amatur, defnydd gwyddonol o sbectrwm a mater a allai fod yn ddadleuol sy'n ymwneud â defnyddio eiliadau llamu.

4.98 Drwy gydol 2014/15 bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda'r llywodraeth a gyda rhanddeiliaid y DU i ddatblygu safbwynt y DU ar bob un eitem ar yr agenda.

4.99 Byddwn yn ymgysylltu mewn fforymau rhyngwladol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys pwyllgorau CEPT sy'n gyfrifol am ddatblygu safbwyntiau Ewrop ar gyfer y gynhadledd ac yng Ngrŵp Gorchwyl ar y Cyd yr ITU sy'n arwain y gwaith rhyngwladol ar eitemau'r agenda sy'n rhoi sylw i fand eang symudol. Mae Ofcom yn awyddus i gadw proffil uchel ac i gynnal dylanwad y DU gymaint ag y bo modd yn y trafodaethau hyn, gan ysgwyddo dyletswyddau cadeirio a swyddi allweddol eraill lle bo'n briodol.

### Sicrhau cryfder a chynaliadwyedd cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

Cynnal adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

4.100 Mae'r Senedd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyma ddyletswyddau Ofcom wrth gynnal yr adolygiadau hyn:

- adolygu i ba raddau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus;
- adrodd ar hynny gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac
- adolygu i ba raddau y mae deunyddiau mewn gwasanaethau cyfryngau wedi cyfrannu at gyflawni amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

4.101 Bydd ein hadolygiad yn adeiladu ar ein sylfaen gadarn o waith ymchwil a dadansoddi presennol. Byddwn yn amlygu'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y sector dros y pum mlynedd diwethaf ac yn edrych ar y tueddiadau sy'n debygol o siapio'r pum mlynedd nesaf. Byddwn yn canolbwyntio'n fanylach ar y prif heriau strategol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu i asesu beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion dinasyddion a defnyddwyr.

4.102 Byddwn yn cynnal adolygiad o'r fath drwy gydol 2014/15 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad erbyn haf 2015.

Adolygiad o ddyletswyddau Channel 4 mewn perthynas â chynnwys cyfryngau

4.103 Bydd Ofcom yn cynnal adolygiad, yn unol â'n dyletswydd statudol, i asesu i ba raddau y mae Channel 4 wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynnwys cyfryngau, fel y nodir yn Neddf yr Economi Ddigidol.

### Cyhoeddi adroddiad ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU

4.104 Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2010 y gofyniad i Ofcom ddarparu adroddiad bob tair blynedd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyflwr seilwaith cyfathrebu'r DU. Eleni, byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad llawn ar seilwaith y DU, yn unol â'r gofyniad statudol hwn.

4.105 Byddwn yn adrodd am rwydweithiau cyfathrebu a gwasanaethau yn y DU, gan gynnwys:

- disgrifiadau o’r mathau o rwydweithiau a gwasanaethau;
- darpariaeth gwasanaethau yn ôl daearyddiaeth a phoblogaeth;
- graddfa rhannu’r seilwaith;
- mynediad a gallu cyfanwerthol; ac
- argaeledd a gwytnwch rhwydweithiau a gwasanaethau.

Bydd yr adroddiad yn defnyddio’r data a gasglwyd gan weithredwyr a data sydd gan Ofcom yn barod lle bo’n briodol. Byddwn yn ceisio rhoi canfyddiadau’r adroddiad yng nghyd-destun dadleuon polisi a datblygiadau technegol sy’n dod i’r amlwg.

## Adran 5


# Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid

## Mae Ofcom yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

5.1 Mae gennym ystod o gyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni drwy gynnal a chwblhau prosiectau penodol mewn meysydd penodol (fel y nodir yn Adrannau 3 a 4).

5.2 Mae ein gwaith rhaglenni parhaus yr un mor bwysig o ran cyflawni ein dibenion strategol, fel y nodir isod.

**Ffigur 8: Gwaith rhaglenni parhaus Ofcom**




### Ymgysylltu â'r gwledydd

5.3 Mae ein dyletswyddau'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni ein cyfrifoldebau tuag at ddefnyddwyr a dinasyddion ar draws y DU. Yn benodol, rhaid i ni ystyried

buddiannau pobl yn ardaloedd gwahanol y DU, yng nghymunedau ethnig gwahanol y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

5.4 Byddwn yn hybu buddiannau pedair gwlad y DU yn frwd:

- drwy ein gwaith yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Adran 3, yn benodol:
  - sicrhau darpariaeth y gwasanaeth post cyffredinol;
- drwy ein gwaith yn y prif feysydd eraill a nodwyd yn Adran 4, yn benodol:
  - cwblhau'r gwerthusiad ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd ac adrodd ar hyn;
  - gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol;
  - cwblhau trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd, ar ôl hysbysebu trwyddedau yn Aberdeen, Ayr, Dundee, Falkirk ac Inverness;
  - parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio penderfyniadau polisi a phenderfyniadau defnyddwyr; a
  - chefnogi cynlluniau'r diwydiant a'r llywodraeth i wella lefelau ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau rhyngrwyd.
- drwy ein hymchwil barhaus, gan rannu:
  - canfyddiadau ein hymchwil ar argaeledd gwasanaethau cyfathrebu yn Belfast, Birmingham, Caerdydd, Glasgow, Llundain a Manceinion;
  - canfyddiadau ein hymchwil ar ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu gan fentrau bach a chanolig a'u hagwedd tuag atynt; a
  - chanfyddiadau ein hymchwil ar wahaniaethau mewn cyflymder band eang rhwng ardaloedd gwledig a threfol.
- drwy ein gwaith ar luosogrwydd, yn benodol drwy brofion budd cyhoeddus neu drwy unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a gawn; a
- drwy ein hymgysylltiad â sefydliadau datganoledig a rhanddeiliaid eraill.

5.5 Yng **Ngogledd Iwerddon**, byddwn yn:

- darparu cyngor rheoleiddio priodol i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Cynulliad, llywodraeth leol a'r diwydiant i helpu i fesur a gwella ansawdd darpariaeth symudol ac argaeledd band eang ar draws Gogledd Iwerddon;
- gwella dealltwriaeth pobl o grwydro symudol, er mwyn iddynt allu eu diogelu eu hunain rhag cost crwydro anfwriadol; a
- chynnal fforymau diwydiant ar ddarlledu, gwasanaethau post a thelegyfathrebu er mwyn caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth lleol godi materion sy'n berthnasol i ddefnyddwyr a chystadleuaeth.

5.6 Yn **yr Alban**, byddwn yn:

- cysylltu â llywodraeth yr Alban a rhanddeiliaid eraill ynghylch y paratoadau a'r gefnogaeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014;
- parhau i fesur defnydd o fand eang a chyfranogiad digidol yn Glasgow a'r ardal gyfagos; a
- parhau i fesur y gwahaniaethau mewn cyflymder band eang a chyfranogiad digidol rhwng ardaloedd trefol a gwledig;
- sicrhau bod y drwydded ddiwygiedig ar gyfer rhanbarth ITV Border yn darparu ar gyfer rhoi mwy o sylw i faterion cyfoes ar gyfer gwylwyr yr Alban;
- ceisio cyfrannu at drafodaethau parhaus am ddarlledu a materion sy'n ymwneud â chysylltedd gan gynnwys Cynllun *Scotland's Digital Future* llywodraeth yr Alban;
- monitro ymdrechion i wella'r broses gyfeirio a lleoli sianeli teledu ar y rhestrau electronig o raglenni gan gyfeirio'n benodol at yr Alban;
- cadw golwg ar newidiadau o ran mynediad at gynnwys wedi'i reoleiddio a heb ei reoleiddio a nodi unrhyw ganlyniadau rheoleiddiol penodol ar gyfer yr Alban; a
- chyfrannu fel y bo'n briodol at drafodaethau mwy cyffredinol am y sector cyfathrebu a rheoleiddio'r sector hwnnw.

5.7 Yng **Nghymru**, byddwn yn:

- darparu cyngor rheoleiddio a thechnegol priodol i lywodraeth Cymru i gefnogi ei hymrwymiadau polisi Cymru Ddigidol, yn enwedig y cynllun Allwedd Band Eang Cymru a phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru; a
- sicrhau bod anghenion pobl Cymru yn cael eu hystyried mewn unrhyw waith rydym yn ei wneud ar fudo a thechnoleg radio DAB.

5.8 Yn ogystal â'r gwaith rhaglenni a ddangosir uchod, rydym yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol i randdeiliaid a defnyddwyr er mwyn cyflawni ein dyletswyddau yn rhinwedd ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebu.

## Mynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr busnes

5.9 Yn yr un modd â'n hymgysylltiad â'r gwledydd, mae anghenion defnyddwyr busnes yn rhan gyson o'n gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr anghenion hyn yn gallu bod yn wahanol i anghenion defnyddwyr preswyl a'u bod yn debygol o ofyn am ddull rheoleiddio gwahanol.

5.10 Mewn marchnad cyfathrebu sy'n newid yn gyflym, mae arnom eisiau sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi anghenion busnesau bach a mawr. Mae arnom eisiau sicrhau hefyd bod gan ddarparwyr cyfathrebu'r hyn sydd ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau i fusnesau.

5.11 Rydym wedi comisiynu ymchwil i ddeall sut mae Busnesau Bach a Chanolig yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu a'u hagweddau atynt. Nod yr ymchwil yw sicrhau bod gennym well dealltwriaeth o'r canlynol:

- dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu mae Busnesau Bach a Chanolig yn eu defnyddio;
- rhesymau pam ei bod yn bosibl na fyddai Busnesau Bach a Chanolig yn dewis defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau;
- bodlonrwydd Busnesau Bach a Chanolig â’r gwasanaethau y maent yn eu cael;
- ymgysylltu â’r farchnad (mynediad at, ymwybyddiaeth o ddewis, newid cyflenwyr); a
- pa mor gyffredin yw unrhyw broblemau gyda gwasanaethau y mae eu hangen ar Fusnesau Bach a Chanolig.

5.12 Cwblheir yr ymchwil yn ystod gwanwyn 2014. Mae’n bosibl y bydd yn tynnu sylw at feysydd gwaith y byddem wedyn yn ymgymryd â nhw yn ystod 2014/15.

5.13 Yn ystod 2014/15 byddwn yn dal i ymateb i anghenion ehangach defnyddwyr busnes ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu cystadlu i gynnig gwasanaethau effeithiol i ddefnyddwyr busnes.

## Ymateb i ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

5.14 Mae ein tîm gweithrediadau canolog yn delio ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telegyfathrebu, gwasanaethau teledu a radio a defnyddio'r sbectrwm radio. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu hymholiadau a'u cwynion drwy eu cyfeirio at ffynonellau cyngor defnyddiol a drwy gysylltu â darparwyr gwasanaeth.

5.15 Ar ben hynny, bydd pobl yn aml yn cwyno'n uniongyrchol wrthym am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis amddiffyn pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy’n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni’r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn rheoli cwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

5.16 Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn gallu rhoi rhybudd cynnar ynghylch pryderon defnyddwyr, ar sail y swmp cynyddol o gwynion a gawn am faterion penodol.

## Cadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth

5.17 Rydym yn monitro’r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae’r galw cynyddol am sbectrwm ac i ddefnyddio mwy arno yn arwain at fwy o risg o ymyrraeth. Bydd Ofcom yn parhau i weithredu i atal hyn rhag digwydd a’i liniaru pan fydd yn digwydd.

5.18 Mae ein Tîm Gorfodi a Pheirianneg Sbectrwm yn delio â dros 5,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i wneud y canlynol:

- amddiffyn cyfathrebu er mwyn diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a’r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
- atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;

- caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
- sicrhau na chaiff offer nad yw'n cydymffurfio ei roi ar y farchnad.

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

5.19 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Pan fydd angen, byddwn yn neilltuo amleddau, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu'r defnydd o sbectrwm yn rhyngwladol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyhoeddi oddeutu 5000 o drwyddedau sbectrwm (heb gynnwys y rhai sydd wedi'u hadnewyddu) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr lloeren, dolenni sefydlog, radio busnesau preifat, amatur, morol a defnyddiau eraill.

5.20 Byddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl, gan wella ein prosesau a'n gwasanaeth i gwsmeriaid er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddiddymu trwyddedau ac atal achosion o'r sbectrwm yn cael ei ddefnyddio heb drwydded.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

5.21 Rydym yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn elfen bwysig o ran cydlynu'r defnydd o sbectrwm yn effeithlon. Rydym hefyd yn hwyluso prynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

5.22 Mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol ac i reoli ei effaith ar y gymuned ehangach hefyd.

5.23 Dyma ein hamcanion o ran cyfrifoldeb corfforaethol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; ac
- ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

5.24 Yn 2011 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n dod ag ymrwymiad Ofcom yng nghyswllt amrywiaeth a chydraddoldeb ynghyd ac yn ei gryfhau. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn nodi'n glir y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn a'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol. Fel rhan o hyn rydym wedi gosod amcanion cydraddoldeb i ni'n hunain i'w cyflawni erbyn mis Hydref 2014. Rydym yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran ein hamcanion cydraddoldeb.

5.25 Yn 2013/14 roeddem wedi symud ymlaen yn dda tuag at gyflawni ein holl amcanion cydraddoldeb, fel y nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Dyma'r prif ddatblygiadau:

- cyflwyno prentisiaethau i Ofcom;

- gwella gwasanaethau cyfnewid testun ar gyfer defnyddwyr anabl;
- cwblhau archwiliadau hygyrchedd ein swyddfeydd yn y gwledydd; ac
- ymestyn ein rhaglenni gwirfoddoli ar gyfer cydweithwyr i gynnwys gwaith cynhwysiant digidol gyda phobl hŷn yn y gymuned leol.

5.26 Roedd Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2011 yn ateb gofynion newydd Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig sef oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, priodas a phartneriaeth sifil a chyfeiriadedd rhywiol.

5.27 Bydd Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2011 yn dod i ben ym mis Hydref 2014 ac rydym wrthi'n llunio cynllun wedi'i adnewyddu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2014 a 2017.

5.28 Ers 2012, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar broffil amrywiaeth cydweithwyr er mwyn cyflawni rhan o'n dyletswydd sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i lywio ein gwaith ar amrywiaeth a chydraddoldeb a byddwn yn parhau i ddarparu adroddiadau wedi'u diweddaru bob blwyddyn. Rydym hefyd yn meincnodi i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol ag arferion gorau ar amrywiaeth a chydraddoldeb.

5.29 Yn ddiweddar, cawsom unwaith eto ein henwi ar restr Busnes yn y Gymuned o'r deg cyflogwr gorau yn y sector cyhoeddus o ran hil a rhywedd, a chawsom ein cynnwys ar restr y Times o'r 50 o lefydd gorau i fenywod weithio ynddynt.

5.30 Rydym wedi llofnodi'r addewid 'Time to Change' i fynd i'r afael â'r stigma ynghylch iechyd meddwl a gwahaniaethu yn y gweithle, ac rydym wedi cynnal cyfres o weithgareddau codi ymwybyddiaeth gan gynnwys sgyrsiau amser cinio a gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar.

## Adran 6

# Pwerau cystadleuaeth Ofcom

6.1 Yn ogystal â'i gyfrifoldebau rheoleiddio, mae gan Ofcom bŵer hefyd sy'n ymwneud â materion cyfathrebu:

- gorfodi'r gwaharddiadau yn Neddf Cystadleuaeth 1998 a'r darpariaethau cyfatebol o dan Gytundeb yr UE; a
- chyfeirio ymchwiliadau'r farchnad o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

6.2 Mae 'materion cyfathrebu' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebu electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Mae Ofcom yn arfer y pwerau hyn ar y cyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

6.3 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n briodol ymarfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion penodol y ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion, nid oes gan Ofcom yr hawl i ddewis y pwerau a ddefnyddia, ac mae'n rhaid iddo ddefnyddio ei bwerau sectoraidd.

6.4 Dyma'r achosion y mae Ofcom yn eu hystyried ar hyn o bryd yn unol â'n pwerau cyfraith cystadleuaeth:

- Cwyn gan British Telecommunications ccc ("BT) yn erbyn British Sky Broadcasting Group ccc ("Sky") yn honni achos o gamddefnyddio safle goruchafol yng nghyswllt cyflenwi Sky Sports 1 a 2 ("SS1&2") cyfanwerthol; a
- cwyn gan TalkTalk Telecom Group ccc yn erbyn BT Group ccc yn honni bod BT yn cyfyngu ar faint yr elw y gellir ei wneud yng nghyswllt pris band eang cyflym iawn.

Ceir manylion yr achosion hyn drwy ddilyn y ddolen isod[32].

[32] http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/competition-bulletins/open-cases/open-competition-act-cases/

## Adran 7

# Blaenoriaethau/meysydd gwaith posibl y tu hwnt i gwmpas y Cynllun hwn

7.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynlluniau Ofcom ar gyfer 2014/15 a fydd yn dwyn budd i ddefnyddwyr a dinasyddion. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd y sector cyfathrebu'n parhau i ddatblygu a newid dros amser, a gallai hyn arwain at nifer o faterion polisi yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn nodi'r datblygiadau hyn a'r materion tymor hwy posibl a allai godi yn eu sgil.

7.2 Nid yw cynnwys y materion hyn yn awgrymu'n awtomatig y bydd Ofcom yn cynnal gwaith yn y meysydd hyn fel blaenoriaeth yng Nghynlluniau Blynyddol y dyfodol. Mae eu natur yn golygu nad yw'n glir a fydd y farchnad yn datblygu mewn modd a allai olygu ei bod yn ofynnol i ni gael barn am unrhyw un o'r materion hyn yn y dyfodol.

7.3 Efallai y daw rhai o'r rhain yn flaenoriaethau gweithredol yn 2014/15, o ganlyniad i ddigwyddiadau allanol annisgwyl, neu os bydd capasiti sbâr ar gael yn fewnol. Ond tan hynny, bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r farchnad a/neu gynnal gwaith mewnol ar raddfa fach i baratoi ar gyfer y dyfodol.

7.4 Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw hon yn rhestr gaeedig – bydd materion a blaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg, ond dyma'r rhai rydym eisoes wedi'u nodi adeg ysgrifennu hyn.

## Materion sy'n datblygu a all gyfrannu at Gynlluniau Blynyddol y dyfodol

### Y cynnydd o ran faint o ddata a gwybodaeth defnyddwyr a ddefnyddir

7.5 O ganlyniad i'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil gwasanaethau IP a'r rhyngrwyd, mae'n bosibl y bydd cwmnïau yng nghadwyn gwerth y sector cyfathrebu yn casglu ac yn defnyddio mwy a mwy o wybodaeth am eu cwsmeriaid.

7.6 Mae hyn yn codi nifer o faterion posibl, gan gynnwys cystadleuaeth bosibl, amddiffyn defnyddwyr a phryderon ynghylch preifatrwydd. Er nad yw hyn yn fater i Ofcom yn unig, mae'n faes sensitif sy'n datblygu a bydd angen i ni weithio gyda rheoleiddwyr eraill fel sy'n briodol er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr a dinasyddion.

### Tagfeydd a phyrth cystadleuaeth newydd

7.7 Wrth i'r sector cyfathrebu esblygu, mae'n bosibl y bydd newid i'w weld yn ystod a nifer y chwaraewyr, y rhwydweithiau a'r gwasanaethau a allai fod yn dagfeydd neu'n byrth cystadleuaeth. Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi cystadleuaeth effeithiol a dewisiadau ar sail gwybodaeth, felly byddwn yn parhau i fonitro'r risg o bryderon posibl ynghylch cystadleuaeth newydd a all godi wrth i gadwyn gwerth y sector cyfathrebu esblygu. Efallai y bydd yn rhaid i ni ddeall cwmpas y risgiau posibl hefyd, a chanfod atebion yn y farchnad ac atebion rheoleiddiol ar gyfer pryderon a allai godi yng nghyd-destun polisi cyhoeddus a chystadleuaeth.

## Adolygiad mwy cyffredinol o'r farchnad telegyfathrebu busnes

7.8 Gan adeiladu ar yr *Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* diweddar, efallai mai un flaenoriaeth yn y dyfodol fydd cynnal adolygiad manylach o effaith cydgyfeirio rhwydweithiau, cynnyrch a gwasanaethau, newidiadau yn anghenion busnesau y mae angen cysylltedd data arnynt, ac i ba raddau mae cyflenwyr yn ymateb i'r newidiadau hyn.

## Cefnogi'r gwaith i ryddhau rhagor o sbectrwm sector cyhoeddus

7.9 Wrth i ffynonellau newydd o sbectrwm at ddibenion masnachol ddod yn bwysicach, gall blaenoriaeth i'r dyfodol gynnwys cefnogi'r gwaith o ryddhau rhagor o sbectrwm sector cyhoeddus y tu hwnt i 2.3 a 3.4GHz.

## Swyddogaeth ehangach i Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol (NRA) o ran diogelu seilwaith cenedlaethol critigol gwydn

7.10 Cafodd Erthygl 13a o'r Gyfarwyddeb Fframwaith ei thrawsgrifio i'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn 2011. Mae hyn yn rhoi pwerau newydd i Ofcom o ran sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau cyhoeddus yn wydn ac yn ddiogel.

7.11 Hyd yn hyn, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y darparwyr cyfathrebu mwyaf yn gallu dangos eu bod yn dilyn arferion gorau'r diwydiant.

7.12 Fodd bynnag, wrth i wasanaethau cyfathrebu ddod yn bwysicach i ddefnyddwyr, i ddinasyddion ac i'r economi, efallai bydd mwy a mwy o alw ar Ofcom i fabwysiadu swyddogaeth sy'n fwy rhagweithiol, y tu hwnt i'n hadroddiadau seilwaith rheolaidd, ar gyfer sicrhau seilwaith cenedlaethol critigol gwydn.

## Deall swyddogaeth atebolrwydd cyfryngwr wrth lunio polisïau yn y dyfodol

7.13 Yn y dyfodol, efallai bydd cyfryngwyr rhyngrwyd fel darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd yn chwarae rhannau sy'n fwy neu'n llai ffurfiol wrth sicrhau nodau polisi mor amrywiol â diogelu hawlfraint ac amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed. Os bydd angen, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall deddfwriaeth berthnasol y DU ac Ewrop, y posibilrwydd ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio, a datblygiad mentrau gwirfoddol perthnasol gan gyfryngwyr o'r fath wrth i'r dadleuon ar y mater hwn barhau.

## Y risgiau i ddefnyddwyr oherwydd maleiswedd

7.14 Drwy gasglu data preifat heb i'r defnyddiwr wybod hynny a drwy ymosod ar systemau cyfrifiadurol, gallai maleiswedd beri risg go iawn i ddefnyddwyr ar-lein. Gall ddod yn bwysig i ni fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn, ac i ddeall materion posibl yn y dyfodol ynghylch diogelu defnyddwyr sy'n ymwneud â gwasanaethau ar-lein, er mwyn sicrhau amgylchedd ar-lein y mae dinasyddion a defnyddwyr y DU yn ymddiried ynddo.

## Adran 8

# Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

## Mae Ofcom ym mhedwaredd flwyddyn ei Adolygiad o Wariant y Trysorlys

8.1 2014/15 yw blwyddyn olaf Adolygiad o Wariant y Trysorlys pedair blynedd bresennol Ofcom. Yn y cyfnod hwn, mae Ofcom wedi ymateb i'r sialensiau ehangach sy'n wynebu gwariant cyhoeddus drwy adolygu sut mae'n rheoleiddio'n effeithiol mewn ffordd benodol er budd dinasyddion a defnyddwyr, gan sicrhau gwerth am arian i'w randdeiliaid ar yr un pryd.

8.2 Mae Cynllun Blynyddol 2014/15 yn adeiladu ar ein llwyddiannau yng nghyd-destun yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yng Nghynlluniau Blynyddol 2011/12, 2012/13 a 2013/14 yn dilyn ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol.

## Cyflawni ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol

8.3 Drwy ein Prosiect Adolygiad o Wariant, rhoddwyd cyfle i'r sefydliad gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau er gwaethaf gostyngiadau yn ei gyllid. Rhoddodd hyn ganolbwynt strategol cryfach i'r sefydliad gan wella ei effeithiolrwydd.

8.4 Arweiniodd yr adolygiad cynhwysfawr hwn o'n holl ofynion ariannol at lunio set glir o fesurau i'n galluogi i gyflawni ein holl ymrwymiadau o fewn targed gostyngiad termau real o 28.2% (dros 4 blynedd).

8.5 Mae gan Ofcom gyllideb o £117 miliwn ar gyfer 2014/15, heb ddim cynnydd ar gyllideb 2013/14, ac sy'n cynrychioli 2.6% o ostyngiad mewn termau real. Wrth bennu'r gyllideb ar y lefel hon, byddwn wedi sicrhau gostyngiad cyllidebol mewn termau real o 28.6% o'i gymharu â 2010/11, gan ragori ar ein hymrwymiad gwreiddiol i sicrhau arbedion cyfan o 28.2% erbyn 2014/15.

8.6 Mae costau 2014/15 yn ôl y sector rhanddeiliaid wedi cael eu cwblhau'n derfynol. Cyhoeddwyd ffioedd a phrisiau sy'n benodol i'r sector ar gyfer rhanddeiliaid ar 31 Mawrth 2014 yn ein Tabl Tariffau ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol hwn.

## Rheoli ein hadnoddau'n effeithiol

8.7 Mae gweithwyr Ofcom a'u datblygiad yn hanfodol i lwyddiant y sefydliad. Yn ystod 2013/14, lansiwyd rhaglen datblygu rheoli, a bydd hon, law yn llaw â'n rhaglen arwain bresennol a'n cynllun i dderbyn graddedigion, yn rhoi cyfle i ni ddatblygu sgiliau ar bob lefel yn y sefydliad.

8.8 Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei ofynion o ran eiddo, gan waredu neu is-osod llefydd y nodwyd eu bod yn ychwanegol i'n hanghenion cyfredol. Yn ystod 2013/14 gwagiwyd llawr arall yn ein swyddfa yn Llundain ac mae hwn wedi'i is-osod. Wrth is-osod llefydd nad oes eu hangen arnom, mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at leihau ein costau ac at gyflawni ein hymrwymiad i arbed arian.

8.9 Yn ogystal ag arbed arian ar eiddo, dros gyfnod yr adolygiad o wariant pedair blynedd rydym wedi arbed arian drwy gynlluniau eraill gan gynnwys:

- lleihau'r nifer a gyflogir, rhewi cyflogau a defnyddio llai o weithwyr dros dro a gweithwyr dan gontract;
- torri ar ein treuliau ac adolygu ein polisïau treuliau yn rheolaidd;
- caffael a rheoli cyflenwyr yn fwy effeithiol;
- lleihau costau gorbenion a chefn swyddfa; a
- diwygio prosesau rheoleiddio a gorfodi, gan ddadreoleiddio neu symleiddio lle y bo yn briodol (adran 9).

8.10 Er mwyn i Ofcom allu defnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael yn y ffordd orau, byddwn yn ymgysylltu â chyrff rheoleiddio eraill i rannu arferion gorau gyda'r bwriad o gadw cyfanswm costau mor isel ag y bo modd.

## Hwyluso ac adrodd ar ganlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion

8.11 Mae Cynllun Blynyddol 2014/15 yn datgan ein blaenoriaethau strategol yn glir ynghyd â'r canlyniadau o'n gwaith rydym yn dymuno eu sicrhau ar ran dinasyddion a defnyddwyr.

8.12 Y canlyniadau fydd effaith y newidiadau mewn ymddygiad a/neu strwythur a fydd yn cael eu hysgogi drwy gamau gweithredu Ofcom. Rydym yn diffinio dwy lefel o ganlyniadau. Canlyniadau interim yw digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Ofcom; er enghraifft, galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol a ddefnyddir ganddynt i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid, gan gynyddu cystadleuaeth a dewis mewn marchnad. Mae canlyniadau terfynol yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr gan gynnwys, er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis o amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol, ond hefyd yn gallu manteisio ar ansawdd gwasanaeth gwell, prisiau is ac argaeledd eang.

8.13 Mae ein fframwaith mesur perfformiad yn cofnodi canlyniadau ac yn adrodd arnynt. Ar gyfer pob gweithgarwch rydym yn ei wneud, mae'n cynnwys datgan yn glir beth yw'r canlyniad a geisir a'r camau gweithredu mewnol cysylltiedig. Mae'r canlyniadau hyn yn pennu'r buddion cadarnhaol rydym am eu sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith. Nodir cynnydd o ran cyflawni canlyniadau ein gwaith yn ein Hadroddiad Blynyddol.

8.14 Rydym wedi nodi canlyniadau interim a therfynol yng Nghynllun Blynyddol eleni i asesu ein llwyddiant wrth gyflawni ein blaenoriaethau. Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15, byddwn yn adrodd ar ba mor effeithiol y buom wrth gyflawni yn erbyn y canlyniadau hyn, a llwyddiant ein gwaith.

## Adran 9

# Lleihau beichiau a chymhlethdod y broses rheoleiddio

9.1 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi'r baich lleiaf posibl ar y rheini y mae'n eu rheoleiddio. Yn ogystal â hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r broses rheoleiddio er mwyn sicrhau nad yw'n (a) rhoi beichiau diangen; neu (b) cadw beichiau sydd bellach yn ddiangen. Os daw beichiau diangen i'r amlwg, mae'n ofynnol i Ofcom gael gwared arnynt neu eu lleihau.

9.2 Rydym wedi adolygu gweithgarwch Ofcom gyda'r bwriad o nodi meysydd lle mae modd i ni gael gwared ar feichiau neu eu lleihau, ac rydym yn bwriadu adolygu'r meysydd hynny yn fwy manwl.

9.3 Mae'r bennod hon yn nodi'r meysydd i'w hadolygu a hefyd yn adrodd ar gynlluniau dadreoleiddio sydd wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Cynlluniau symleiddio sy'n hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus

### Rydym wedi cael gwared ar rwymedigaethau a rheoleiddio *ex ante* mewn ambell faes o'r farchnad band cul sefydlog

9.4 Ym mis Medi 2013, cyhoeddwyd datganiad terfynol ar yr *Adolygiad o'r Farchnad Band Cul Sefydlog*, sy'n cynnwys marchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu ar gyfer galwadau llais yn y DU. Penderfynasom osod rhwymedïau ar BT a KCOM lle roeddem o'r farn bod ganddynt gryn dipyn o bŵer marchnad mewn marchnadoedd penodol. Hefyd penderfynasom gael gwared ar reoliadau lle nad oedd gwarant mwyach y byddent yn sicrhau cystadleuaeth mewn marchnadoedd penodol. Roedd hyn yn cynnwys:

- cael gwared ar rwymedigaethau gwahanol BT a KCOM i gynnig dewis cludydd ymlaen llaw (CPS) a mynediad anuniongyrchol (IA) pan fo cangen adwerthu pob gweithredwr yn darparu'r llinell mynediad adwerthu;

- cael gwared ar reoleiddio *ex ante* yn y marchnadoedd perthnasol ar lefel adwerthu yn ardal Hull; ac

- ar gyfer trawsgludo sengl, rydym o'r farn nad yw rheoleiddio *ex ante* yn briodol mwyach ar y sail bod cyfraith cystadleuaeth *ex post* yn ddigon i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon cystadleuaeth a allai godi. Felly penderfynasom gael gwared ar yr holl reoleiddio Pŵer Marchnad Sylweddol (SMP) *ex ante* sy'n weddill yn y farchnad hon.

### Rydym wedi penderfynu rheoleiddio'n llai llym mewn meysydd lle mae mwy o gystadleuaeth yn y farchnad cysylltedd busnes

9.5 Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddwyd datganiad terfynol ar ein *Hadolygiad o Farchnad Cysylltedd Busnes*. Bwriad ein penderfyniadau oedd ysgogi cystadleuaeth, a helpu i

sicrhau bod gan y DU sylfaen o rwydweithiau cyflymder uchel sy’n gallu cefnogi gofynion data busnesau a defnyddwyr yn y dyfodol.

9.6 Er ein bod wedi cadw ac ymestyn rhywfaint o’r rheoleiddio presennol ar BT, penderfynasom reoleiddio’n llai llym yn ardal Llundain, lle mae BT yn wynebu mwy o gystadleuaeth oddi wrth ddarparwyr eraill. Mae hyn yn golygu rhoi terfynau diogelu ar gynnyrch hyd at 1 Gbit yr eiliad ac yn cynnwys hynny, a dim rheoleiddio ar gynnyrch lled band uchel iawn, os oes cystadleuaeth effeithiol.

9.7 Penderfynasom hefyd ddadreoleiddio’r farchnad ar gyfer prif segmentau pellter hwy yr hen linellau ar brydles.

## Symleiddio cynlluniau sy’n sicrhau’r defnydd gorau posibl o sbectrwm

### Rydym yn parhau i edrych ar ddulliau gweithredu newydd a mwy effeithlon ar gyfer rheoli sbectrwm

9.8 Defnyddir y term mynediad sbectrwm deinamig (DSA) i ddisgrifio sawl ffordd o reoli sbectrwm ar sail fwy ymatebol ac effeithlon. Wrth wneud hyn, mae sbectrwm ar gael i ddyfeisiau ar sail y math o wasanaeth y mae angen iddynt gael mynediad ato a’r sbectrwm sydd ar gael yn eu lleoliad. Fel hyn, bydd modd adnabod dyfeisiau’n haws a defnyddio amleddau na fyddai fel arall yn cael eu defnyddio, gan rannu’r band yn effeithiol â defnyddwyr eraill ar adegau penodol neu mewn lleoliadau penodol.

9.9 Un o brif fanteision DSA yw bod ganddo’r potensial i gynyddu cyflenwad y sbectrwm. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol iawn i ddarparu'r sbectrwm ychwanegol sy’n angenrheidiol i fodloni’r twf yn y galw yn y dyfodol am wasanaethau data symudol, ochr yn ochr â ffyrdd presennol o weithio megis clirio bandiau amledd yn llwyr ar gyfer defnydd data symudol.

9.10 Mae sicrhau bod sbectrwm gofod gwyn ar gael yn y band UHF ar y teledu yn gam cyntaf pwysig i alluogi mynediad deinamig i'r sbectrwm drwy gronfa ddata ddaearleoliad. Rydym wedi ymgynghori ar fynediad at ofod gwyn yn yr amleddau rhwng 470 a 790MHz (y band teledu UHF), a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer defnyddwyr DTT a PMSE. Hon yw’r gyfres gyntaf o amleddau lle rydym wedi penderfynu caniatáu DSA. Ond, rydym yn gweld cyfle mawr i alluogi hyn ar lefel fwy eang, ac rydym wrthi’n ymgynghori ar rôl rhannu sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau data symudol a di-wifr.

9.11 Yn 2013, cyhoeddodd Ofcom pa sefydliadau fyddai’n cymryd rhan yng nghynllun peilot mawr cyntaf Ewrop ar ofod gwyn ym mand teledu UHF. Bydd oddeutu 20 o sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn cymryd rhan yng nghynllun peilot Ofcom drwy gynnal treialon i brofi amrywiaeth o raglenni arloesol – yn amrywio o synwyryddion sy’n monitro ymddygiad dinasoedd, i wybodaeth ddeinamig ar gyfer defnyddwyr ffyrdd a band eang gwledig mewn llefydd anodd eu cyrraedd.

### Rydym wedi caniatáu i weithredwyr ffonau symudol ddefnyddio eu sbectrwm radio 2G a 3G presennol ar gyfer gwasanaethau 4G cyflym iawn

9.12 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r amrywiadau sy’n caniatáu defnyddio technoleg 4G ym mhob un o’r trwyddedau 900MHz, 1800MHz a 2100MHz a chaniatáu i’r pŵer mwyaf a ganiateir yn y trwyddedau 900MHz fod yn 3dB yn fwy. Ar yr un pryd, rydym wedi diweddaru nifer o’r telerau a’r amodau yn y trwyddedau hyn er

mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'r telerau a'r amodau cyfatebol yn y trwyddedau 800MHz a 2.6GHz a ddyfarnwyd yn ddiweddar.

9.13 Mae'r penderfyniad hwn yn bodloni un amcan hirdymor i ryddhau pob trwydded symudol er mwyn cael gwared ar y rhwystrau rheoleiddiol rhag defnyddio'r dechnoleg symudol ddiweddaraf sydd ar gael. Er ei bod yn bosibl na fydd gweithredwyr am ddefnyddio gwasanaethau 4G ym mhob un o'r bandiau sydd newydd eu rhyddhau yn y dyfodol agos, bydd buddiannau defnyddwyr yn cael eu bodloni gan y ffaith bod y bandiau hyn wedi'u rhyddhau bellach, cyn iddynt fod ar gael i'w defnyddio ar gyfer technoleg 4G yn y dyfodol dan arweiniad y farchnad. O ganlyniad, gall gweithredwyr gynllunio a gweithredu proses symud at dechnoleg 4G yn y bandiau hyn heb orfod cymryd rhan mewn proses rheoleiddio arall.

### Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o leihau'r rheoleiddio technegol manwl sy'n effeithio ar ddarlledwyr

9.14 Mae rheoleiddio technegol yn dal i fod yn faes sylweddol o reoleiddio sy'n gallu bod yn rhagnodol heb fod angen. Ers i'r rhaglen newid i'r digidol ddod i ben yn 2012, rydym wedi ceisio cael gwared ar rywfaint o'r rheoliadau technegol mwy manwl a osodwyd ar deledu digidol daearol. Byddwn yn edrych yn awr i weld a allwn fynd yn bellach, a byddwn yn canolbwyntio hefyd ar radio.

9.15 Er mwyn osgoi'r baich ar y diwydiant darlledu, rydym yn bwriadu: nodi pa agweddau o'r codau technegol priodol sy'n dal yn berthnasol; nodi pa fesurau sy'n dwyn buddion ac a oes modd eu cyflawni mewn ffyrdd eraill heb fod yn rheoleiddiol; pennu lle mae dulliau yn gwahaniaethu ar gyfer radio a theledu ac a oes rhesymau da o hyd ar gyfer y gwahaniaeth hwnnw. Yn benodol, rydym yn bwriadu adolygu darpariaethau manwl yn y codau technegol megis gofynion bit/cyfradd ar radio a gofynion ansawdd llun ar deledu. Byddwn hefyd yn edrych ar ofynion adrodd am berfformiad technegol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu realiti'r seilwaith darlledu presennol.

9.16 Rydym wedi dechrau edrych ar y trefniadau presennol ac yn bwriadu ymgynghori ar ein cynigion yn ystod 2014.

## Symleiddio cynlluniau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn defnyddwyr rhag niwed

### Byddwn yn adolygu rheolau dilysrwydd post

9.17 Mae'n ofynnol i weithredwyr post rheoledig megis y Post Brenhinol leihau'r posibilrwydd y bydd post yn mynd ar goll, yn cael ei ddwyn, ei ddifrodi a/neu fod rhywun yn ymyrryd â'r post, a chynnal a gwella eu perfformiad o ran dilysrwydd post. Mae'r camau y mae'n rhaid i weithredwyr eu cymryd i leihau'r risgiau i ddilysrwydd post wedi'u nodi mewn Cod Ymarfer, a gyflwynwyd gan Postcomm yn 2006 i sicrhau chwarae teg yn y farchnad bost wrth i'r farchnad honno fod ar gael ar gyfer cystadleuaeth lawn.

9.18 Rydym yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer gwella effeithiolrwydd y trefniadau rheoleiddio presennol, ac rydym wrthi'n ystyried cael gwared ar lawer o'r canllawiau manwl yn y cod presennol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2014.

## Rydym wedi cynnig symleiddio'r rheoliadau ynghylch y Cyfarwyddyd bilio a mesur

9.19 Yn 2013 aethom ati i adolygu Cyfarwyddyd a roddwyd ar waith yn 2008, sy'n sicrhau bod systemau bilio darparwyr cyfathrebu yn cyrraedd safonau technegol penodol o ran cywirdeb. Mae'r Cyfarwyddyd yn berthnasol i'r darparwyr hynny sydd â throsiant o dros £40 miliwn y flwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau llais symudol a sefydlog. Rhaid i drydydd parti a benodir gan Ofcom gymeradwyo 'Systemau Bilio a Mesur Cyfan' darparwyr o'r fath gan eu cymharu â'r gofynion a nodir yn y Cyfarwyddyd. Mae'r Cyfarwyddyd yn gosod y cyfraddau gwallau uchaf ar gyfer systemau bilio darparwyr ac yn cynnwys dyletswyddau monitro ac adrodd hefyd.

9.20 Yn ein hadolygiad, ystyriwyd a oedd ei gwmpas a'i ofynion yn dal yn briodol, gan gofio am y newidiadau yn y farchnad dros y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethom gynnig newidiadau penodol i'r Cyfarwyddyd a fyddai'n lleihau baich rheoleiddio ar ddarparwyr cyfathrebu a sicrhau hefyd fod ei gwmpas a'i ofynion yn dal yn briodol ac yn ateb y diben, a bod ffioedd i ddefnyddwyr yn cael eu cyfrifo'n gywir. Yn benodol, gofynnwyd am farn am y canlynol:

- a ddylid cadw'r gofynion o ran gwasanaethau llais sefydlog a symudol ar gyfer cartrefi a busnesau bach a chanolig fel y maent;
- a ddylai darpariaethau sefydlog a symudol aros yn wirfoddol;
- a ddylid cael gwared ar gyfyngiadau cywirdeb a goddefiant ar gyfer gwasanaethau i fusnesau mawr; ac
- a ddylid cael gwared ar wasanaethau cyfanwerthol o'r Cyfarwyddyd.

9.21 Rydym wedi ystyried barn rhanddeiliaid ac wrthi'n ymgynghori ymhellach ar y cynigion[33] ar hyn o bryd.

## Rydym yn bwriadu symleiddio prisiau ffôn ar gyfer defnyddwyr

9.22 Ym mis Rhagfyr 2013, gwnaethom gadarnhau y byddem yn gwneud newidiadau mawr i'r modd y codir am rifau ffôn o ganol 2015 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi esboniad cliriach i ddefnyddwyr am y gost o alw busnesau a gwasanaethau.

9.23 Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cynnal adolygiad manwl o wasanaethau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, y mae defnyddwyr yn eu defnyddio i ryngweithio gyda busnesau a sefydliadau. Rydym wedi cynnig sawl dewis ar gyfer mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cymhlethdod profiad y defnyddiwr, yn arbennig sut gellid diwygio'r fframwaith rheoleiddio i symleiddio prisiau galwadau.

9.24 Er ei bod yn bosibl y bydd ambell sefydliad yn elwa o'r dryswch, gan ei fod yn gallu creu mwy o refeniw, at ei gilydd, byddai cael system gliriach, fwy tryloyw a hawdd ei rhag-weld yn dwyn budd i ddefnyddwyr a'r rheini sy'n derbyn y galwadau. Yn benodol, rydym yn cynnig y canlynol:

- cyflwyno'r prisiau adwerthu uchaf ar gyfer ambell ystod rhifau gan gynnwys gwneud rhifau 080 a 116 am ddim i ddefnyddwyr eu galw o bob ffôn; a

[33] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/metering-billing-2014/

- strwythur tariff newydd ar gyfer galwadau eraill nad ydynt yn rhai daearyddol er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ar gyfer defnyddwyr a gwell cystadleuaeth ymhlith darparwyr cyfathrebu a busnesau sy'n cynnig gwasanaethau gan ddefnyddio'r rhifau hynny.

9.25 Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn symleiddio system rhifau'r DU ac yn caniatáu i ddefnyddwyr ddeall yn well beth yw ystyr y gwahanol rifau, yn ogystal â'u cost. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn 2015.

## Symleiddio mesurau a fydd yn helpu i gynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir

### Rydym wedi adolygu'r dyletswyddau ar gyfer trwyddedau Channel 3 a Channel 5 cyn cyfnod trwyddedu newydd

9.26 Ym mis Gorffennaf 2013, aethom ati i gyhoeddi datganiad ynghylch newidiadau i'r dyletswyddau ar gyfer y rheini sy'n dal trwydded Channel 3 a Channel 5, cyn cyfnod trwyddedu newydd. Dywedodd y rheini sy'n dal y trwyddedau wrthym y byddai eu dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus presennol, yn gyffredinol a chyda rhywfaint o newidiadau, yn dal i fod yn gynaliadwy yng nghyfnod y drwydded nesaf. Cymeradwywyd cynigion ar gyfer gwasanaeth newyddion mwy lleol ar Channel 3 ar draws Lloegr. Bydd hyn yn golygu bod ITV yn darparu newyddion rhanbarthol mewn 14 o ranbarthau newyddion ar wahân, o'i gymharu â'r wyth rhanbarth newyddion sydd ganddo ar hyn o bryd.

9.27 Ym mhob un o drwyddedau ITV heblaw am ddwy, bydd y gofyniad i ddarparu bwletin newyddion rhanbarthol yn ystod yr wythnos yn gynnar gyda'r nos yn cael ei leihau o 30 munud i 20 munud. Effaith ddadreoleiddio a gaiff y set hon o newidiadau ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr yn symud o ofyniad cwota o bedair awr yr wythnos o raglenni rhanbarthol i ddwy awr a hanner yr wythnos. Ar yr un pryd, bydd y newidiadau hyn yn dwyn budd i'r gwylwyr, wrth iddynt arwain at wasanaeth newyddion mwy lleol.

### Byddwn yn parhau gyda'n hadolygiad penodol o drwyddedu darlledu a gorfodi

9.28 Yn 2013 buom yn ystyried cwmpas, ac rydym wedi dechrau adolygiad eang o'r broses trwyddedu gwasanaethau darlledu. Rydym wedi nodi y bydd defnyddio dull 'mwy deallus' o drwyddedu a gorfodi yn ein galluogi i nodi ac ymateb yn well i ddiffyg cydymffurfio posibl. Yn y tymor hir, bydd hyn yn caniatáu i ni greu trefn drwyddedu symlach, sydd â'r potensial i gael gwared ar ambell faich rheoleiddio ar randdeiliaid.

### Byddwn yn adolygu rheoleiddio manwl o fformatau cerddoriaeth radio

9.29 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwrandawyr wedi gweld cynnydd dramatig o ran y gwahanol fathau o gerddoriaeth sydd ar gael a ffynonellau'r gerddoriaeth honno, megis dros y rhyngrwyd a radio digidol. Cafodd rheoleiddio ar gyfer fformat radio analog ei gynllunio ar gyfer oes wahanol.

9.30 Er bod ambell elfen o'r drefn honno yn dal i fod yn bwysig i wrandawyr, megis darparu deunydd lleol sydd wedi'i wneud yn yr ardal, mae achos dros edrych eto ar reoleiddio fformatau cerddoriaeth i weld a ddylid llacio hyn gan roi mwy o ryddid i'r diwydiant addasu i archwaeth y defnyddwyr sy'n newid, ac i annog cystadleuaeth.

9.31 Rydym yn cynnal adolygiad o fformatau cerddoriaeth ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ymgynghori ar fframwaith diwygiedig maes o law.

### Byddwn yn ymgynghori ar egluro a symleiddio rhai agweddau ar reoleiddio ynghylch hysbysebu

9.32 Yn 2014, bydd Ofcom yn ymgynghori ar agweddau o'i God ar Amserlennu Hysbysebion Teledu ('COSTA'). Mae hwn yn adolygiad penodol sy'n canolbwyntio ar egluro a symleiddio ein dull o fesur hyd rhaglenni (a elwir yn 'hyd wedi'i amserlennu'). Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ceisio cyfundrefnu penderfyniadau polisïau rydym wedi'u gwneud eisoes (gan gynnwys cael gwared ar gyfyngiadau ar funudau hysbysebu ar wasanaethau teledu lleol a llacio cyfyngiadau ar egwyliau mewnol mewn genres penodol ar wasanaethau PSB) er mwyn darparu un set glir o reolau i ddarlledwyr eu dilyn.

**Atodiad 1**

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cyflwyniad

A1.1 Cawsom 30 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys unigolion preifat, sefydliadau budd defnyddwyr, cwmnïau a chyrff masnach.

A1.2 At ei gilydd, cawsom gefnogaeth gyffredinol i'n rhaglen waith, er i rai rhanddeiliaid godi materion ynghylch agweddau penodol ar ein rhaglen waith ar gyfer 2014/15. Rydym wedi crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd gan randdeiliaid isod ac wedi ymateb iddynt. Mae pob ymateb heb fod yn gyfrinachol i'r ymgynghoriad ar gael yn llawn ar ein gwefan[34].

A1.3 Mae'r crynodeb hwn yn grwpio ymatebion i'r ymgynghoriad o dan chwe diben strategol, neu o dan 'dadreoleiddio a symleiddio', fel y bo'n briodol.

## Sylwadau cyffredinol gan randdeiliaid

A1.4 Galwodd Llywodraeth Cymru am i'r diben strategol 'Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith' gael ei ymestyn i gynnwys polisi a ddiffinnir gan y gweinyddiaethau datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

*A1.5 Er bod y diben strategol hwn yn cyfeirio at 'Senedd', mae'r gwaith sy'n rhan ohono yn cyfeirio at y gefnogaeth a roddwn i waith llywodraethau ar lefel yr UE, y DU neu weinyddiaethau datganoledig yng nghyswllt polisi cyhoeddus.*

*A1.6* Pwysodd EE ar Ofcom i sicrhau nad yw'r cyhoeddiad am ffioedd eleni yn cynnwys pethau mawr annisgwyl ar gyfer y sector.

*A1.7 Mae Ofcom yn codi tâl ar randdeiliaid ar sail trosiant perthnasol ac yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) a'n Datganiad Egwyddorion Codi Tâl[35].*

A1.8 *Rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol terfynol a'n Tablau Tariff ddiwedd mis Mawrth, gan nodi ein cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r ffioedd a'r taliadau sy'n ddyledus, yn ôl sector, i ariannu'r gwaith hwn. Ni chawn drafod y taliadau hyn â rhanddeiliaid unigol cyn hyn, oherwydd natur y broses ymgynghori, ond rydym yn cydnabod na fydd hyn o bosibl yn cydredeg â chylch cyllidebol cwmnïau unigol.*

A1.9 *Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn 2013/14, aethom ati i gyhoeddi'r sefyllfa gyllidebol gyffredinol ar gyfer 2014/15 yn Nogfen Ymgynghori'r Cynllun Blynyddol. Pan fydd amrywiad o ran swm y costau byddwn yn ceisio ei adennill gan sector rheoleiddio o'i gymharu â'r flwyddyn codi tâl flaenorol, rydym wedi rhoi esboniad cryno yn ein tablau tariff.*

[34] http://stakeholders.acmpub.intra.ofcom.local/consultations/draft-annual-plan-2014-15/?showResponses=true
[35] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/statement-charging-principles/statement/Statement-final.pdf

A1.10 Pwysodd Verizon am gael cydlyniant rhwng timau Ofcom fel bod dogfennau ymgynghori yn cael eu paratoi fesul tipyn mewn modd nad yw'n rhoi gormod o bwysau ar randdeiliaid Ofcom.

A1.11 *Rydym yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed gan ein rhanddeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriadau. Mae'n rhaid i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau polisi y gallwn gynllunio ar eu cyfer, y materion newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn, a sicrhau gwerth am arian drwy ein sylfaen costau ein hunain. O ganlyniad, gall fod adegau pan na allwn osgoi pennu nifer o ofynion cydamserol ar randdeiliaid.*

**Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus**

## Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol, yn y band eang presennol a band eang cyflym iawn

A1.12 Cefnogodd y CWU ymrwymiad Ofcom i sicrhau buddsoddiad yn y band eang presennol a band eang cyflym iawn. Galwodd ar Ofcom i gymell mwy o fuddsoddi preifat ac arloesedd, er mwyn cyflwyno gwasanaethau band eang cyflym iawn i'r 5% olaf o eiddo.

A1.13 Byddwn yn parhau i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn cefnogi mwy o fuddsoddi ac arloesedd mewn band eang cyflym iawn. Cwmnïau preifat fydd yn penderfynu a fyddant yn buddsoddi ai peidio. Nodwn fod Broadband Delivery UK (BDUK) yn parhau i asesu'r posibilrwydd o ymyrryd ymhellach i helpu i gymell buddsoddiad.

A1.14 Roedd Sky o'r farn bod sicrhau bod BT yn ateb pob galw rhesymol am fynediad cenhedlaeth nesaf (NGA) yn ogystal ag am wasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio, yn hanfodol i sicrhau bod mentrau marchnad newydd yng nghyswllt band eang cyflym iawn yn cael cyfle i ffynnu.

A1.15 *Rydym yn cefnogi cynnyrch newydd sy'n galluogi arloesedd ac yn fodd i wahaniaethu rhwng cynnyrch. Yn ein Hadolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog (FAMR), cynigiwyd rhoi gofyniad ar BT i ddarparu mynediad i rwydwaith ar gais rhesymol, a rhoi gofyniad i gyhoeddi canllawiau ar sut bydd yn delio â cheisiadau newydd am fynediad i rwydwaith (ac yn delio ag unrhyw geisiadau yn unol â'r canllawiau hynny) ochr yn ochr â rhith fynediad lleol wedi’i ddad-fwndelu (VULA). Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd a chanlyniadau prosesau'r diwydiant o ran hyn.*

A1.16 Roedd SSE ccc o'r farn na ddylai'r FAMR fod yn gyfyngedig i'r dechnoleg gopr bresennol, ond y dylid hefyd ystyried ffyrdd o wella mynediad llinell sefydlog ffibr.

*A1.17 Bydd Ofcom yn parhau i sicrhau bod cynnyrch mynediad cyfanwerthol, y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau llais a band eang i ddefnyddwyr, ar gael ar rwydweithiau copr ac ar rwydweithiau mynediad ffibr.*

*A1.18 Rydym wedi ystyried yn benodol fater yn ymwneud â chynnyrch mynediad llais ffibr yn y FAMR, gan nodi'r niferoedd isel arfaethedig o eiddo mewn ardaloedd ffibr yn unig.*

A1.19 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein gwaith ar ansawdd gwasanaeth Openreach, er i nifer o bwyntiau penodol gael eu codi:

- roedd y CWU o'r farn y dylai rheolaethau ffioedd adlewyrchu costau fel Canolfan Trawsnewid BT, yn ogystal ag ystyried ffactorau y tu hwnt i reolaeth Openreach gan gynnwys tywydd eithafol;

- roedd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) o'r farn nad yw dangosyddion perfformiad allweddol Ofcom a gynigir ar hyn o bryd yn gwneud cymaint ag y gallent;

- galwodd UKCTA am adolygiad cynhwysfawr o drefn cytundebau lefel gwasanaeth ar draws pob cynnyrch sydd wedi'i reoleiddio; a

- galwodd Sky a Vodafone ar Ofcom i ymrwymo i adolygiad parhaus o ansawdd gwasanaethau Openreach ar ôl i'r FAMR ddod i ben.

A1.20 *Yn ein hadolygiad o ansawdd gwasanaethau Openreach a'r cyfraddau diffygion, byddwn yn seilio ein penderfyniad ar y dystiolaeth a gyflwynir gan yr holl randdeiliaid ar gostau darparu gwasanaeth, a'r heriau technegol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a busnesau a'u cynnal a'u cadw. Ein nod yw pennu rheoliadau a rheolaethau ffioedd cysylltiedig sy'n adlewyrchu'n llwyr ein dealltwriaeth o'r heriau a'r costau hyn.*

A1.21 *Rydym wedi ymgynghori ar ein cynigion i wella'r cymhellion ar Openreach i wella ansawdd ei wasanaethau. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig ymestyn yn sylweddol yr amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol y mae'n ofynnol i Openreach eu cyflwyno i ni ac i'r diwydiant. Rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.*

A1.22 *At hyn, rydym yn cynnig argymell proses er mwyn i'r diwydiant ymgysylltu ag Openreach ar newidiadau ac ychwanegiadau i gytundebau lefel gwasanaeth mewn contractau, wedi'i hwyluso gan Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebu. Rydym wedi cynnig hefyd, os bydd problemau'n codi na ellir eu datrys drwy'r broses hon, y byddwn yn ystyried a oes angen i ni ymyrryd yn uniongyrchol. Nodwn hefyd y byddwn yn dechrau'r BCMR nesaf yn fuan, a bydd hyn yn ystyried yn fanylach y materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau yn y farchnad Ethernet.*

A1.23 *Ar wahân i'r adolygiadau o'r farchnad, mae Ofcom yn ymrwymedig i fonitro perfformiad cwmnïau sydd wedi'u rheoleiddio drwy'r amser; gan sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn cael gwybodaeth briodol am ganlyniadau gwasanaethau. Byddwn yn ystyried, pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, opsiynau ar gyfer ymyriadau ychwanegol.*

### Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd

A1.24 Roedd Llywodraeth Cymru a'r CWU yn cefnogi ein gwaith ymchwil ar ansawdd profiad dyfeisiau symudol a chyflymderau band eang.

A1.25 Roedd FCS o'r farn bod ansawdd a dibynadwyedd gwasanaethau band eang yn allweddol bwysig i ddefnyddwyr busnes. Mae cyflymder llwytho i fyny yn bwysicach o lawer iddynt hwy nag i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr.

A1.26 *Bydd Ofcom yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth gywir a thryloyw ar gael am wasanaethau i ddefnyddwyr. Mae ein gwaith ymchwil (a gyhoeddir bob chwe mis) yn mesur cyflymder llwytho i lawr a llwytho i fyny, a pharamedrau perfformiad eraill, ar gyfer y prif ddarparwyr band eang.*

## Monitro dulliau sylfaenol o reoli traffig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dull Ofcom o ymdrin â niwtraliaeth y rhyngrwyd

A1.27 Roedd BT o'r farn y dylai Ofcom ddarbwyllo'r holl randdeiliaid pwysig yn y farchnad mynediad i'r rhyngrwyd i gytuno i'r cod ymarfer ar ryngrwyd agored. Roedd BT o'r farn pe bai Ofcom yn methu â sicrhau hyn, dros y chwe mis nesaf, y dylai neilltuo adnoddau yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn archwilio'r holl opsiynau rheoleiddio eraill sydd ar gael.

A1.28 *Er ein bod yn cefnogi'r cod ymarfer ar ryngrwyd agored ac er y byddem yn croesawu mwy o gyfranogiad gan ddarparwyr cyfathrebu, canfu ein Hadroddiad Seilwaith ym mis Tachwedd 2013*[36] *nad oes dim pryderon mawr mewn perthynas â'r arferion rheoli traffig a ddefnyddiwyd gan Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd sefydlog. Ceir tystiolaeth o lefelau is o reoli traffig, o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ar wasanaethau symudol. Mae rhai gweithredwyr symudol yn blocio VOIP ar rai o'u pecynnau, ond mae pob gweithredwr symudol bellach yn cynnig pecynnau heb flocio. Nid yw EE yn blocio ar unrhyw becynnau, sy'n wahanol i bolisïau T-Mobile ac Orange.*

A1.29 *Er y byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar arferion rheoli traffig gweithredwyr sefydlog a symudol, rydym o'r farn o hyd y dylai'r gystadleuaeth rhwng gweithredwyr barhau i fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem, cyhyd â bod defnyddwyr yn ymwybodol o'r arferion hyn ac yn gallu newid darparwyr. Hwyluso newid, a sicrhau bod darparwyr yn cyfleu eu polisïau yn glir i'r defnyddwyr, yw ein prif ffocws, yn hytrach nag opsiynau rheoleiddio eraill.*

## Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu

A1.30 Croesawodd y CCP ffocws parhaus Ofcom ar delerau annheg yng nghontractau'r defnyddwyr.

A1.31 Pwysodd FCS, BT a'r CCP ar Ofcom i roi prosesau newid sy'n cael eu harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL) ar waith ar draws technolegau a rhwydweithiau eraill.

*A1.32* Ym mis Awst 2013, nododd Ofcom ei benderfyniad polisi i gysoni pob proses newid rhwng gwasanaethau llais a/neu fand eang sefydlog dros rwydwaith Openreach i un model GPL, ac rydym yn gobeithio y caiff hyn ei weithredu erbyn mis Mehefin 2015. Rydym yn bwriadu symud yn awr i ail gam y gwaith ar gyfer newid. Yn ystod gwanwyn 2014, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r manylion a'r amserlenni ar gyfer gweithredu hyn.

A1.33 Gofynnodd SSE ccc fod Ofcom yn ceisio sicrhau nad oes dim rhwystrau yn y prosesau, yn hytrach na dim rhwystrau 'amhriodol', i newid gwasanaethau a bwndeli.

*A1.34 Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod yn bwriadu deddfu i roi dyletswydd i Ofcom sicrhau profiad cyson ac effeithiol i ddefnyddwyr sy'n newid rhwng bwndeli.*

[36] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/telecoms-research/infrastructure-report/IRU_2013.pdf

*A1.35 Byddwn yn parhau i weithio i fynd i'r afael â rhwystrau yn y broses i newid, gan gynnwys sicrhau bod y dulliau llywodraethu cywir ar waith i sicrhau cydlyniant lle bo angen.*

## Gweithio i sicrhau cystadleuaeth effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu

A1.36 Galwodd CWU ar Ofcom i ddatblygu agenda fwy rhagweithiol i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran gwasanaethau teledu drwy dalu.

A1.37 Roedd BT o'r farn y dylai ein gwaith yn y maes hwn gael blaenoriaeth.

A1.38 *Mae nifer o ddatblygiadau yn y farchnad wedi bod yn y sector yn y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn eu hystyried. Ein bwriad yw sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran teledu drwy dalu er budd defnyddwyr.*

## Cynnal yr adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes

A1.39 Galwodd FCS am i'r adolygiad nesaf o'r farchnad cysylltedd busnes (BCMR) gynnwys astudiaeth o'r defnydd a wneir o linellau ar brydles/ffibr.

*A1.40 Rydym yn bwriadu ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cynnyrch band eang sy'n defnyddio technoleg ffibr i'r cabinet (FTTC) yn lle llinellau ar brydles, fel rhan o'n dadansoddiad o'r farchnad yn y BCMR nesaf.*

A1.41 Roedd Vodafone o'r farn bod angen i gystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd busnes gael cynnyrch gwell sydd wedi'u rheoleiddio ac sy'n 'addas at y diben' a hynny ar frys, er mwyn gwella'r broses newid.

A1.42 Roedd EE o'r farn y byddai angen i'r BCMR ystyried a ddylid cyflwyno mynediad i seilwaith ffisegol, ynghyd ag atebion, i hyrwyddo cystadleuaeth tymor hwy.

*A1.43 Byddwn yn ystyried pa atebion y dylem eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud â chystadleuaeth y byddwn yn eu nodi mewn marchnadoedd llinellau ar brydles, yn y BCMR nesaf.*

A1.44 Galwodd BT ar Ofcom i sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cael eu darparu ar gyfer y BCMR, er mwyn i Ofcom seilio ei benderfyniad ar ddata cyflawn ac er mwyn iddo allu cynnal dadansoddiad cynhwysfawr i ategu ei gynigion.

A1.45 *Rydym eisoes wedi dechrau gweithio i gasglu'r data sydd ei angen ar gyfer y BCMR nesaf. Byddwn yn neilltuo adnoddau digonol i'r BCMR er mwyn sicrhau bod y cynigion y byddwn yn eu datblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth.*

## Ymatebion am gystadleuaeth arall

A1.46 Roedd FCS a BT yn pryderu, er bod gweithredwyr gwasanaethau symudol yn gallu defnyddio cynnyrch mynediad sefydlog wedi'i reoleiddio i gael mynediad i'r farchnad adwerthu sefydlog, nid oes gan weithredwyr sefydlog gynnyrch cyfanwerthol cyfatebol sydd wedi'i reoleiddio i ddarparu gwasanaethau symudol.

A1.47 *Mae'r farchnad symudol gyfanwerthol genedlaethol yn dal i fod yn gystadleuol. Ceir pedwar cyfanwerthwr cenedlaethol sy'n cystadlu i ddarparu gwasanaethau i weithredwyr rhith rwydweithiau symudol (MVNO) annibynnol yn ogystal â darparu gwasanaethau i'w priod is-adrannau adwerthu. Mae gan y MVNO bresenoldeb sylweddol yn y farchnad, ac maent yn cyfrannu at farchnad adwerthu gystadleuol; maent yn darparu gwasanaethau i 15% o'r cwsmeriaid dyfeisiau symudol yn y DU. Gall unrhyw weithredwyr sefydlog sydd am ddarparu gwasanaethau symudol drafod y telerau masnachol ar gyfer darparu cynnyrch symudol cyfanwerthol gyda'r darparwyr symudol cyfanwerthol cenedlaethol cystadleuol.*

A1.48 *Roedd cynnal cystadleuaeth rhwng cyfanwerthwyr symudol cenedlaethol yn ystyriaeth allweddol wrth ddylunio'r arwerthiant sbectrwm cyfun a gynhaliwyd yn 2013, ac a welodd y pedwar gweithredwr symudol cenedlaethol yn sicrhau portffolio sbectrwm yr un. Yn ogystal, llwyddodd cwmni newydd, Niche Spectrum Ventures (is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i BT), i sicrhau sbectrwm hefyd drwy'r dyfarniad. At hyn, mae masnachu sbectrwm yn ffordd bosibl i gwmnïau newydd gystadlu yn y dyfodol.*

A1.49 Galwodd BT ar Ofcom i adolygu'r canllawiau a'r broses datrys anghydfodau a sut maent yn gweithio yn ymarferol.

A1.50 *Rydym yn cadw golwg ar ein prosesau datrys anghydfod ac rydym wedi newid ein prosesau (er enghraifft, drwy wahodd sylwadau ar ddiwedd y cyfnod ymholiadau) ers i ni gyhoeddi'r canllawiau hynny. Os oes gan randdeiliaid awgrymiadau penodol o ran sut gellir gwella'r broses datrys anghydfodau, byddem yn croesawu trafodaeth i'r perwyl hwnnw.*

A1.51 Roedd BT o’r farn y dylai Ofcom gyfeirio ei ymdrechion i sicrhau ‘chwarae teg’ ar lefel ryngwladol drwy drafodaethau masnach yr UE/UDA (TTIP), lle ceir cyfle i gael gwared ar yr anghydbwysedd rhwng trefniadau mynediad cyfanwerthol yn UDA ac yn yr UE.

A1.52 *Bydd Ofcom yn cymryd rhan weithredol mewn ystod o fforymau rhyngwladol ar draws y sector cyfathrebu. Byddwn yn defnyddio cyfleoedd o’r fath i wella arfer gorau o ran hyrwyddo cystadleuaeth a darparu buddion i ddinasyddion a defnyddwyr.*

A1.53 Galwodd BT ar Ofcom i weithio gyda’r diwydiant i ddeall sut byddai’r fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio gyda gwasanaethau newydd a fydd yn disodli gwasanaethau dros y rhwydwaith ffôn switsio cyhoeddus (PSTN), ac i nodi a chychwyn unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud.

A1.54 *Mae Ofcom yn cydnabod bod y dechnoleg ar gyfer darparu gwasanaethau llais yn newid. Mae ein dull rheoleiddio yn niwtral o ran technoleg. Rydym o’r farn mai’r diwydiant ddylai symud cwsmeriaid at dechnolegau newydd, gydag Ofcom yn ymyrryd os bydd materion penodol yn codi sy’n ymwneud â defnyddwyr neu gystadleuaeth. Os bydd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen addasu elfennau o’n trefn reoleiddio bresennol, byddwn yn croesawu unrhyw ymgysylltiad ar faterion o’r fath.*

A1.55 Gofynnodd Three i Ofcom gychwyn deialog ynghylch rheoleiddio teg rai o wasanaethau OTT sy’n cystadlu yn y gofod dyfeisiau symudol.

A1.56 *Fel rhan o’i waith monitro marchnadoedd cyffredinol, mae Ofcom yn edrych ar y tueddiadau yn narpariaeth OTT, a phe byddai gennym bryderon penodol, byddem*

*yn ystyried a fyddai angen ymyrryd neu beidio. Gall rhanddeiliaid gyflwyno eu pryderon penodol i ni hefyd.*

A1.57 Galwodd Vodafone, UKCTA a SSE ccc am adolygiad o Ymgymeriadau BT.

*A1.58 Ar hyn o bryd, nid ydym o'r farn bod angen cynnal adolygiad o Ymgymeriadau BT ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i amgylchiadau'r farchnad ddatblygu.*

A1.59 Galwodd Vodafone ar Ofcom i gynnal gwerthusiad cyffredinol o sut mae BT yn perfformio fel endid wedi'i reoleiddio. Cynigiodd Vodafone y dylai'r gwerthusiad asesu:

- a yw'r prisiau rheoledig ar gyfer y gwasanaethau hyn ar lefel briodol;
- a yw rheoleiddio'n creu'r cymhelliant priodol i BT fuddsoddi mewn gwasanaethau a darparu ansawdd gwasanaeth y mae darparwyr cyfathrebu eraill, ac yn y pen draw defnyddwyr, yn dibynnu arno; ac
- a yw'r gwasanaethau rheoledig priodol ar gael i sicrhau canlyniadau cystadleuol.

A1.60 *O dan Fframwaith yr UE, mae'n rhaid i Ofcom gynnal adolygiadau bob tair blynedd o'r marchnadoedd economaidd ym maes telegyfathrebu o dan reolaeth cystadleuaeth ex ante. Yng nghyd-destun pob adolygiad, bydd Ofcom yn ystyried pa atebion, gan gynnwys rheolaethau ffioedd, sy'n briodol i'w gosod ar BT, os gwelir eu bod mewn sefyllfa oruchafol. Mae ein hatebion wedi'u llunio er mwyn taro cydbwysedd cywir rhwng annog buddsoddiad a chystadleuaeth.*

A1.61 *Yn ogystal â hynny, yng nghyd-destun ein FAMR presennol, rydym yn cynnig gosod rhwymedigaethau mwy penodol ynghylch y safon ansawdd y mae'n rhaid i Openreach ei chyrraedd wrth ddarparu gwasanaethau yn y farchnad hon. Byddwn yn ystyried ansawdd gwasanaeth hefyd yng nghyd-destun y BCMR nesaf.*

*A1.62 Rydym yn cynnig hefyd y byddwn yn y dyfodol, wrth lunio rheolaethau ffioedd BT newydd, yn ceisio bod yn fwy penodol ynghylch sut mae BT wedi perfformio o'i gymharu â'i reolaethau ffioedd blaenorol yn y farchnad berthnasol.*

*A1.63 Hefyd, rydym wedi cyflwyno cynigion i wella hyder y diwydiant yn null adrodd ariannol rheoleiddiol BT[37].*

A1.64 Mynegodd UKCTA bryderon ynghylch gwasanaethau penodol y mae o'r farn bod angen ymchwilio iddynt yng nghyswllt prisiau BT: gwasanaethau cyfnewid testun, gwasanaethau mynediad dros ffôn talu a gwasanaethau sy'n delio â galwadau brys.

A1.65 *Fel y nodwyd yn ein canllawiau gorfodi, caiff pob rhanddeiliad gyflwyno cwyn os oes ganddo bryder am y gystadleuaeth. Rydym yn fodlon cwrdd â rhanddeiliaid i drafod eu pryderon penodol.*

## Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

[37] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/bt-transparency/summary/BTRFS.pdf

## Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ac ar gyfer y posibilrwydd o ryddhau'r band 700MHz

A1.66 Pwysodd Llywodraeth Cymru ar Ofcom i ddiffinio'r targedau gofynnol ar gyfer darpariaeth yn ôl poblogaeth, ar lefel ranbarthol, ar gyfer rhyddhau sbectrwm yn y dyfodol ym mandiau 2.3GHz a 3.4GHz er mwyn sicrhau gwasanaethau symudol ar draws y wlad.

A1.67 *Mae'r mannau gwan ar gyfer gwasanaethau symudol, ynghyd â materion darpariaeth eraill, yn faes sy'n peri pryder i ddinasyddion a defnyddwyr, ac rydym wedi ystyried a ddylem osod rhwymedigaethau ar drwyddedau 2.3GHz and 3.4GHz. Yn yr arwerthiant o'r bandiau sbectrwm 800MHz a 2.6GHz yn 2013, gwnaethom osod rhwymedigaethau darpariaeth (gan gynnwys rhwymedigaethau ar lefel gwlad) ar un o drwyddedau 800MHz. Y rheswm dros hyn yw bod 800MHz yn sbectrwm amledd is ac yn fwy addas i sicrhau darpariaeth dros ardal ehangach. Ni wnaethom osod dim rhwymedigaeth ar y band 2.6GHz, gan fod y sbectrwm hwn yn fwy addas i ddarparu capasiti rhwydwaith ychwanegol, yn hytrach na darpariaeth. Mae gan fandiau 2.3GHz a 3.4GHz nodweddion tebyg i fand 2.6GHz. Felly, ein bwriad yw peidio â chynnwys unrhyw rwymedigaethau darpariaeth mewn trwyddedau a roddir fel rhan o'r dyfarniad hwn (fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad a'n galwad am fewnbwn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013), ond byddwn yn ystyried yr ymateb hwn yn ein gwaith ar lunio'r dyfarniad yn y dyfodol.*

*A1.68* Galwodd FCS ar Ofcom i sicrhau bod yr hyn sy'n golygu defnydd 'gorau posibl' o sbectrwm yn cynnwys ffordd glir o fesur y manteision cymdeithasol sy'n deillio o ddefnyddio'r sbectrwm mewn ffyrdd penodol, yn hytrach na ffordd o fesur beth fyddai chwaraewyr masnachol yn fodlon talu amdano mewn arwerthiant. Roedd FCS o'r farn bod y mater hwn yn hollbwysig ac ystyried buddiannau'r gwasanaethau brys a defnyddwyr seilweithiau cenedlaethol critigol eraill yn y bandiau UHF, a'r band 700MHz a ryddheir yn fuan.

A1.69 *Wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r sbectrwm, mae Ofcom yn ystyried yn ofalus fuddiannau'r holl ddinasyddion a defnyddwyr. Rydym yn sylweddoli y gallai rhoi'r band 700MHz at ddefnydd y gwasanaethau brys ddwyn manteision i ddinasyddion. Rydym ar ddeall bod y llywodraeth wrthi'n cynnal adolygiad o ofynion sbectrwm y gwasanaethau brys yn y dyfodol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar y mater hwn a byddwn yn ystyried eu syniadau ar sbectrwm y gwasanaethau brys wrth i ni lunio ein cynigion ar gyfer dyfodol y band 700MHz.*

A1.70 Galwodd y CWU ar Ofcom i wneud dadansoddiad trylwyr o'r gost a'r budd er mwyn sicrhau nad yw newid y defnydd a wneir o'r band 700MHZ yn effeithio er gwaeth ar wylwyr teledu digidol daearol, ac er mwyn sicrhau y gall llwyfan teledu digidol daearol barhau ar yr un lefel gwasanaeth neu ar lefel well ar led band arall.

A1.71 Mynegodd y CCP bryderon y gallai unrhyw newid yn y defnydd a wneir o fand 700MHz gael yr effaith niweidiol fwyaf ar bobl sydd ar incwm isel a phobl sy'n agored i niwed. Rhoddodd y CCP anogaeth i Ofcom ddatblygu cynlluniau wrth gefn er mwyn lleihau'r posibilrwydd hwn.

A1.72 *Mae Ofcom wrthi'n cynnal dadansoddiad manwl o'r gost a'r budd gan asesu'r achos dros newid y defnydd a wneir o fand 700MHz. Un o elfennau craidd y dadansoddiad hwn fydd asesu pa effaith fyddai newid yn y defnydd a wneir o'r band yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr y DU, gan gynnwys gwylwyr teledu digidol daearol.*

A1.73 *Fel y nodwyd yn ein Datganiad UHF ym mis Tachwedd 2012, un o'n hamcanion strategol yng nghyd-destun sbectrwm mewn bandiau IV a V UHF (sy'n cynnwys y band 7000MHz) yw sicrhau bod y manteision yn cael eu darparu drwy'r amser gan deledu digidol daearol. I'r perwyl hwn, rydym yn edrych ar ystod o opsiynau cynllunio teledu digidol daearol. Os bydd yr amleddau sy'n gysylltiedig â theledu digidol daearol yn cael eu hail-gynllunio yn y dyfodol, ein bwriad yw sicrhau bod y manteision sy'n gysylltiedig â darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus i bawb bron yn cael eu darparu drwy'r amser a bod ystod o wasanaethau teledu digidol daearol eraill yn cael eu darparu i gynnal dewis gwylwyr teledu digidol daearol.*

## Galluogi defnyddio dyfeisiau gofod gwyn, ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol

A1.74 Roedd Sky o'r farn y dylai dyrannu'r sbectrwm WiFi ymhellach (yn arbennig yn y band 5GHz) fod yn un o brif flaenoriaethau Ofcom yng nghyd-destun y sbectrwm.

A1.75 *Mae ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer rhannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol yn un o flaenoriaethau Ofcom yn 2014/15. Mae gwaith yn y maes hwn eisoes yn mynd rhagddo, ac ym mis Awst 2013 cyhoeddwyd ymgynghoriad ar rôl rhannu sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau data symudol a di-wifr.*

A1.76 *Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cydnabod y rôl bwysig y mae WiFi, yn seiliedig ar fynediad at sbectrwm heb drwydded, yn ei chwarae yn seilwaith cyfathrebu'r DU. Mae ehangu'r band 5GHz i ddarparu rhagor o sbectrwm heb drwydded ar gyfer defnydd WiFi yn un o'r prif eitemau ar agenda Cynhadledd Radio'r Byd yn 2015 (WRC-15).*

A1.77 *Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a byddwn yn cyhoeddi ein datganiad terfynol ar rôl rhannu sbectrwm yn y dyfodol, gan gynnwys cyflenwad sbectrwm heb drwydded yn y dyfodol ar gyfer defnydd WiFi, yn ystod gwanwyn 2014.*

## Darparu lled band digonol i gefnogi gofynion y sector gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)

A1.78 Mynegodd Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain nifer o bryderon yng nghyswllt PMSE, gan alw ar Ofcom i wneud y canlynol:

- sicrhau bod ei fodel cynllunio sbectrwm arfaethedig yn cydnabod ac yn cefnogi gofynion PMSE yn llawn;
- ffafrio'r rhai sy'n defnyddio'r sbectrwm yn awr, yn enwedig PMSE, fel rhan o'i fwriadau i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm;
- annog cwmnïau telegyfathrebu i drin y sbectrwm sydd ganddynt eisoes yn fwy effeithiol, i helpu i leihau'r galw am sbectrwm;
- nodi bandiau eraill i'w defnyddio dros y tymor hir gan y sector PMSE; ac
- ystyried cost offer PMSE a gollir fel rhan o'r broses glirio yn y dyfodol, a llunio cynllun iawndal i liniaru hyn.

A1.79 Roedd EE yn cytuno hefyd y dylai Ofcom geisio dod o hyd i ateb ar gyfer PMSE. Fodd bynnag, mae'n galw am ateb heb fod yn ormod o faich ar ddefnyddwyr eraill y sbectrwm.

A1.80 *Mae adolygiad o sbectrwm PMSE yn gweithio gyda rhanddeiliaid PMSE i nodi ac i weithio at gael opsiynau hyfyw er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i’r sector. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys nodi’r opsiynau sbectrwm eraill ar gyfer PMSE. Wrth wneud y gwaith hwn, mae’n bwysig cael cydbwysedd rhwng anghenion defnyddwyr sbectrwm sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn ogystal â bod ein ffordd a’n casgliadau yn gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth.*

A1.81 *Mae cyflwyno dyfeisiau gofod gwyn hefyd yn flaenoriaeth strategol i Ofcom, ond mae’n bwysig nad yw cyflwyno o’r math yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr presennol, gan gynnwys PMSE. Rydym yn gweithio’n agos gyda rhanddeiliaid PMSE i bennu’r meini prawf priodol ar gyfer cydfodolaeth er mwyn i PMSE a dyfeisiau gofod gwyn allu rhannu’r sbectrwm gofod gwyn yn llwyddiannus.*

A1.82 *Mae Ofcom yn annog holl ddefnyddwyr y sbectrwm i ddefnyddio’r sbectrwm sydd ganddynt yn effeithlon, ac i gyfyngu ar eu galw am sbectrwm ychwanegol gymaint ag y bo modd, yn gydnaws â buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Mae gan Ofcom sawl polisi sy’n ceisio hyrwyddo a hwyluso’r gwaith o gyflawni’r nodau hyn, gan gynnwys codi tâl anogaeth gweinyddol (AIP) a pholisi rhyddhau sbectrwm. Byddwn yn parhau i weithio gyda holl ddefnyddwyr y sbectrwm i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i effeithlonrwydd y sbectrwm, ac i hyrwyddo a hwyluso’r newidiadau sy’n angenrheidiol er mwyn sicrhau unrhyw fanteision.*

## Deall effaith a rôl derbynyddion ar ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon

A1.83 Roedd Joint Radio Company Ltd yn cefnogi’r gwaith y bwriadwn ei wneud yn y maes hwn.

A1.84 Roedd Digital TV Group (DTG) o’r farn y bydd angen i dderbynyddion teledu weithio’n effeithiol ynghyd â chydlynu’n well â derbynyddion symudol a di-wifr.

A1.85 *Rydym yn ystyried derbynyddion teledu, yn ogystal â derbynyddion symudol a di-wifr, yng nghyd-destun gwaith posibl yn y dyfodol ar berfformiad amledd radio. Rydym yn gobeithio edrych ar gyfleoedd i hyrwyddo defnydd mwy effeithlon o’r sbectrwm drwy safonau derbynnydd a thrawsyrrydd gwell, a chydlynu gwell rhwng defnyddwyr sbectrwm cyfagos, sy’n cynnwys edrych ar y posibilrwydd o wella perfformiad system derbynyddion teledu digidol daearol.*

## Gwella'r defnydd a fwriedir o'r sbectrwm UHF

A1.86 Galwodd DTG am i fodel cynllunio’r DU (UKPM) fod ar gael yn rhwydd ac am ddim. Yn ogystal â hynny, galwodd DTG fod opsiwn i wella manylder modelu effaith technolegau fel 4G a dyfeisiau gofod gwyn ar deledu digidol daearol yn cael ei gynnwys mewn unrhyw fersiynau o’r UKPM yn y dyfodol.

A1.87 *Mae Ofcom yn cydnabod y gwerth posibl a ddaw o sicrhau bod mynediad i’r UKPM a’i allbynnau ar gael yn fwy agored nag y mae ar hyn o bryd. Mae bod yn agored yn un o’r egwyddorion sy’n sail i’n hadolygiad presennol o’n ffordd o gynllunio’r sbectrwm UHF. Rydym yn ystyried yr amrywiol fecanweithiau y gellir eu defnyddio i gyflawni hyn yn y dyfodol. Rydym wrthi’n datblygu cynigion hefyd ar gyfer y nodweddion technegol y dylid eu cynnwys mewn model cynllunio er mwyn iddo fod yn effeithiol ar gyfer ystod o raglenni.*

## Cefnogi gofynion sbectrwm Prosiect Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys y Llywodraeth

A1.88 Galwodd FCS am lif gwaith ar yr angen i sicrhau bod gwasanaethau 999 y DU yn barod i ddelio â’r swyddogaeth data/llais newydd sydd ei angen ar eCall.

A1.89 *Wrth gyflwyno eCall ar draws Ewrop, bydd gan hyn oblygiadau ar draws amrywiol sectorau. Pan fydd y llywodraeth wedi penderfynu ar y cynllun cyffredinol ar sut caiff eCall ei gyflwyno yn y DU, ac wedi cyfarwyddo Ofcom yn unol â hynny, byddwn yn ystyried beth fydd y ffordd orau o fynd i’r afael ag unrhyw elfennau sy’n dod o dan gochl ein cylch gwaith rheoleiddio. Nodwn fod gofyn i aelod-wladwriaethau fod wedi gwneud addasiadau eCall i’w trefn pwyntiau ateb gwasanaeth cyhoeddus (PSAP); disgwylir i un o’r elfennau, sydd fwyaf tebygol o gael effaith ar delegyfathrebu, ddod i rym ddiwedd 2016 ar hyn o bryd.*

## Archwilio gofynion a defnydd posibl o dechnoleg peiriant i beiriant

A1.90 Roedd Joint Radio Company Ltd yn cefnogi’r gwaith y bwriadwn ei wneud yn y maes hwn.

A1.91 Roedd EE o’r farn ei bod yn bwysig bod Ofcom yn rhoi cyfle i’r farchnad sbectrwm eilaidd ddarparu ateb ar gyfer technoleg peiriant i beiriant (M2M) drwy beidio â chreu argraff yn gynnar y bydd Ofcom yn camu i mewn i ryddhau sbectrwm yn benodol ar gyfer M2M.

A1.92 *Ein prif amcan yn y maes hwn yw sicrhau nad oes dim rheoliadau’n rhwystro arloesedd a gweithredu effeithlon y marchnadoedd sbectrwm. Dros y flwyddyn nesa, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar wella ein dealltwriaeth o’r cyd-destun M2M sy’n datblygu. Nodwn fod llawer o raglenni di-wifr M2M eisoes yn cael eu darparu drwy amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhwydweithiau symudol cyhoeddus a mynediad i’r sbectrwm heb drwydded. Os bydd datblygiadau M2M yn y dyfodol yn arwain at gynnydd yng ngofynion y sbectrwm, byddem yn disgwyl i fecanweithiau’r farchnad barhau i chwarae rôl yn y gwaith o’u diwallu. Er mwyn bod yn gyson â’n dull cyffredinol o reoli’r sbectrwm, dim ond os bydd ffactorau’n ymddangos sy’n rhwystro grymoedd y farchnad rhag sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o’r sbectrwm y byddem yn ystyried unrhyw weithredu rheoleiddiol.*

## Ymatebion eraill am y sbectrwm

A1.93 Croesawodd Vodafone weithgarwch Ofcom ar gysylltiadau e-fand amledd uchel, ond roeddent o’r farn bod sicrwydd rheoleiddiol yn dibynnu ar gwblhau’r adolygiad o’r ffioedd dolen sefydlog yn foddhaol.

A1.94 *Yn ein Cynllun Blynyddol, nodir ein bwriad i adolygu ffioedd dolen sefydlog yn y cyfnod 2014/15. Mewn perthynas â’r (e) band 70/80GHz, yn ein datganiad diweddar ar y ffordd o reoli’r band hwn yn y dyfodol, aethom ati i nodi cynigion ffioedd dros dro ar gyfer y trefniant mynediad cydgysylltiedig a hwyluswyd yn ddiweddar. Wrth wneud hyn, roeddem yn cydnabod bod angen cael sefydlogrwydd o ran ffioedd trwydded a, chan nodi mai cynigion dros dro yw’r rhain oherwydd bod adolygiad ar y gweill o’r ffioedd dolen sefydlog, nodwyd y byddem yn pennu ffioedd am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad cyhoeddi’r datganiad hwnnw, ni waeth os bydd unrhyw gynnydd yn dilyn yr adolygiad.*

*A1.95* Galwodd EE ar Ofcom i weld a yw’r drefn rheoleiddio yn y DU ac ar draws Ewrop yn cefnogi’r defnydd gorau o’r sbectrwm ar gyfer materion ôl-gludo di-wifr, er mwyn

creu atebion cost effeithiol ar gyfer ôl-gludo. Dyma’r cwestiynau penodol yr hoffai EE weld sylw’n cael ei roi iddynt:

- a fyddai’r drefn rheoleiddio ar gyfer dolenni sefydlog yn elwa o gael mwy o gysoni ar draws Ewrop, er mwyn creu un farchnad ar gyfer offer microdon?; a
- sut gall y drefn ôl-gludo di-wifr fynd ati’n briodol i gefnogi a galluogi’r gwaith o ddatblygu defnydd o gelloedd bach?

*A1.96* *Yn gyffredinol, mae ystod eang o fandiau dolen sefydlog (sy’n ymestyn i’r sbectrwm tonfedd mm sef 70/80GHz) ar gael a gellir eu defnyddio ar gyfer ôl-gludo di-wifr, gan gynnwys darpariaeth ôl-gludo ar gyfer celloedd bach.*

*A1.97* *Mae ‘cysoni meddal’ eisoes yn cael ei gefnogi ar draws CEPT (e.e. cynlluniau sianel CEPT / safonau ETSI ac ati) ac mae gwaith yn cael ei wneud yn yr ITU-R i edrych ar dueddiadau technoleg yn y gwasanaeth sefydlog, a’r materion sbectrwm sy’n ymwneud â rhwydweithiau cludo gwasanaeth sefydlog ar gyfer IMT a rhwydweithiau daearol eraill.*

A1.98 *Mae’r cwestiynau a nodir gan EE yn codi sawl peth ynghylch lefel y cysoni sydd ei angen ar gyfer ôl-gludo di-wifr. Byddai Ofcom yn croesawu cael rhagor o wybodaeth gan y diwydiant er mwyn gallu ystyried pa gamau penodol a all fod yn angenrheidiol.*

A1.99 Mynegodd O3b Ltd sawl pryder yn ymwneud â defnyddwyr lloerennau. Ymhlith pethau eraill, galwodd ar Ofcom i:

- gydnabod y gallai eitem 1.1 ar agenda (AI 1.1) Cynhadledd Radio’r Byd 2015 effeithio ar ddefnyddwyr lloerennau;
- blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer datblygu fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd ar gyfer gweithrediadau Gorsafoedd Daear ar Lwyfannau Symudol (ESOMP) gan ddefnyddio lloerennau Orbit Lloeren nad yw’n Sefydlog ar y Ddaear (NGSO); a
- cyflwyno ardal waith i wella’r cydlynu rhwng Ofcom ac Asiantaeth Gofod y DU (UKSA).

A1.100 *Mae Ofcom yn cydnabod y gallai’r cynigion i ddod o hyd i fwy o sbectrwm ar gyfer IMT o dan Al 1.1. yng Nghynhadledd Radio’r Byd 2015 effeithio ar yr holl bobl sy’n defnyddio’r sbectrwm ar hyn o bryd, gan gynnwys defnyddwyr lloerennau. Mae Ofcom yn cefnogi astudiaethau cydnawsedd i weld beth yw’r bandiau amledd posibl ar gyfer IMT yn ogystal â thechnegau lliniaru ar gyfer gwarchod y defnyddwyr presennol.*

*A1.101* *Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi’r gwaith o ddatblygu fframwaith rheoleiddio cyson a phriodol ar gyfer ESOMP.*

A1.102 *Mae perthynas gadarn yn bodoli eisoes rhwng Ofcom a’r UKSA, drwy uned Gwasanaeth Gwyddoniaeth a Gofod Ofcom. Mae UKSA ac Ofcom yn cwrdd i drafod materion cenedlaethol a rhyngwladol yn ymwneud â gwyddoniaeth a gofod pan fo angen gwneud hynny.*

## Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi

## Sicrhau darpariaeth barhaus y gwasanaeth post cyffredinol

A1.103 Roedd y CWU yn gefnogol i'n rhaglen waith yn ymwneud â phost. Ond galwodd am adolygiad annibynnol o berfformiad ac effeithlonrwydd cymharol y Post Brenhinol.

A1.104 *Rydym o'r farn nad yw'n briodol i ni gynnal adolygiad annibynnol ar hyn o bryd o berfformiad ac effeithlonrwydd cymharol y Post Brenhinol. Comisiynwyd adroddiadau NERA a WiK reports i fod yn sail i'n barn am fanteision ac anfanteision gwahanol fethodolegau ar gyfer asesu effeithlonrwydd ac er mwyn deall yn well y cynlluniau effeithlonrwydd a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol a chymharol yn Ewrop. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'n barn am y metrics priodol ar gyfer mesur effeithlonrwydd, a chaiff hyn ei drafod yn y diweddariad monitro blynyddol nesaf. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at unrhyw adolygiad effeithlonrwydd yn y dyfodol y gellir ei wneud fel rhan o'r adolygiad o'r angen am ymyrryd mewn perthynas â'r gystadleuaeth o un pen i'r llall, neu'r fframwaith rheoleiddio, os byddwn yn gweld pryderon am gynnydd y Post Brenhinol o ran lleihau ei gostau yn y drefn monitro.*

A1.105 Mynegodd TNT UK Post Ltd sawl pryder ynghylch y Post Brenhinol:

- ni ddylai bod yn bosibl cyhoeddi diwygiadau i delerau cyfanwerthu'r Post Brenhinol nes bod cyfle wedi bod i graffu pa mor gydnaws ydynt â'r amodau rheoleiddio;
- galwodd TNT UK Post Ltd ar Ofcom i ystyried gosod rheoliadau llymach ar newidiadau mewn prisiau parthau ac, yn benodol, cynnydd mewn prisiau danfon mewn ardaloedd gwledig; a
- galwodd TNT UK Post Ltd ar Ofcom i asesu a yw'r gwahanol sylfeini ar gyfer cyfrifo prisiau mynediad yn gydnaws â gwahardd gwahaniaethu gormodol, a galw hefyd i weld a ddylid cael un sylfaen ar gyfer prisiau mynediad sy'n canolbwyntio ar gost ar gyfer pob cwsmer, yn lle'r sefyllfa bresennol.

A1.106 *Ym mis Mawrth 2012 rhoddasom fwy o ryddid gweithredol a masnachol i'r Post Brenhinol o ran pennu prisiau, a thelerau ac amodau, ei wasanaeth cyffredinol a'i gynnyrch mynediad, fel ei fod yn gallu sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r gwasanaeth cyffredinol unwaith eto. Yng nghyd-destun mynediad, roedd hyn yn cynnwys gofyniad bod y telerau a'r prisiau hyn yn deg ac yn rhesymol, a bod yr amodau'n sicrhau nad yw'r Post Brenhinol yn cystadlu'n annheg â'i gwsmeriaid mynediad.*

*A1.107 Fel rydym yn ei wneud gyda'n holl reoliadau post, byddwn yn parhau i fonitro pa mor briodol yw'r amodau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'n dyletswyddau i amddiffyn y gwasanaeth cyffredinol a, lle y bo'n briodol, yn hyrwyddo cystadleuaeth er lles y defnyddwyr.*

*A1.108 Rydym yn nodi hefyd bod Ofcom, ar 21 Chwefror 2014, wedi cychwyn ymchwiliad i brisiau, telerau ac amodau penodol a gynigir gan y Post Brenhinol ar gyfer mynediad D + 2.*

A1.109 Galwodd y Post Brenhinol a'r CWU ar Ofcom i gyflwyno adolygiad o'r gystadleuaeth o un pen i'r llall ym maes post.

A1.110 *Cyhoeddodd Ofcom arweiniad ym mis Mawrth 2013 a oedd yn disgrifio'r amgylchiadau lle byddem yn cynnal adolygiad o'r angen i ymyrryd mewn perthynas*

*â chystadleuaeth o un pen i'r llall. Roedd hwn yn dweud y byddem yn cynnal unrhyw adolygiad o'r fath pe bai unrhyw fygythiad gwirioneddol i'r gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ganfod drwy ein system monitro, neu ar sail yr hysbysiadau y mae'n rhaid i weithredwyr post gyda gweithgareddau dosbarthu newydd neu ychwanegol eu darparu i Ofcom. At hynny, rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o effaith y gystadleuaeth o un pen i'r llall ar y gwasanaeth cyffredinol tuag at ddiwedd 2015, oni fydd adolygiad eisoes wedi'i gychwyn o ganlyniad i'n gwaith monitro.*

A1.111 *Cyhoeddwyd ein hadroddiad monitro blynyddol ar y diwydiant post ym mis Tachwedd 2013, a nodwyd yn hwnnw nad oedd angen cychwyn adolygiad o'r angen am ymyrryd, gan fod cystadleuaeth o un pen i'r llall yn llai na 1% o faint y farchnad gyfan a chan fod sefyllfa ariannol y Post Brenhinol yn gwella. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.*

*A1.112* Galwodd y CCP a Dyfodol Defnyddwyr am fonitro targedau Ansawdd Gwasanaethau yn fanwl a chymryd camau gorfodi pendant os nad yw'r rhain yn cael eu bodloni.

A1.113 Galwodd Dyfodol Defnyddwyr am y canlynol hefyd:

- ymchwiliadau i achosion lle nad yw'r Post Brenhinol yn glynu wrth feini prawf dwysedd blychau post;
- monitro a chyhoeddi data marchnad ar symud parseli ar lefel ddomestig ac ar draws ffiniau;
- adolygiad ac asesiad cynhwysfawr o'r fframwaith ymdrin â chwynion a gwneud iawn ar gyfer defnyddwyr; a
- cyn cynnal adolygiad ffurfiol o'r gystadleuaeth o un pen i'r llall yn 2015, dylai Ofcom barhau i ystyried ffyrdd eraill yn y fframwaith rheoleiddio priodol, gan gynnwys rhoi elfennau sy'n gwneud colled allan i dendr, cymorth gwladwriaethol neu drefniadau cronfa iawndal.

A1.114 *Bydd y drefn fonitro yn parhau i fod yn un o'r prif feysydd gwaith sy'n ymwneud â'r sector post. Bydd hyn yn cynnwys monitro'n fanwl ganlyniadau Ansawdd Gwasanaeth y mae'r Post Brenhinol wedi'u cyflawni o ran ei dargedau rheoleiddio, ei allu i ariannu'r gwasanaeth cyffredinol, y cynnydd o ran effeithlonrwydd, ac effaith y drefn reoleiddio ar gwsmeriaid y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys cydymffurfio â'r meini prawf dwysedd blychau post.*

A1.115 *Ar ben hynny, rydym yn bwriadu casglu data manylach ar y farchnad pecynnau a pharseli, ac adrodd am yr holl wybodaeth marchnad yn y diweddariad monitro blynyddol a'r Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu.*

A1.116 *Rydym hefyd yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â chwynion a gwneud iawn yn ystod 2014-15.*

A1.117 *Rydym hefyd yn nodi bod Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn ein hatal rhag cynnal adolygiad o gost net y gwasanaeth cyffredinol (byddai angen hyn er mwyn cychwyn cronfa iawndal) tan fis Hydref 2016, oni cheir cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ar ben hynny, mae'n ein hatal rhag rhoi'r gwasanaeth cyffredinol allan i dendr tan fis Hydref 2021 oni bai y bydd y Post Brenhinol yn cytuno â hyn.*

A1.118 Pwysodd Pwyllgor Cynghori Ofcom yng Ngogledd Iwerddon (ACNI) ar Ofcom i ymchwilio i fater yn ymwneud â phost ar draws ffiniau, o ran cost ac amser a gymerir i bost gael ei ddanfon o Ogledd Iwerddon i Weriniaeth Iwerddon.

A1.119 *Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd targedau Ansawdd Gwasanaeth gofynnol ar gyfer ei wasanaeth danfon post cyffredinol ar draws ffiniau. Er enghraifft, rhaid i'r Post Brenhinol ddanfon o leiaf 85% o'i bost UE ar draws ffiniau o fewn tri diwrnod. Mae'n cyhoeddi ei adroddiadau chwarterol ar ei berfformiad yng nghyswllt yr holl dargedau ansawdd gwasanaeth cyffredinol.*

A1.120 Galwodd y Post Brenhinol ar Ofcom i ystyried ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr post eraill sicrhau mwy o dryloywder ar draws meysydd fel safonau Ansawdd Gwasanaeth, a gofynion eraill.

A1.121 *Dim ond yng nghyswllt cynnyrch gwasanaeth cyffredinol y mae angen i'r Post Brenhinol fodloni safonau Ansawdd Gwasanaeth penodol a chyhoeddi ei berfformiad. Nid oes gofynion tebyg ar gyfer y cynnyrch a ddefnyddir gan gwsmeriaid busnesau mwy, lle mae gweithredwyr o un pen i'r llall a gweithredwyr mynediad eraill yn cystadlu. Nid oes gennym dystiolaeth o gwbl fod angen amodau ychwanegol yn ymwneud ag ansawdd neu dryloywder ar gyfer y cwsmeriaid hyn.*

## Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion agored i niwed

A1.122 Mae Vivienne Pozo, unigolyn, o'r farn bod angen darparu rhywbeth cyfatebol i'r rheini na fydd yn disgwyl defnyddio gwasanaeth cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf (NGTR) ond sy'n dal i gael problemau gyda galwadau llais.

A1.123 *Mae ymchwil Ofcom wedi dangos gwerth gwasanaethau fel neges destun a neges e-bost i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw. Rydym wedi rhannu'r canfyddiadau hyn â'r llywodraeth ac asiantaethau, a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i helpu i sicrhau ein bod yn deall anghenion defnyddwyr â nam ar y clyw ac yn rhoi sylw priodol iddynt.*

## Parhau i hybu gwell darpariaeth symudol a gwybodaeth am wasanaethau er mwyn llywio defnyddwyr a helpu i wneud penderfyniadau polisi

A1.124 Yn ogystal â gwaith Ofcom ar rôl rhwydweithiau symudol i gynnig darpariaeth, galwodd EE ar Ofcom i edrych ar berfformiad antena ar setiau llaw, yn arbennig ffonau clyfar.

A1.125 *Fel rhan o'n gwaith ar ddarpariaeth symudol, rydym yn bwriadu ystyried sut gall defnyddwyr sicrhau'r derbyniad gorau posibl ar gyfer dyfeisiau symudol. Bydd hyn yn cynnwys yr effaith y mae dewis dyfais a lleoliad ei ddefnyddio (fel yn y cartref ac yn y car) yn ei chael ar berfformiad.*

A1.126 Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gael gweld cynnydd yng nghyswllt cyflwyno crwydro symudol cenedlaethol. Ar ben hynny, hoffai weld ymchwil ar ddarpariaeth ac ansawdd rhwydweithiau a gwasanaethau symudol ar gael ar sail rhanbarth/isranbarth.

A1.127 *Bydd ein gwaith ar ddarpariaeth symudol yn edrych ar ddarpariaeth ac Ansawdd Gwasanaeth ym mhob rhan o'r DU. Mae crwydro yn un ateb posibl i helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â darpariaeth, ac rydym yn fodlon ystyried yr holl opsiynau er mwyn mynd i'r afael â'r her hon.*

A1.128 Pwysodd Vodafone ar Ofcom i barhau yn ei rôl o roi sylw i faterion cynllunio a materion eraill sy'n atal y broses o sefydlu neu uwchraddio gorsafoedd gwasanaethau symudol, neu sy'n peri oedi diangen i'r perwyl hwnnw.

A1.129 *Byddwn yn parhau i roi cymorth technegol i'r llywodraeth o ran cynllunio a materion eraill a allai effeithio ar argaeledd gwasanaethau symudol. Rydym yn aros am ymateb y llywodraeth i argymhellion Comisiwn y Gyfraith, yn dilyn ei adolygiad o'r Cod Cyfathrebu Electronig, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013.*

### Cwblhau'r gwerthusiad ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu electronig craidd ac adrodd ar hyn

A1.130 Galwodd BT ar Ofcom i adolygu darpariaethau'r ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol (USO) presennol.

*A1.131 Byddwn yn ystyried y goblygiadau o ran y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol pan fyddwn yn cwblhau ein hymchwil ar fforddiadwyedd gwasanaethau craidd.*

### Gweithio ar y cyd â'r llywodraeth a'r diwydiant i geisio sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael yn eang ar gyfer darpariaeth sefydlog a symudol

A1.132 Mynegodd FCA bryder bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i roi cymhorthdal i weithredwr monopoli presennol gyflwyno ffibr i gartrefi'r DU, heb ddim gofyniad cysylltiedig i flaenoriaethu na gosod cyfarpar mewn ardaloedd busnes yn yr un lleoliadau daearyddol.

A1.133 *Nid oes gan Ofcom awdurdodaeth dros faterion cymorth gwladwriaethol. Y llywodraeth/awdurdodau lleol ddylai benderfynu a oes angen ymyriadau gan y wladwriaeth ac os felly, ar ba ffurf y dylent fod.*

*A1.134 Bydd Ofcom yn dechrau'r BCMR nesaf eleni, ac o fewn hyn, bydd yn ystyried a yw cysylltedd busnes ar gael ledled y DU.*

### Ymatebion eraill

A1.135 Galwodd y CCP, y CWU a BT ar Ofcom i roi mwy o bwyslais ar annog pobl i ddefnyddio band eang a band eang cyflym iawn.

A1.136 *Prif ffocws Ofcom yw hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan. Rydym yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn eang, a cheisio lleihau'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag eu mabwysiadu a'u defnyddio'n effeithiol. Un o'r prif weithgarwch yn y maes hwn yw hyrwyddo dealltwriaeth o argaeledd a'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth ymhlith y rhai sy'n llunio polisïau yn y DU, er mwyn ysgogi dadl a datblygu polisïau gyda'r nod o gyflawni nodau llywodraethau mewn perthynas ag argaeledd a chynhwysiant.*

A1.137 *Ar ben hynny, mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau, ac mae'n gwneud hyn yn bennaf drwy ymchwil fanwl a threiddgar. Mae'r ymchwil hon yn galluogi rhanddeiliaid sydd â pherthynas uniongyrchol â defnyddwyr a dinasyddion i ddefnyddio eu hadnoddau'n benodol ar yr elfennau mwyaf perthnasol mewn llythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys y nifer sy'n defnyddio cyfryngau digidol. Rydym yn siarad yn rheolaidd â'r rhanddeiliaid hyn am eu gwaith, ac yn darparu canfyddiadau ymchwil pendant sy'n help iddynt gynllunio eu hymgyrch.*

**Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed**

## Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder o ran prisiau

A1.138 Croesawodd y CCP ein gwaith ar wasanaethau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol (NGCS).

A1.139 Mynegodd FCS bryderon ynghylch diffyg tryloywder prisiau ar gyfer defnyddwyr busnesau.

A1.140 *Mae gwaith rheoleiddio Ofcom ar wasanaethau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol yn canolbwyntio ar sicrhau bod defnyddwyr sy'n galw yn cael eu gwarchod rhag effeithiau niweidiol tryloywder prisiau gwael a methiannau perthnasol yn y farchnad. Nid yw'r ymyriad yn cynnwys galwadau busnes, gan nad oes gan Ofcom awdurdod o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i bennu uchafswm prisiau na gosod egwyddorion tariff ar gyfer galwadau o'r fath.*

A1.141 *Fodd bynnag, wrth i fusnesau ddewis a negodi strwythurau tariff, byddem yn disgwyl iddynt fod yn ymwybodol o'r rheini sy'n berthnasol i ddefnyddwyr, a cheisio cael tariffiau sy'n diogelu elfennau yn nhariffiau defnyddwyr sy'n fuddiol yn eu barn hwy. I gefnogi hyn, bydd yr amod mynediad cyfanwerthol ar gyfer galwadau i rifau 080 ac 116 yn sicrhau os bydd darparwr cyfathrebu'n cynnig y galwadau hyn am ddim i'w gwsmeriaid busnes, bydd yn gallu cael taliad cychwyn teg a rhesymol yn ei ôl.*

A1.142 Pwysodd EE ar Ofcom i gynnal asesiad risg manwl ar gam gweithredu'r broses i ddiwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol.

A1.143 *Mae Ofcom wedi sefydlu tîm prosiect penodol i gefnogi cam gweithredu'r broses i ddiwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol. Mae'r tîm gweithredu hwn yn gweithio gyda'r diwydiant i fonitro cynlluniau gweithredu darparwyr cyfathrebu, ac i nodi a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu. Mae llifoedd gwaith gweithredu yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynllun cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr, darparwyr gwasanaeth a darparwyr cyfathrebu, a sefydlu system ar gyfer pwyntiau prisiau tâl gwasanaeth.*

## Ymatebion eraill ynghylch amddiffyn defnyddwyr

A1.144 Galwodd Dr Nesrine Abdel-Sattar, unigolyn, ar Ofcom i gynnal astudiaethau i'r risgiau i ddefnyddwyr wrth iddynt ddefnyddio apiau ar ffonau clyfar, gan gynnwys apiau twyll ac ysbïo.

A1.145 *Cyhoeddodd Ofcom astudiaeth ym mis Mai 2013 a fu'n edrych ar y risgiau sy'n codi i ddefnyddwyr ffonau clyfar. Ar sail y canfyddiadau, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau i ddefnyddwyr: 'Safer smartphones – a guide to keeping your device secure'.*

A1.146 Galwodd EE ar Ofcom i roi mwy o fanylion ac i roi esboniad pellach am sut mae'n pennu blaenoriaethau gweinyddol ym maes amddiffyn defnyddwyr rhag niwed, yn ogystal â'r rhesymau dros gychwyn neu ymestyn rhaglen fonitro.

A1.147 *Mae meini prawf Ofcom ar gyfer cymryd camau gorfodi, yn unol â'i flaenoriaethau gweinyddol, wedi'u nodi yn y canllawiau gorfodi sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'r rhesymau dros gychwyn neu ymestyn rhaglenni gorfodi a monitro cydymffurfiaeth*

*hefyd wedi'u rhoi yn y diweddariadau i'r Bwletin Cystadleuaeth a Gorfodaeth ar wefan Ofcom.*

A1.148 Croesawodd ACNI waith Ofcom i fynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â chrwydro anfwriadol yng Ngogledd Iwerddon. Pwysodd y Pwyllgor ar Ofcom i barhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr, drwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid.

A1.149 *Rydym yn bwriadu parhau â'n trafodaethau â'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol a monitro unrhyw ddatblygiadau yn y camau maent yn eu cymryd i amddiffyn defnyddwyr. Hefyd, byddwn yn diweddaru ein taflen wybodaeth i ddefnyddwyr ar grwydro anfwriadol ac yn hyrwyddo'r wybodaeth hon ymhlith defnyddwyr.*

A1.150 Roedd y CWU a'r CCP o'r farn y dylai Ofcom ddal ati i ganolbwyntio ar ymdrin â chwynion. Galwodd y CCP am adolygiad o'r broses amgen o ddatrys anghydfod.

A1.151 *Adolygodd Ofcom y cynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod yn 2012, ac yn 2013 gweithiodd gyda'r cynlluniau i gyflwyno diwygiadau er mwyn sicrhau canlyniadau cyson i ddefnyddwyr. Yn y gorffennol rydym wedi lleihau'r cyfnod y gall defnyddwyr gyflwyno eu cwynion i'r broses amgen o ddatrys anghydfod; o 12 wythnos i wyth wythnos. Er hynny, rydym yn dal i bryderu ynghylch nifer isel y defnyddwyr sy'n manteisio ar y dull amgen o ddatrys anghydfod, ac rydym yn edrych ar hyn fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i gydymffurfiaeth darparwyr cyfathrebu â gofyniad GC14. Yn y cyfamser, rydym yn dal i weithio gyda'r cynlluniau er mwyn sicrhau bod eu prosesau'n gyson ac yn gweithio'n dda ar gyfer defnyddwyr.*

**Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir**

## Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol

A1.152 Gofynnodd Paul Ferguson, unigolyn, am esboniad ynghylch y cynigion i reoleiddio sianeli teledu llinol a ddarperir gan brotocol rhyngrwyd nad ydynt yn rhan o Ardal Economaidd Ewrop.

A1.153 *Mae Ofcom wrthi'n edrych ar heriau rheoleiddio er mwyn gwarchod cynulleidfaoedd lle mae darparu drwy brotocol y rhyngrwyd yn golygu nad yw gwasanaethau teledu llinol yn dod o dan drefn reoleiddio.*

A1.154 Roedd DTG o'r farn y gallai weithio gyda'r diwydiant i gyflwyno ateb technegol i fanyleb teledu digidol daearol (D-Lyfr) er mwyn mynd i'r afael â her rheoleiddio gwasanaethau llinol a ddarperir drwy brotocol y rhyngrwyd ar restrau electronig o raglenni.

A1.155 *Wrth ystyried yr heriau a ddaw wrth reoleiddio llwyfannau teledu wedi'u cysylltu er mwyn amddiffyn cynulleidfaoedd, bydd Ofcom yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall datblygiadau technolegol ac i edrych ar atebion technolegol. Croesewir cynnig DTG i ymchwilio i'r maes hwn, a byddwn yn cysylltu â'r Grŵp i drafod ymhellach.*

A1.156 Pwysodd EE ar Ofcom i beidio ag edrych ar effeithiolrwydd cyfryngau e-ddiogelwch technegol ar eu pen eu hunain. Roedd o'r farn mai'r ffordd orau o amddiffyn plant

rhag cael gafael ar gynnwys amhriodol oedd drwy gyfuniad o reolaethau ar gyfer rheini ac addysg.

A1.157 *Fis Tachwedd y llynedd, gofynnodd yr Adran dros y Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ofcom ddarparu cyfres o adroddiadau ar gamau i sicrhau diogelwch ar y rhyngrwyd. Caiff tri adroddiad ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd yr un cyntaf ym mis Ionawr 2014 ac ynddo edrychwyd ar sut roedd rhieni yn defnyddio ystod eang o strategaethau cyfryngu ar gyfer rhieni, eu hymwybyddiaeth o'r rhain a'u hyder ynddynt. Roedd y strategaethau hyn yn amrywio o fonitro'r plentyn a gosod rheolau ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd, i ddefnyddio cyfryngau technegol. Bydd yr ail adroddiad yn canolbwyntio ar ddefnyddio hidlyddion ar rwydweithiau'r cartref, a bydd y trydydd adroddiad yn dychwelyd at y strategaethau cyfryngu, gan fynd ar drywydd datblygiadau yn y meysydd hyn.*

## Datblygu a chefnogi rheoleiddio ar gyfer radio yn y dyfodol

A1.158 Galwodd RadioCentre ar Ofcom i:

- ystyried cwotâu siarad *de facto* sy'n bodoli ar gyfer sawl fformat ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol; er enghraifft, pan fydd angen darparu 'fformat gwasanaeth llawn'; ac
- edrych ar gwotâu cynhyrchu lleol ar gyfer radio.

A1.159 *Nid oes cwotâu siarad ar radio masnachol a dim ond llond llaw o orsafoedd sydd â fformat gwasanaeth llawn. Mae'r gorsafoedd hyn mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau cerddoriaeth ar gael sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ac maent yn dueddol o fod mewn llefydd sydd â delwedd leol gadarn. Rydym o'r farn bod gan yr elfen siarad gyswllt agos â darparu elfen leol. O dan statud, gall unrhyw orsaf wneud cais i Ofcom am gael newid ei fformat a byddwn yn ystyried ceisiadau o'r fath yn erbyn y meini prawf statudol.*

A1.160 *Y llynedd, aethom ati i gynnal prosiect ymchwil mawr i weld a yw cynulleidfaoedd yn fodlon â'r gwasanaethau maent yn eu cael yn awr. Yn benodol, gofynnwyd am y ddarpariaeth leol. Yn ôl y canlyniadau, roedd cynulleidfaoedd yn fodlon ar y cyfan â lefel y ddarpariaeth sy'n bodoli heddiw ac yn dal i werthfawrogi deunydd lleol ar radio masnachol. Roeddent yn credu ei bod yn bwysig bod cyflwynwyr yn rhan greiddiol o'u hardal leol. Er bod deunydd lleol sydd wedi'i wneud y tu allan i'r ardal gymeradwy yn gallu bod yn ddeunydd ategol defnyddiol, rydym o'r farn nad yw'r deunydd hwn yn ddigon i gymryd lle rhaglenni sydd wedi'u gwneud yn lleol.*

*A1.161 Rydym yn ystyried yr amgylchedd cystadleuol ar gyfer radio yn rheolaidd yn ogystal â chyflwr ariannol y sector wrth bennu a yw lefel y rheoleiddio yn dal yn briodol.*

A1.162 Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai o blaid newid i radio digidol nes bod modd gwarantu o leiaf 97% o ddarpariaeth DAB drwy Gymru gyfan. Pwysodd ar Ofcom i barhau i gysylltu â'r BBC a rhanddeiliaid eraill er mwyn cael y gwasanaeth gorau ar gyfer defnyddwyr ledled Cymru.

A1.163 Pwysodd FCS ar Ofcom i annog y llywodraeth i wneud cyhoeddiad cynnar ynghylch dyddiad cau newid i radio digidol.

A1.164 *Y llywodraeth, nid Ofcom sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch unrhyw newid. Y BBC sy'n penderfynu ynghylch darparu amlblecs cenedlaethol y BBC. Mae'r Llywodraeth, y BBC a gweithredwyr masnachol wedi cytuno i ddatblygu darpariaeth*

*DAB leol i gyfateb i ddarpariaeth fasnachol FM. Gofynnwyd i Ofcom reoli’r cynllun i weithredu hyn. Byddwn yn cysylltu â phob parti er mwyn cyflawni hyn.*

A1.165 Galwodd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban (ACS) ar Ofcom i gadw golwg ar ganlyniadau newid i DAB yng nghyd-destun cynnwys lleol yn yr Alban.

A1.166 *Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd parhaus radio lleol ledled y DU ac mae gennym ddyletswydd benodol i sicrhau elfennau lleol ar radio analog (FM ac AM). Nid oes gennym ddyletswydd benodol ar hyn o bryd ynghylch elfennau lleol ar radio digidol. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau lleol yn darlledu ar radio digidol oherwydd eu bod yn gyd-ddarllediad o wasanaethau analog.*

*A1.167 Os bydd y llywodraeth yn penderfynu ynghylch newid, y Senedd fydd yn ystyried a ddylid ymestyn dyletswyddau Ofcom yng nghyswllt elfennau lleol gan edrych ar radio digidol hefyd er mwyn sicrhau darpariaeth radio lleol barhaus ar ôl unrhyw newid.*

*A1.168* Galwodd unigolyn ar Ofcom i edrych ar ddadgyplu trwyddedau analog o DAB, a rhoi’r rhyddid i weithredwyr masnachol ddewis darlledu ar DAB pan fydd yn ymarferol yn fasnachol iddynt wneud hynny.

A1.169 *O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid yw’n bosibl ddadgyplu gofynion trawsyrru FM a DAB os yw gorsaf wedi dewis adnewyddu ei thrwydded analog oherwydd ei bod yn darparu gwasanaeth ar amlblecs DAB perthnasol. Mae’r gofyniad bod yn rhaid i ddeilydd trwydded analog sydd wedi’i hadnewyddu wneud popeth o fewn ei allu i barhau i ddarparu gwasanaeth DAB perthnasol wedi’i nodi mewn statud (gweler adran 104A(12) Deddf Darlledu 1990). Mae pob trwydded a gaiff ei hadnewyddu yn y dull hwn yn cynnwys amod i’r perwyl hwn. Os na lwyddir i gydymffurfio â hyn, gall arwain at dorri amodau’r drwydded.*

A1.170 Gofynnodd unigolyn i Ofcom edrych ar reoleiddio prisiau cludo DAB; yn enwedig lle ceir cyflenwr monopoli mewn unrhyw farchnad benodol, ac i graffu mwy os yw’r cyflenwr monopoli hwnnw yn weithredwr masnachol sydd mewn cystadleuaeth hefyd.

A1.171 *Fel y nodwyd yn ein canllawiau gorfodi, caiff pob rhanddeiliad gyflwyno cwyn os oes ganddo bryder am y gystadleuaeth. Rydym yn fodlon cwrdd â rhanddeiliaid i drafod eu pryderon penodol.*

## Ymatebion eraill am gynnwys darlledu

A1.172 Galwodd Saon Group ar Ofcom i flaenoriaethu rheoleiddio gweithgarwch croes-hyrwyddo gan ddeiliaid trwydded Channel 3.

A1.173 *Mae rheoleiddio croes-hyrwyddo gwasanaethau sy’n berthnasol i ddarlledu gan y rheini sy’n dal trwyddedau yn dal i fod yn un o ddyletswyddau sefydlog Ofcom. Byddwn yn asesu achosion honedig o dorri amodau lle mae tystiolaeth briodol o effaith ar gystadleuaeth neu effaith niweidiol ar ddefnyddwyr. Y Comisiwn Ewropeaidd, yn hytrach nag Ofcom, sy’n gwbl gyfrifol am orfodi rheolau Ewrop ar ddarparu cymorth gwladwriaethol.*

A1.174 Galwodd Dr Nesrine Abdel-Sattar, unigolyn, ar Ofcom i adolygu:

- lefel yr hysbysebion gamblo a chredyd/benthyca a’u heffaith ar gymdeithas Prydain; a

- rheolau munudau hysbysebu.

*A1.175 Ar ddiwedd 2013, cyhoeddodd Ofcom ymchwil ar faint o hysbysebion gamblo a benthyciadau diwrnod cyflog a welir a pha mor aml. Byddwn yn parhau i fonitro hysbysebion y cynnyrch ac yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill a'r llywodraeth i sicrhau bod gwylwyr yn cael eu gwarchod rhag hysbysebu a allai fod yn gamarweiniol, yn niweidiol neu beri tramgwydd.*

A1.176 *Mae Ofcom wedi edrych yn fanwl ar faint o hysbysebu a ganiateir ar wasanaethau trwyddedig ar sawl achlysur, yn fwy diweddar yn ystod 2011-12 pan ddaethom i'r casgliad nad oedd canlyniadau posib ymyrryd ymhellach yn ddigon clir i gyfiawnhau newid y rheolau presennol. Byddwn yn parhau i adolygu datblygiadau yn y sector hwn.*

**Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith**

### Sicrhau bod cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n cyd-fynd â buddiannau'r DU

A1.177 Mynegodd sawl un o'r ymatebwyr gefnogaeth ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn, er bod sawl mater penodol wedi'i godi.

- roedd y CWU o'r farn y dylai Ofcom gyflwyno cyfres o gynigion tebyg i gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar niwtraliaeth y rhyngrwyd;
- pwysodd FCS ar Ofcom i wthio am weithredu'n gynnar ar y cynnig i gael proses cofrestru cyflenwyr sengl, a phrisiau cyfanwerthu cyfatebol a hygyrch ar draws yr holl aelod-wladwriaethau; ac
- roedd Verizon o'r farn ei bod yn bwysig bod y Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau bod ei benderfyniadau yn ystyried gofynion darparwyr busnes.

A1.178 *Mae Ofcom yn gweithio'n agos gyda llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau'r DU yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynigion 'Connected Continent' y Comisiwn Ewropeaidd. Byddwn yn ceisio lleihau'r baich ar y diwydiant a sicrhau bod y cynigion yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU, gan gynnwys yng nghyswllt polisïau rheoli traffig.*

### Ymatebion eraill ynghylch polisi cyhoeddus

A1.179 Galwodd y Library Campaign ar Ofcom i fynegi barn am y ffaith bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu cau drwy'r amser.

A1.180 *Nid yw cylch gwaith Ofcom yn cynnwys llyfrgelloedd yn cau.*

## Dadreoleiddio a symleiddio

A1.181 Croesawodd DTG ymrwymiad Ofcom i adolygu darpariaethau manwl yn y codau technegol, er enghraifft, gofynion bit/cyfradd ar radio, a gofynion ansawdd llun ar y teledu.

*A1.182* Galwodd sawl un o'r ymatebwyr am adolygiad llawn neu adolygiad rhannol o'r Amodau Hawliau Cyffredinol.

*A1.183* *Bydd Ofcom yn parhau i adolygu cynnwys yr Amodau Cyffredinol pan fydd yr angen yn codi mewn perthynas â gwaith, yn unol â'n pwerau a'n dyletswyddau. Nid ydym yn bwriadu adolygu pob un o'r 24 Amod Cyffredinol gyda'i gilydd ar hyn o bryd, ond byddem yn barod i drafod sylwadau rhanddeiliaid ar unrhyw feysydd y maent yn meddwl y dylem roi sylw iddynt.*